

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

Adroddiad Monitro Blynyddol



Cyfnod Monitro Ebrill 1af 2018 - Mawrth 31ain 2019

**Cynllun Datblygu
Lleol Mabwysiedig
2006-2021**

Cynnwys

Tudalen

Pennod 1 - Crynodeb Gweithredol Canlyniadau Allweddol	i-viii ii
Pennod 2 - Rhagymadrodd	1 - 41
Pennod 3 - Dangosyddion Monitro	42 - 120
Pennod 4 - Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol	121 - 133
Atodiad 1 - Dadansoddiad Cysondeb Amcanion / Nodau Llesiant	134 - 144

Pennod 1

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

1.1 O dan adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro sut mae eu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael ei weithredu drwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

1.2 Hwn yw'r pedwerydd AMB ers i'r Cyngor fabwysiadu CDLI Sir Gaerfyrddin yn ffurfiol ar 10fed Rhagfyr 2014. Mae'r AMB hwn yn cwmpasu'r cyfnod o'r 1af Ebrill 2018 hyd at yr 31ain Mawrth 2019 a rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn yr 31ain Hydref 2019. Bydd AMBau dilynol yn parhau i gael eu seilio ar y cyfnod o'r 1af Ebrill hyd at yr 31ain Mawrth.

1.3 Yn dilyn cyhoeddi'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ystyriwyd bod angen cynnal adolygiad o'r CDLI presennol. Roedd yr Adroddiad Adolygu yn ystyried ac yn nodi ardaloedd y CDLI a oedd yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, a'r ardaloedd lle byddai angen newidiadau. Wrth wneud hynny, daeth i'r casgliad y dylid paratoi CDLI Diwygiedig trwy broses adolygu lawn¹. Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 10 Chwefror 2018

1.4 Mae'r Awdurdod Lleol bellach 18 mis i mewn i baratoad CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgymryd ag ymgysylltu â'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth - yn ogystal â chynhyrchu fframwaith tystiolaeth wedi'i ddiweddarau. Fe wnaeth y gwaith parhaol hwn arwain at gyhoeddiad y Strategaeth a Ffefrir am ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2018. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cyhoeddi ei CDLI Adnau diwygiedig ar gyfer ymgynghori ar ddiwedd 2019.

¹ Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – Adroddiad Adolygu (Chwefror 2018)
<https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1213043/ldp-review-report-welsh-version.pdf>

1.5 Mae'r AMB hwn yn parhau i fod yn gyfle pwysig i'r Cyngor asesu'r effaith mae'r CDLI mabwysiedig yn ei chael ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno dadansoddiad manwl o'r ffordd mae'r Cynllun yn parhau i weithio, o'i gyd-destun strategol, ei berfformiad yn erbyn amcanion strategol, a ph'un a yw polisiau unigol sydd â gofyniad monitro penodol yn cyflawni eu canlyniadau disgwylidig. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cymharu perfformiad targedau polisi yn erbyn rhai'r blynyddoedd blaenorol. Bydd y wybodaeth a geir yn yr AMB hwn yn parhau i gael ei defnyddio i lywio polisi'r dyfodol a bydd yn cyfrannu at y gwaith o baratoi CDLI Diwygiedig 2018 – 2033.

Canlyniadau Allweddol

Canfyddiadau Allweddol

1.6 Mae Pennod 3 yr AMB hwn yn ystyried sut mae polisiau strategol a chyffredinol y CDLI mabwysiedig yn perfformio yn erbyn y targedau monitro allweddol penodol, a'r modd y mae ei strategaeth a'i amcanion yn cael eu cyflawni. Cyflwynir trosolwg o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Roedd 277 o gartrefi newydd wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro rhwng 1^{af} Ebrill 2018 a 31^{ain} Mawrth 2019;
- Mae JHLAS 2019 yn dynodi bod gan y Cyngor gyflenwad o dir tai o 3.5 o flynyddoedd. Mae hwn yn lleihad o gymharu â'r astudiaeth flaenorol, a ddynododd gyflenwad tir o 3.8 o flynyddoedd. Hon fyddai'r chweched JHLAS lle mae'r cyflenwad o dir tai wedi bod yn is na'r cyflenwad o dir 5 mlynedd ar gyfer y gofyniad tai sydd wedi'i nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 1;
- Roedd 84.8% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd ar safleoedd dyranedig; mae hyn yn ychydig o ostyngiad o'r AMB blaenorol sef 87.5%. Mae dosbarthiad yr achosion caniatâd cynllunio hyn i'w weld yn bennaf yn yr Ardaloedd Twf sef 54.9%% gyda 2.6% mewn Canolfannau

Gwasanaeth, 9.8%% mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol a 32.8% mewn Cymunedau Cynaliadwy.

- Mae safleoedd bach a gwblhawyd (safleoedd o 4 annedd neu lai) wedi cyfrannu 117 o anheddau i'r cyflenwad cyffredinol, sy'n dangos cynnydd o'r 105 annedd yn 2017/18.
- Cyfanswm nifer yr anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yw 866, gyda 737 ar safleoedd mawr (5 uned neu fwy) ac 129 ar safleoedd bach (4 uned neu lai).
- Yn achos hap-safleoedd (safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu o fewn y Cynllun) gwelwyd cwmp yn yr achosion o ganiatâd a roddwyd, o'r 784 annedd yn ystod 2015/16 i 112 yn yr AMB hwn.
- Mewn perthynas â thai fforddiadwy, mae 122 o anheddau wedi cael caniatâd sy'n ostyngiad ar y 216 yn ystod cyfnod yr AMB blaenorol. Sylwer nad yw hyn yn cynnwys y gofyniad o ran tai fforddiadwy, sef 12%, mewn perthynas â'r safle yng ngorllewin Caerfyrddin;
- Mae'r safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u dyrannu yn y Cynllun ac sydd â chaniatâd cynllunio wedi cynyddu i 30.76 hectar yn ystod cyfnod yr AMB hwn.
- Mae cyfraddau unedau gwag y prif Ffryntiadau Adwerthu a nodwyd fel a ganlyn:
 - Caerfyrddin - 13%
 - Llanelli - 15.3%
 - Rhydaman - 4.8%
- Cyflwynwyd Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli, gan adlewyrchu ymagwedd canol tref byw, sy'n integreiddio â mentrau adfywio eraill.
- Yr Iaith Gymraeg – Nid oes un cais wedi'u cymeradwyo yn yr ardaloedd sensitif yn ieithyddol heb roi mesurau lliniaru ar waith.
- Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr - roedd 40.46 hectar o dir mewn cyflwr da'n cael ei reoli ar 24 o safleoedd. Cafodd 37.96 hectar pellach o dir ei raddio fel tir mewn cyflwr da hefyd, gan roi cyfanswm o

78.42 o hectarau (ffynhonnell: adroddiadau cynnydd Gweithredu PIMS 2018-2019).

- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau 'hynod agored i niwed' ym mharthau llifogydd C1 neu C2 fel y nodwyd ar y Mapiau Cyngor Datblygu (TAN15) lle'r oedd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer cynlluniau sydd â photensial i gyfrannu cyfanswm o 0.69 MW o ynni adnewyddadwy yn y Sir; ac,
- Mae data mwynau'n dynodi bod y banc tir creigiau caled presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 92 oed o leiaf. Mae'r cyfrannau a'r dyraniadau o ran tywod a graean ar y tir yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cyfuno â Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion. Mae'r banc tir ar y cyd yn gyflenwad 12 mlynedd o leiaf.

Newidiadau Cyd-destunol

1.7 Wrth asesu perfformiad y CDLI, rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLI, a fydd yn galw am adolygu'r Cynllun o bosibl.

Y Cyd-destun Cenedlaethol

1.8 Ystyrir y dogfennau a'r cyhoeddiadau allweddol canlynol:

- Deddf Cymru 2017
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Dogfen Ymgynghorol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10

- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy
- Cylchlythyr 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn
- Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr: Mehefin 2018
- Cyngor Sir Caerfyrddin – Amcanion Llesiant
- Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin
- Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin – Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 – 2023
- Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015 - 2030

1.9 Er bod rhai o'r newidiadau sydd wedi'u datgan yn ddwys o ran cyfeiriad yn y dyfodol i gynllunio ar lefel genedlaethol, dim ond Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) sydd ag effaith uniongyrchol nodedig ar weithredu'r CDLI yn y dyfodol. Bydd natur yr effaith ond yn cael ei gwireddu'n llawn pan fydd y fersiwn terfynol wedi'i gyhoeddi a Llawlyfr y CDLI diwygiedig ar gael. Fodd bynnag, bydd goblygiadau'r naill a'r llall yn faterion a fydd yn cael eu hystyried trwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig 2018 – 2033.

1.10 Rhoddir ystyriaeth i gyhoeddiad Amcanestyniadau Aelwydydd a Phoblogaeth Is-genedlaethol 2014 yn Adroddiad Adolygu'r CDLI a phennod 2 isod. Bydd gwaith tystiolaethol ar dwf poblogaeth ac aelwydydd yn chwarae rôl hanfodol wrth lywio strategaeth a chynnwys y CDLI diwygiedig yn y dyfodol, a bydd yn cefnogi gofynion twf y dyfodol ar gyfer ardal y Cynllun.

1.11 Caiff y cynnydd mewn perthynas â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei nodi, a fydd canlyniadau'r ymgynghoriad y Ddrafft FfDC yn cael ei ystyried wrth i'r CDLI Diwygiedig 2018 – 2033 symud drwy'r camau o'i baratoi.

Y Cyd-destun Rhanbarthol

1.12 Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe sy'n cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ac mae'r rhain yn chwarae rôl ranbarthol hollbwysig. Mae'r Ddinas-ranbarth, wrth ddod â busnesau, llywodraeth leol ac amryw o bartneriaid eraill ynghyd, wedi cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd 2013 - 2030 Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Bydd rôl y CDLI yn arwain a chefnogi dyheadau'r Ddinas-ranbarth yn ganolog i'w lwyddiant a byddwn yn monitro ei gynnydd parhaus.

1.13 Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn ym mis Mawrth 2017. Honnir y bydd y fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol ac yn cynhyrchu bron i 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Cyfeirir at 11 o brosiectau mawr yn gyffredinol, gyda'r prosiectau penodol canlynol wedi'u cynnig ar gyfer Sir Gaerfyrddin:

- Pentref Iechyd a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli; a
- Prosiect y diwydiannau creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin.

1.14 Mae llofnodi'r Fargen Ddinesig yn garreg filltir arwyddocaol yn y rhanbarth o ran ei manteision economaidd a'i chyfleoedd i greu swyddi. O ran defnydd tir, mae'r CDLI yn darparu fframwaith positif a rhagweithiol i hwyluso hyn ac mae mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fargen Ddinesig.

Y Cyd-destun Lleol

1.15 Roedd yna gytgord clir rhwng y CDLI a'r Strategaeth Gymunedol Integredig gynt ac mae hyn i'w weld yn yr ymrwymiad i Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, ac mae'r CDLI mabwysiedig yn darparu mynegiant defnydd tir i'r amcan hwn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir yn achos amcanion llesiant y Cyngor a'r angen i sicrhau y bydd yna gysylltiadau parhaus cryf yn cael eu datblygu wrth i ni symud trwy'r broses o baratoi CDLI Diwygiedig 2018 – 2033.

1.16 Yn ôl gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rhaid i'r Cyngor fel corff sy'n cynrychioli'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi Cynllun Llesiant. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: y Sir Gâr a Garem 2018-2023 ym mis Mai 2018, a fydd yn cael ei fonitro i sicrhau fod ei ddiben a'i gynnwys yn gyson â'r CDLI. Yn hyn o beth caiff yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor eu hystyried a'u trafod fel rhan o ddadansoddiad o'u cydnawsedd ag amcanion y CDLI. Cyfeirir at Atodiad 1 yr Adroddiad hwn yn hyn o beth. Dylid hefyd gyfeirio at gynnwys adroddiad yr adolygiad o'r CDLI.

1.17 I grynhoi, bydd y newidiadau cyd-destunol perthnasol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig 2018 – 2033.

Canllawiau Cynllunio Atodol

1.18 Mae nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael eu cyhoeddi sy'n cefnogi ac yn ymhelaethu ar ddehongliad a gweithredu'r CDLI a'i bolisiau a'i ddarpariaethau. Dylid cyfeirio at Bennod 2 yr AMB hwn. Bydd y gwaith o baratoi a mabwysiadu'r CCA yn parhau lle mae angen. Rhoddir ystyriaeth i ofynion y dyfodol gyda golwg ar y CCA sy'n deillio o gynnwys y CDLI Diwygiedig 2018 – 2033.

1.19 Diwygiwyd y CCA ar gyfer Tai Fforddiadwy ym mis Mehefin 2018 a mabwysiadwyd y CCA ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul ym mis Mehefin 2019.

Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

1.20 Mae'n ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol bod awdurdodau lleol yn cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol fel rhan o baratoi'r CDLI. Yn ychwanegol at hyn, mae'n ofynnol cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd o dan Reoliadau'r CDLI.

1.21 Ymysg rhai o'r allbynnau diriaethol i godi o'r adolygiad roedd y cadarnhad bod tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) ar wahân wedi'u dynodi, sef; Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Ceir heriau o ran ôl troed ecolegol a charbon, gyda ffigur y Sir

o 3.36 yn cymharu â ffigur cyfartaledd Cymru o 3.28.

1.22 Er nad oes un o'r dangosyddion wedi cael ei ddileu, dylid nodi bod y golofn sylwebaeth yn ei gwneud yn glir lle nad oes gwybodaeth ar gael a/neu fod gwybodaeth berthnasol. Mewn rhai achosion nid oes gwybodaeth ar gael (neu'n berthnasol) mwyach; mewn achosion eraill nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl i alluogi'r monitro i fod yn ddefnyddiol. Bydd cyfleoedd i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn yr is-adran Polisi Corfforaethol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod i ddatblygu adolygiad integredig o'r llinell sylfaen gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Casgliadau ac Argymhellion

1.23 Yr AMB hwn yw'r pedwerydd adroddiad monitro yn dilyn mabwysiadu'r CDLI ym mis Rhagfyr 2014. Mae canfyddiadau'r AMB yn darparu cyfle pwysig i'r Cyngor barhau i asesu effeithiolrwydd y Cynllun. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig cydnabod bod yr adroddiad hwn yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Adolygu'r CDLI a argymhellodd fod CDLI Diwygiedig yn cael ei baratoi. Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei gymeradwyo ac mae'r gwaith o gymeradwyo'r CDLI diwygiedig 2018 – 2033 wedi dechrau.

1.24 Mae llunio AMBau yn parhau i fod yn berthnasol, yn enwedig wrth gasglu dystiolaeth sy'n ategu'r broses o baratoi'r CDLI diwygiedig.

1.25 Tra ystyrir bod cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu llawer o bolisïau ac amcanion y Cynllun mabwysiedig, ceir elfennau a chydrannau nad ydynt yn cyflawni fel y bwriedir iddynt wneud. Yn hyn o beth mae canfyddiadau'r AMB hwn yn gyson â rhai AMBau blaenorol a chynnwys Adroddiad Adolygu'r CDLI.

Argymhellion

1.26 Bod y canfyddiadau a'r dystiolaeth a geir yn yr AMB hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI diwygiedig 2018-2033, a'u bod yn llywio'r dystiolaeth a gesglir i'r diben hwn.

1.27 Rhaid i'r pedwerydd AMB hwn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31^{ain} Hydref 2019 yn unol â gofynion statudol, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Pennod 2

Rhagymadrodd

Cefndir

2.1 Mae darpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Gâr, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal weinyddol. Cafodd y CDLI ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar y 10^{fed} Rhagfyr 2014 ac mae'n nodi polisiâu a chynigion yr Awdurdod o ran datblygu a defnyddio tir yn y dyfodol. Disodlodd y CDLI y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) blaenorol a chaiff ei ddefnyddio i arwain a rheoli datblygiadau. Y CDLI sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer penderfyniadau cyson a rhesymol, a llywio cyfleoedd y dyfodol ar gyfer buddsoddiad a thwf. Mae'r polisiâu a'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau defnydd tir ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau (h.y. tai, cyflogaeth, adwerthu, addysg, gofod agored ac ati) yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion unigol. Mae'r Cynllun yn effeithio'n uniongyrchol ar fywyd pob preswlydd yn y Sir ac mae ganddo oblygiadau mawr i raglenni buddsoddi, cynlluniau a strategaethau eraill, cymunedau a pherchnogion tir fel ei gilydd. Wrth wneud hynny, mae'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â pha fath o ddatblygu fydd yn cael ei ganiatáu ac na fydd yn cael ei ganiatáu mewn manau penodol dros gyfnod y Cynllun. Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhan o'r Sir sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; yno, dylid cysylltu ag Awdurdod y Parc ynglŷn â'r cynllun datblygu a'r cynigion datblygu yn yr ardal honno.

Adroddiad Adolygu'r CDLI

2.2 Yn dilyn canfyddiadau ac argymhellion yr ail AMB (2016/2017), penderfynwyd paratoi Adroddiad Adolygu ar y CDLI ac ystyried y materion sy'n codi mewn perthynas â chyflwyno a gweithredu'r Cynllun. Wrth baratoi Adroddiad Adolygu'r CDLI, daeth yn amlwg y byddai rhaid cynnal proses adolygu lawn er mwyn mynd i'r afael â maint a goblygiadau'r materion y tynnwyd sylw atynt.

2.3 Yn ogystal, pedair mlynedd o hyd oes y CDLI mabwysiedig oedd ar ôl, a thynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i ddechrau ar gynllun diwygiedig i ddisodli'r CDLI presennol cyn iddo ddod i ben ar ddiwedd 2021;

2.4 Yng ngoleuni'r materion hyn, penderfynwyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 10^{fed} Ionawr 2018 i fwrw ymlaen yn ffurfiol â'r gwaith o baratoi CDLI Diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

2.5 Bydd cynnwys Adroddiad Adolygu'r CDLI, a chanfyddiadau'r pedwar AMB yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth wrth dywys a llywio ei gynnwys ac unrhyw ofynion tystiolaethol a ddaw i'r amlwg.

Gofyniad i Fonitro'r CDLI

2.6 Mae'n ofynnol yn ôl **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004** i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar ei CDLI ar ôl ei fabwysiadu, a chadw llygad yn rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Hefyd, o dan adran 76 o'r Ddeddf, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu gwybodaeth am y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i'w gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Gâr erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Mae paratoi AMB yn elfen annatod felly o broses statudol y cynllun datblygu.

2.7 Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 fod AMB yn nodi unrhyw bolisiau sydd wedi'u pennu nad ydynt yn cael eu gweithredu.

2.8 Lle caiff polisi o'r fath ei nodi, rhaid i'r AMB gynnwys datganiad sy'n nodi:

- y rhesymau pam nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
- y camau (os oes rhai) y bwriedir eu cymryd fel bod modd gweithredu'r polisi; ac
- a oes angen diwygio'r cynllun i ddisodli neu newid y polisi.

2.9 Mae'n ofynnol hefyd i'r AMB bennu:

- y cyflenwad tir ar gyfer tai o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol; a
- nifer (os oes rhai) yr anheddau fforddiadwy a'r tai marchnad agored ychwanegol net a godwyd yn ardal yr ACLI.

Cynnwys a Strwythur

2.10 Yr AMB yw'r brif ffordd o fesur sut mae polisiâu'r Cynllun yn cael eu gweithredu a pha mor llwyddiannus ydynt, a bydd yn adrodd ar faterion sy'n effeithio ar amcanion y Cynllun. Bydd yr AMB hefyd yn dadansoddi effeithiolrwydd polisiâu'r Cynllun, ac a ydynt yn dal yn berthnasol, yng ngoleuni newidiadau mewn polisi cenedlaethol a newidiadau cyd-destunol. Gallai canfyddiadau'r AMB arwain at newidiadau i bolisiâu er mwyn gwella'u heffeithiolrwydd ac, mewn achosion mwy eithafol, gallai arwain at adolygu rhan o'r Cynllun, neu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

2.11 Mae monitro'n rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisiâu, gweithredu polisiâu, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Drwy gyhoeddi'r AMB, mae'r monitro hefyd yn helpu i wella tryloywder y broses gynllunio, ac mae'n ffordd o roi gwybod i randdeiliaid, y gymuned a grwpiau busnes am faterion sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu.

2.12 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Argraffiad 2 (2015) yn ategu'r gofynion monitro uchod ac yn nodi'r prif agweddau hyn y byddai'n fuddiol eu cynnwys mewn unrhyw AMB:

- Canfyddiadau allweddol;
- Newidiadau cyd-destunol sylweddol;
- Monitro cynaliadwyedd;
- Monitro strategaethau;
- Monitro polisiâu;

- Casgliadau ac argymhellion.

2.13 Nid yw'n realistig nac yn angenrheidiol monitro holl bolisïau'r CDLI. Byddai hynny'n arwain at ddogfen afresymol o fawr a chymhleth. O ganlyniad, bydd y CDLI, drwy ei fframwaith monitro a'r AMB hwn, yn asesu perfformiad polisïau o ran cyflawni amcanion integredig y cynllun. Mae'n asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisïau a safleoedd allweddol y CDLI yn cael eu gwireddu a dyma'r prif ddull o adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI.





2.14 Mae cynnwys yr AMB fel a ganlyn felly:

- **Crynodeb Gweithredol**
- **Rhagymadrodd:** Yn cyflwyno'r AMB, yn amlinellu'r gofyniad i fonitro'r CDLI a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) / yr Arfarniad Cynaliadwyedd, a strwythur yr AMB.
- **Newidiadau Cyd-destunol:** Yn nodi unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sydd y tu allan i gyloch gwaith y Cynllun, gan gynnwys y rheiny'n ymwneud â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a allai effeithio ar fframwaith polisi'r CDLI.
- **Fframwaith Monitro'r CDLI:**
 - **Monitro'r CDLI:** Yn amlinellu canfyddiadau'r Fframwaith Monitro, gan gynnwys nodi polisïau sy'n berthnasol i'r targedau a'r sbardunau sydd wedi'u nodi. Mae'n cynnwys asesu unrhyw amgylchiadau lliniaru a, lle mae hynny'n briodol, argymhell gweithredu i sicrhau bod y polisïau'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus.
 - **Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd:** Yn amlinellu canfyddiadau gwaith monitro'r Cynllun yn erbyn y dangosyddion sydd wedi'u nodi yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS.
- **Casgliadau ac argymhellion:** Datganiad yn nodi unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol yn sgil y canlyniadau monitro.

Fframwaith Monitro'r CDLI

2.15 Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLI ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau a dangosyddion ac yn diffinio sbardunau sy'n arwain at weithredu pellach. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru uchod a'r canllawiau monitro a chafodd ei ystyried yn yr Archwiliad Cyhoeddus a thrwy Adroddiad yr Arolygydd ar CDLI Sir Gaerfyrddin. Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB.

2.16 Mae'r AMB hwn yn defnyddio system goleuadau traffig wrth fonitro'r polisïau. Mae'n golygu bod modd dehongli llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, yn hawdd yn weledol. Fodd bynnag, mae angen darllen a deall y naratif esboniadol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad i gael dehongliad manwl. O dan yr amgylchiadau hynny lle nad yw dangosydd monitro wedi cyrraedd ei darged, neu lle mae sbardun asesu wedi dod yn weithredol, caiff y dangosydd ei ystyried er mwyn asesu'r amodau sy'n dylanwadu ar y methiant i gyrraedd y targed ac effaith hynny o ran gweithredu'r polisi.

Cyrraedd neu ragori ar y targed polisi.	
Y targed polisi ddim yn cael ei gyrraedd fel y rhagwelwyd ar hyn o bryd ond nid yw'n arwain at bryderon ynglŷn â gweithredu'r polisi.	
Y targed polisi ddim yn cael ei gyrraedd fel y rhagwelwyd ac mae pryderon yn sgil hynny ynglŷn â gweithredu'r polisi.	
Dim casgliad i'w lunio – data cyfyngedig ar gael.	

2.17 Mae'r opsiynau canlynol ar gael i'r Cyngor mewn perthynas â phob dangosydd a'i sbardun a byddant yn cael eu hystyried fel tystiolaeth wrth baratoi'r CDLI diwygiedig 2018 - 2033. Bydd yr AMB hwn yn asesu difrifoldeb y sefyllfa mewn perthynas â phob dangosydd ac yn argymhell ymateb priodol.

- **Parhau i Fonitro:** Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes rheswm i gynnal adolygiad o'r polisi.
- **Angen Hyfforddiant ar Swyddogion / Aelodau:** Lle mae dangosyddion sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio'n awgrymu nad yw polisïau'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar gyfer swyddogion neu Aelodau.
- **Angen Canllawiau Cynllunio Atodol / Briffiau Datblygu:** Er y bydd y Cyngor yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu trwy gydol cyfnod y Cynllun ac fel rhan o'r CDLI Diwygiedig, efallai y bydd y dangosyddion yn awgrymu y dylid darparu arweiniad pellach i ddatblygwyr ar y ffordd gywir o ddehongli polisi. Hefyd, pe na bai safleoedd yn dod ger bron fel y rhagwelwyd, bydd y Cyngor yn ystyried gweithio gyda datblygwyr / tirfeddianwyr i ddod â Briffiau Datblygu ymlaen ar gyfer safleoedd allweddol, er mwyn helpu i gychwyn y broses ddatblygu.
- **Ymchwil Polisi / Ymchwiliad:** Lle mae dangosyddion monitro'n awgrymu nad yw polisïau'r CDLI mor effeithiol ag y bwriadwyd, cynhelir ymchwil ac ymchwiliadau pellach ynghyd â chasglu tystiolaeth fel sail i unrhyw benderfyniad i adolygu'r polisi yn ffurfiol.
- **Adolygiad Polisi:** Lle mae dangosyddion monitro'n awgrymu bod angen gwneud newidiadau i'r CDLI, bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o adolygu'r CDLI.

Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd 2011)

2.18 Mae Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS, sy'n cyd-fynd â'r CDLI mabwysiedig, yn nodi dangosyddion sylfaenol ar gyfer monitro'r Arfarniad

Cynaliadwyedd. Dylid cyfeirio at Bennod 4 lle nodir sut mae monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer yr AMB hwn.

2.19 Credir bod monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn help wrth ddadansoddi perfformiad y CDLI drwyddo draw. Ni ddylid cynnal y broses o fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar wahân i'r gwaith o fonitro'r Cynllun. Dylai helpu i sefydlu darlun cyffredinol o gyflwr y Sir o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

2.20 Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn unol â'r ymrwymiad i baratoi'r CDLI Diwygiedig 2018 – 2033.

Gwybodaeth Gyd-destunol

2.21 Wrth ystyried perfformiad a gweithrediad y CDLI, rhaid hefyd ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol a allai fod wedi effeithio ar gyflawniad y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gydnabod na ddylai'r CDLI gael ei ystyried ar ei ben ei hun ac y gall amryw o ffactorau allanol a ffactorau eraill effeithio ar ei gyflawni.

2.22 Bydd yr AMB hwn yn nodi'r newidiadau perthnasol i bolisi cynllunio cenedlaethol lle gallai fod goblygiadau i'r CDLI ac i'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Gellir cyfeirio ymhellach hefyd at ddogfennau ac ystyriaethau cyd-destunol allweddol. Gall esiamplau o'r fath, er nad ydynt o angenrheidrwydd wedi digwydd yn ystod cyfnod yr AMB, fod, yn rhinwedd eu pwysigrwydd a'u perthynas i broses y Cynllun Datblygu, angen ystyriaeth benodol wrth ddatblygu'r Cynllun Diwygiedig.

2.23 Hefyd, bydd yn nodi'r ffactorau a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLI a pharatoi'r CDLI Diwygiedig. Ategir hyn gan gyfeiriadau ychwanegol at newidiadau cyd-destunol yn y canlyniadau monitro polisi:-

- Cyd-destun Cenedlaethol;
- Cyd-destun Rhanbarthol; a
- Chyd-destun Lleol.

Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi Cenedlaethol

Deddf Cymru (2017)

2.24 Mae Deddf Cymru 2017, ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 31^{ain} Ionawr 2017, er bod y tu allan i gyfnod monitro'r AMB hwn, yn darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer i ddeddfwriaethu ar unrhyw bwnc ar wahân i'r pynciau sydd wedi'u cadw gan Senedd y DU. Felly, mae'n dal i fod yn berthnasol o safbwynt cyd-destunol. Mae Deddf Cymru 2017 yn gweithredu elfennau o gytundeb Dydd Gŵyl Dewi oedd angen newidiadau deddfwriaethol. Ei nod yw creu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru, sy'n gadarn ac yn barhaol. Yn benodol, mae Deddf Cymru'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy symud at fodel o bwerau cadw ar gyfer Cymru.

2.25 Hefyd mae Deddf 2017 yn datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru mewn meysydd lle'r oedd consensws gwleidyddol i gefnogi datganoli pellach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Datganoli mwy o gyfrifoldeb i'r Cynulliad i weithredu ei faterion ei hun, gan gynnwys penderfynu ar ei enw;
- Datganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad ar gyfer polisi porthladdoedd, cyfyngiadau cyflymder, cofrestru bysus, rheoleiddio tacsis, etholiadau llywodraeth leol, carthffosiaeth a chaniatáu ynni hyd at 350MW (gweler isod am fanylion ychwanegol);
- Datganoli cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru am drwyddedau a chadwraeth forol a chaniatadau ynni yn rhanbarth môr mawr Cymru; ac ymestyn y cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu i gynnwys yr adeiladau ynni a eithrir;
- Datganoli pŵer dros etholiadau'r Cynulliad;
- Datganoli pwerau dros drwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir;
- Alinio'r ffin ddatganoli ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr; a
- Sefydlu mewn statud Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru i oruchwylio tribiwnlysoedd datganoledig a chaniatáu trawsleoli deiliaid swyddi barnwrol.

2.26 Mewn perthynas â Deddf 2017 a datganoli pwerau, gwneir cyfeiriad penodol at faterion perthnasol i'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Nid oedd hwn yn fater datganoledig yn flaenorol ond mae bellach wedi cael ei ddatganoli fel rhan o Ddeddf 2017, a throsglwyddwyd y pwerau i Lywodraeth Cymru. Yn y cyswllt hwn mae Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r ddeddfwriaeth eilaidd bresennol.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.27 Fe gaeth y Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ei Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015, ac mae y tu allan i gyfnod monitro'r AMB hwn. Fodd bynnag, yn rhinwedd y newidiadau mae'n eu creu, mae o berthnasedd parhaus o ran cyd-destun. Mae'n cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn hwyluso datblygiadau.

2.28 O ran y cynllun datblygu, mae Deddf 2015 yn ceisio cryfhau'r drefn lle mae'r 'cynllun yn arwain', gyda'r CDLI yn cadw rôl sylfaenol. Mae'n ychwanegu ymhellach at y system bresennol lle mae'r cynllun yn arwain drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar lefel Cymru gyfan a Chynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol i fynd i'r afael â materion traws ffiniol fel tai, cyflogaeth, gwastraff a thrafnidiaeth. Tra ydym yn nodi bod hyd a lled unrhyw Gynlluniau Datblygu Strategol yn parhau'n aneglur ac nad yw eu cwmpas daearyddol wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd, dim ond i ardaloedd sydd ag arwyddocâd ehangach nag arwyddocâd lleol yn unig y bydd y cynlluniau strategol yn berthnasol (yn nodedig, Caerdydd, Abertawe a choridor yr A55).

2.29 Isod ystyrir y newidiadau uchod ymhellach mewn perthynas â system y Cynllun Datblygu:

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

2.30 Yr amserlen ar gyfer cwblhau a chyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw mis Medi 2020 ac, ar ôl iddo gael ei baratoi, bydd yn rhan o'r cynllun datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru, gan gymryd lle Cynllun Gofodol Cymru. Bydd yn datgan darpariaethau allweddol y polisi cynllunio i ddarparu cyfeiriad ar bob lefel yn fframwaith y cynllun datblygu. Rhaid wrth 'gydymffurfiaeth' â'i ddarpariaethau.

2.31 Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gwneud y canlynol:

- datgan lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut gall y system gynllunio – yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol – gyflawni hyn;
- darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chefnogi penderfyniadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- gweithredu ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n datgan polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru a bydd yn parhau i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- cefnogi strategaethau economaidd, trafndiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau bod modd eu rhoi ar waith drwy gyfrwng y system gynllunio; a
- cael eu hadolygu bob 5 mlynedd.

2.32 Cyfeirir at yr ymgynghoriad ar y **Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**. Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar y Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir yn gynnyrch y gwaith o gasglu tystiolaeth, ymgysylltu ac ymgynghori a gyflawnwyd hyd yma gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi nodi'r materion allweddol y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ymateb iddynt a chynllunio ar eu cyfer. Mae hyn wedi bod o gymorth i ddatblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r opsiwn a ffefrir. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch ei fersiwn drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (rhwng Awst a Thachwedd 2019).

2.33 Bydd gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) adolygu eu CDLI cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi naill ai Gynllun Datblygu Strategol neu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae polisïau neu faterion newydd wedi codi. Mewn sefyllfa lle dangosir nad yw CDLI yn cydymffurfio'n gyffredinol, bydd angen ei adolygu. Wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig bydd sylw yn cael ei roi i gynnydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a bydd hyn yn cael ei fonitro.

Cynlluniau Datblygu Strategol

2.34 Fel y nodwyd uchod, mae Deddf 2015 yn cyflwyno pwerau i ddynodi ardaloedd cynllunio strategol ynghyd â sefydlu panelau cynllunio strategol. Bydd y Panelau, y caiff eu haelodaeth ei diffinio mewn canllawiau, yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yng nghyd-destun strategol rhanbarth/is-ranbarth. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai hyn yn weithredol ar draws Cymru gyfan o ran dynodiad CDS.

2.35 Rhagwelir y bydd CDSau yn ystyried elfennau strategol penodol fel tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, mwynau a gwastraff. Yn y cyswllt hwn, bydd CDS yn caniatáu ystyried materion 'mwy na lleol' a chynllunio ar eu cyfer mewn cyd-destun strategol. Mae materion o'r fath yn torri ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol ac, oherwydd eu natur ranbarthol, weithiau mae'n anodd darparu'n effeithiol ar eu cyfer oddi mewn i ffiniau gweinyddol. Dylid nodi y bydd rhaid i CDS fod yn gyson â darpariaethau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac, yn yr un modd, bydd rhaid i CDLlau fod yn gyson â'r CDS.

2.36 Gan nad yw eu graddfa ddaearyddol wedi'i diffinio ar hyn o bryd, nid yw cwmpas gofodol unrhyw ddarpar CDS yn glir ar hyn o bryd. Mater i'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r gwaith o lunio CDS yw diffinio ardal ofodol y cytunir arni yn seiliedig ar dystiolaeth.

2.37 Os derbynnir achos am CDS gan LIC, rhaid nodi awdurdod cyfrifol. Dylid nodi nad oes raid i'r ACLI, o angenrheidrwydd, fod yr ACLI mwyaf neu'r un mwyaf poblog. Fodd bynnag, dylai fod â CDLI yn ei le.

2.38 Wrth gynnig CDS, rhaid wrth ddealltwriaeth glir o'r rheswm dros fod angen cynllun o'r fath, ac ystyried a oes modd rhoi sylw i / darparu'r materion cynllunio strategol drwy gyfrwng y CDLlau presennol. Yn y cyswllt hwn, byddai'n rhaid wrth ffocws strategol clir ar y cyd ar gyflawni mewn materion fel tai a thwf cyflogaeth ledled y rhanbarth. Fodd bynnag, credir ei bod yn hanfodol cael barn gasgliadol ar draws yr holl awdurdodau sy'n ymwneud â'r trafodaethau parhaus angenrheidiol.

Cynlluniau Datblygu Lleol

2.39 Ni fydd angen CDLlau ar eu ffurf bresennol mwyach mewn ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan CDS. Yn hytrach, caiff yr hyn a elwir yn CDLI 'ysgafn' ei baratoi. Bydd cynlluniau ysgafn o'r fath yn ymdrin â materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y CDS, fel sy'n briodol. Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai CDS gwmpasu Sir yn rhannol, ac felly efallai y bydd angen CDLI manylach o hyd ar gyfer y rhan nad yw yng nghwmpas y CDS. Bydd goblygiadau unrhyw waith CDS yn y dyfodol o ran cynnwys y CDLI yn cael eu monitro'n ofalus.

Cynlluniau Lleoedd

2.40 Mae rôl newydd y Cynlluniau Lleoedd yn adlewyrchu eu cydnabod drwy gyfrwng yr agenda Cynllunio Positif a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Er na chyflwynodd y Ddeddf y rhain yn statud, maent yn cael eu gweld fwy a mwy fel cyfryngau ar gyfer adlewyrchu dyheadau cymunedol, gan gysylltu â'r CDLI a'r Cynllun Llesiant.

2.41 Yn eu hanfod maent yn canolbwyntio ar y Gymuned fel mecanwaith i gymunedau ddod at ei gilydd i drafod (gan gynnwys gydag eraill), ystyried a chytuno ar sut maent yn dymuno gweld eu cymuned yn datblygu. Gan feddwl am hyn, dylai'r gwaith o'u paratoi fod wrth galon y gymuned, gyda chydweithredu gan yr holl randdeiliaid yn y gymuned, partïon a chyrff eraill ac, yn allweddol, yr awdurdod lleol. Byddai hyn yn datblygu ac yn adeiladu ar y fframwaith polisi ehangach i adlewyrchu

a chytuno ar ddyheadau cymunedol, gan wella tystiolaeth leol yn seiliedig ar anghenion cymunedol a lleol.

2.42 Yn y cyswllt hwn, bydd disgwyl i ACLlau weithio gyda'r Cyngorau Tref a Chymuned hynny sy'n dymuno paratoi Cynllun Lleoedd. Gallai cynlluniau o'r fath ymdrin ag agwedd thematig neu ganllawiau ar gyfer safleoedd penodol i ategu'r polisiau a'r cynigion mewn CDLI mabwysiedig. Rhaid i Gynlluniau Lleoedd ar eu cyfer fod yn gwbl ystyrllon a dylanwadu ar benderfyniadau, gan gydymffurfio â'r CDLI. O'r herwydd, gall y rhain fod yn CCA.

2.43 Mae'r Ddeddf 2015 yn darparu ar gyfer gwella cadernid. Bydd y Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ACLlau i weithio gyda'i gilydd ac i ACLlau gael eu huno.

2.44 O'i hystyried ar y cyd â'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau eilaidd, bydd y Ddeddf yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi darparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith y mae ar Gymru eu hangen;
- Darparu cyfleoedd i amddiffyn a gwella ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf;
- Cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

2.45 Mae'r Ddeddf, wrth nodi diben statudol i gynllunio yng Nghymru, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill (wrth iddynt ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu neu reoli datblygu) gyfrannu tuag at wella lles Cymru fel rhan o sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y ddarpariaeth a'r gofynion i sicrhau datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.46 Mewn termau Rheoli Datblygu, mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- gwasanaeth cyn-ymgeisio a ffioedd cyn-ymgeisio safonol;

- ymgynghoriad cyn-ymgeisio â'r gymuned ac ymgynghoreion statudol ar rai datblygiadau;
- ceisiadau i Weinidogion Cymru o ran Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r opsiwn o gyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru lle dynodwyd bod Cyngor yn perfformio'n wael;
- y Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol;
- y gofyniad i roi Hysbysiad i'r Cyngor cyn i ddatblygiad gychwyn;
- newidiadau i faint pwyllgorau cynllunio a chynllun dirprwyo cenedlaethol;
- prosesau newydd i ddilysu ceisiadau cynllunio ac apelio;
- cael gwared â'r gallu i amrywio cais cynllunio unwaith y caiff apêl ei chyflwyno;
- pwerau llymach mewn perthynas â chamau gorfodi, gan gynnwys pwerau i wrthod ceisiadau ôl-weithredol mewn perthynas â datblygiadau lle mae gorfodaeth ar waith;
- a sbardun digwyddiadau i wahardd cofrestru lawntiau tref neu bentref.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd darpariaethau'r Ddeddf, er nad ydynt o anghenraid yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig a'r AMB hwn, yn cael eu monitro – yn arbennig o ran y pwyslais ychwanegol y mae'n ei roi ar gynlluniau datblygu ar ffurf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol arfaethedig, lle mae trafodaethau traws ffiniol a'r posibilrwydd o gydweithio pellach yn ganolog.

Rhoddir ystyriaeth briodol i gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft sy'n cael ei ddatblygu, wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

2.47 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Nod cyffredinol y Ddeddf yw ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf weithio mewn ffordd sy'n

gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn helpu i greu Cymru 'rydyn ni am fyw ynddi nawr ac yn y dyfodol'.

2.48 Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n rhoi cyfarwyddyd i sefydliadau ar sut mae mynd ati i gyflawni'u dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r corff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.49 Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol a fydd yn disodli'r Strategaeth Gymunedol Integredig bresennol. O ystyried bod hyrwyddo datblygu cynaliadwy'n egwyddor sylfaenol yn y CDLI, mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r Cynllun a'r Ddeddf/Cynlluniau Llesiant. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cyfres o nodau llesiant i ymgyrraedd atynt wrth geisio datblygu'n gynaliadwy.

2.50 Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'r cynlluniau llesiant wrth baratoi CDLIau ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd y gofynion o dan y dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf yn cael eu datblygu mewn unrhyw AMBau yn y dyfodol ac fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Yn hyn o beth dylid cyfeirio at y cyd-destun lleol isod ac at Atodiad 1.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.51 Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'n cyflawni yn erbyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd.

2.52 Dyma rannau allweddol y Ddeddf

- Rhan 1: Rheolaeth gynaliadwy ar gyfoeth naturiol – fel bod adnoddau Cymru'n cael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy ac unedig.

- Rhan 2: Newid yn yr hinsawdd – mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu targedau statudol o ran lleihau allyriadau, gan gynnwys o leiaf 80% o ostyngiad mewn allyriadau erbyn 2050, ac i gyflwyno cyllidebau carbon er mwyn helpu i gyrraedd y targedau hynny.
- Rhan 4: Casglu a gwaredu gwastraff – mae'n gwella prosesau rheoli gwastraff drwy ein helpu i sicrhau bod mwy o wastraff busnes yn cael ei ailgylchu a bod gwelliannau o ran trin gwastraff bwyd ac o ran faint o ynni sy'n cael ei adfer.
- Rhannau 5 a 6: Pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn a thrwyddedu morol – mae'r rhannau hyn yn egluro'r gyfraith sy'n ymdrin â rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn a thrwyddedu morol.
- Rhan 7: Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a draenio tir – mae'n egluro'r gyfraith sy'n ymdrin â systemau rheoleiddiol eraill ar gyfer yr amgylchedd, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd a draenio tir.

2.53 Mae'r datganiad polisi'n ei gwneud yn ddyletswydd i weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol.

2.54 Un elfen allweddol o'r Ddeddf yw'r ddyletswydd mae'n ei phennu i awdurdodau lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'. Mae'r Ddeddf, trwy wneud hynny, yn datgan ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus flaengynllunio ac adrodd yn ôl ar sut maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd y CDLI Diwygiedig yn cael ei baratoi mewn modd sy'n ymateb i ddarpariaethau'r Ddeddf. Nodir fodd bynnag, mewn perthynas â'r ddyletswydd o dan y Ddeddf i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth', fod fframwaith polisi'r CDLI yn cynnwys darpariaethau o'r fath. Fodd bynnag, bydd cwmpas y fframwaith presennol yn cael ei adolygu a'i ddatblygu fel y bo'n briodol.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

2.55 Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Chwefror 2016 a daeth yn ddeddf ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016.

2.56 Mae tri phrif nod i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016:

- cryfhau'r warchodaeth i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;
- rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy; a
- gwneud y penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw ac atebol.

2.57 Mae'r Ddeddf yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth y DU – Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Ar hyn o bryd, y rhain sy'n darparu'r fframwaith er mwyn gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau annibynnol yn ymwneud ag enwau lleoedd hanesyddol; cofnodion am yr amgylchedd hanesyddol a'r Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd sylw yn cael ei roi i gynnwys y Ddeddf a'i gofynion, gan gynnwys deddfwriaeth eilaidd a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10: Rhagfyr 2018

2.58 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn pennu polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ategir y ddogfen gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau egluro polisi, sydd ar y cyd â PCC yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae PCC, TAN 1, MTAN 2 a'r llythyrau egluro polisi yn ffurfio'r polisi cynllunio cenedlaethol.

2.59 Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd goblygiadau a gofynion Polisi Cynllunio Cymru yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

2.60 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru (CMCC). Bydd yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf o ran defnydd cynaliadwy o'n moroedd. Bydd CMCC yn cynnwys cynlluniau a pholisïau ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr. Bydd canllawiau gweithredu yn helpu awdurdodau i ddeall y penderfyniadau y bydd angen iddynt eu gwneud.

2.61 Sefydlwyd y gofyniad i lunio'r Cynllun o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, a Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer y canlynol:

- rhanbarth glannau Cymru (hyd at 12 milltir fôr)
- rhanbarth môr mawr Cymru (12 i 200 milltir fôr)

2.62 Bydd CMCC yn gwneud y canlynol:

- cefnogi ein gweledigaeth ynghylch moroedd glân, iach, diogel ac amrywiol
- llywio datblygu cynaliadwy yn y dyfodol
- cefnogi twf mannau morol ac adnoddau naturiol ('twf glas')

2.63 Yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch cynnwys y CMCC drafft, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailstrwythuro'r CMCC drafft i wahanu'r canllawiau gweithredu manwl a'r dystiolaeth sy'n sylfaen iddynt er mwyn creu fframwaith ategol. Bydd y

CMCC craidd byrrach yn canolbwyntio ar y weledigaeth, yr amcanion a'r polisïau, gan ymateb i adborth gan randdeiliaid ynghylch cynyddu mynediad at wybodaeth allweddol o safbwynt defnyddwyr. Bydd y canllawiau gweithredu manwl, sy'n rhan o'r CMCC drafft ar hyn o bryd, yn rhan o gyfres o ganllawiau ategol.

2.64 Credir y bydd y dull gweithredu hwn yn caniatáu diweddariadau amserol ac ymatebol i'r canllawiau. Hefyd, bydd yn cefnogi'r broses o ystyried tystiolaeth gyfredol gan Borth Cynllunio Morol Cymru, yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd y goblygiadau a'r gofynion sy'n deillio o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n cael ei ddatblygu, yn cael eu hystyried yn llawn yn rhan o'r broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy

2.65 Er iddo gael ei gyhoeddi y tu allan i gyfnod yr AMB hwn, mae canlyniad yr adolygiad a'i oblygiadau ar gyfer y dyfodol o ran darparu tai fforddiadwy wedi'u cynnwys i roi'r wybodaeth gyflawn a'r cefndir cyd-destunol ar gyfer yr AMB yn ogystal â pharatoi'r CDLI Diwygiedig.

2.66 Sefydlwyd Panel Annibynnol ym mis Mai 2018 gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd, er mwyn cynnal yr adolygiad. Pwrpas yr adolygiad oedd archwilio'r trefniadau presennol sy'n cefnogi datblygu tai fforddiadwy a gwneud argymhellion ynghylch newidiadau a gynlluniwyd i gynyddu'r cyflenwad a gwella'r ddarpariaeth gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

2.67 Mae argymhellion y Panel, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad terfynol², wedi'u cynllunio i sicrhau bod patrymau datblygu yn helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy, yn ogystal ag ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol i'r angen am dai.

2.68 Cyfeirir at lythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Arweinwyr a Phrif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol, dyddiedig 8 Gorffennaf 2019. Roedd yn amlinellu disgwyliadau'r Gweinidogion o ran cynlluniau datblygu i ddarparu tai cymdeithasol cyn y cyflwynir newidiadau i PCC.

Goblygiadau i'r CDLI

Caiff canlyniad yr adolygiad a dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyflenwad o dai fforddiadwy eu monitro a'u hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI diwygiedig.

Cylchlythyr 005/2018 : Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

2.69 Mae'r cylchlythyr yn adlewyrchu'r darpariaethau a geir yn Neddf Tai (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn diwallu'r anghenion am lety ac yn darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr trwy'r system gynllunio.

2.70 Mae'n amlinellu'r modd y gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nod hwn.

Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr: Mehefin 2018

2.71 Mae'r Cynllun 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' yn cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb' ac yn amlinellu ffyniant y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod yr anghydraddoldebau a brofir gan y cymunedau hynny yn cael eu lleihau, bod gan bobl well mynediad i gyfleoedd, a bod y berthynas rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael ei gwella.

2.72 Yn benodol, mae'r Cynllun yn ceisio adeiladu ar y gwaith a wnaed ers 2011 gan gyflwyno ymrwymïadau mewn meysydd megis cyflogaeth a hyfforddiant, yn ogystal ag adeiladu pontydd â'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd cynnwys y cylchlythyr a'r Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ynghyd â rôl y CDLI o safbwynt diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr am lety, yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Cyd-destun Polisi Rhanbarthol

Dinas-ranbarth Bae Abertawe

2.73 Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'n dod â busnesau, llywodraeth leol ac amryw o bartneriaid eraill ynghyd, gan weithio tuag at greu ffyniant economaidd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein Dinas-ranbarth. Mae Strategaeth Adfywio Economaidd 2013 – 2030 Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gyda'r nod o helpu'r ardal i ddatblygu dros y degawdau nesaf.

Bargen Ddinesig

2.74 Sicrhaodd llofnodi'r Fargen Ddinesig y buddsoddiad mwyaf erioed yn Ne Orllewin Cymru. Bydd y fargen gwerth £1.3 biliwn yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, gan roi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol a chreu bron i 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Mae'r un ar ddeg prosiect mawr sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig yn mynd ati i gyflwyno cyfleusterau o safon byd ym maes ynni, gweithgynhyrchu effeithlon, arloesi a gwyddorau bywyd, gyda buddsoddiad mawr yn seilwaith digidol y rhanbarth a sgiliau gweithlu a'r dalent sy'n sail i bob sector.

2.75 Mae cyfanswm y pecyn buddsoddi'n cynnwys £241 miliwn o gyllid Llywodraeth y DU a Chymru, £396 miliwn o arian arall o'r sector cyhoeddus a £637 miliwn o'r sector preifat. Mae Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n cynnwys y pedwar awdurdod lleol, a hefyd Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ynghyd â chwmnïau yn y sector preifat. Gyda gweledigaeth glir ar gyfer 'Rhanbarth Arloesi

Hynod Effeithlon', caiff ei mynegi drwy gyfrwng y pedair elfen gysylltiedig ganlynol, neu ryngrwydi:

Rhyngrwyd Cyflymu Electronig - Gweledigaeth

Creu rhanbarth cwbl gysylltiol a chwarae rhan flaenllaw mewn arloesi digidol.

Bydd y rhyngrwyd cyflymu economaidd yn gwneud y canlynol:

- Creu seilwaith digidol rhanbarthol a chwbl fodern gan gynnwys y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau di-wifr
- Lansio Rhanbarth Digidol Dinas Abertawe a Glan y Dŵr
- Sefydlu clwstwr digidol creadigol newydd yn Yr Egin
- Datblygu canolfan ragoriaeth yng Ngwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf i ddatblygu cyfleoedd masnachol newydd ledled y rhanbarth
- Cyflwyno'r sgiliau a'r hyfforddiant gofynnol i gefnogi'r Fargen Ddinesig

Rhyngrwyd Gwyddorau Bywyd a Lles - Gweledigaeth

- Gosod y rhanbarth yn flaenllaw mewn arloesi gwyddorau bywyd a chael cydnabyddiaeth fel cyrchfan o ddewis ar gyfer buddsoddiad a menter fydeang ym maes gwyddorau bywyd a lles
- Creu a defnyddio seilwaith digidol gwell i gyflymu datblygiadau ym maes gwyddorau bywyd

Gweithgynhyrchu Effeithlon - Gweledigaeth

Gosod y rhanbarth yn flaenllaw mewn gweithgynhyrchu effeithlon a chefnogi

busnesau i ffrwyno'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chwyldroi gweithgynhyrchu digidol.

Mae gweithgynhyrchu effeithlon yn defnyddio data a thechnoleg i ymateb ar unwaith i newidiadau yng ngofynion y farchnad neu'r diwydiant. Bydd cynyddu

Gweithgynhyrchu Effeithlon yn helpu i ddenu buddsoddiad sylweddol, sbarduno twf economaidd a rhoi hwb i adfywio lleol drwy greu swyddi yn uniongyrchol a hefyd cyflogaeth mewn clystyrau arloesi bywiog.

Rhynggrwyd Ynni - Gweledigaeth

- Gosod y rhanbarth yn flaenllaw mewn arloesi ynni a sefydlu'r rhanbarth fel chwaraewr arwyddocaol yn fyd-eang am gynhyrchu a storio ynni
- Creu swyddi a buddsoddiad gan roi sylw i heriau fel tlodi tanwydd a diogelwch ynni ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Cysylltu'n ddigidol ag asedau ynni'r rhanbarth er mwyn creu gwely profi ar gyfer yr arddangosfa 'Systemau Ynni'r Dyfodol'.

2.76 Mae'r 11 prosiect sydd wedi'u datgan drwy gyfrwng y Fargen Ddinesig yn cynnwys y telerau defnydd hir i'w cynnig yn benodol yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, bydd y gwerth economaidd a sicrheir drwy'r fargen yn ymestyn ymhell tu hwnt i hynny:

- Pentref Iechyd a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli a fydd, fel rhan o'r Rhynggrwyd o Wyddorau Bywyd a Lles, yn ceisio creu pentref ffisegol sy'n darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n hybu ac yn gwella lles. Bydd yn integreiddio datblygiadau busnes, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cefnogaeth iechyd ac ymchwil i wyddorau bywyd mewn un lleoliad, gan ddarparu manteision cymdeithasol ac economaidd sy'n trawsnewid.
- Yr Egin – Clwstwr Digidol Creadigol yng Nghaerfyrddin. Fel rhan o'r Rhynggrwyd Cyflymu Electronig, bydd prosiect Yr Egin yn ceisio creu clwstwr digidol a chreadigol newydd sy'n darparu gofod cychwynol a datblygu ar gyfer cwmnïau creadigol a digidol. Bydd hefyd yn ceisio hybu'r iaith Gymraeg ac yn darparu cartref i'r darlledwr Cymraeg, S4C.

Goblygiadau i'r CDLI

Mae'r CDLI mabwysiedig presennol, wrth gydnabod cyfraniad rhanbarthol pwysig Sir Gaerfyrddin, yn darparu drwy gyfrwng ei bolisiâu a'i gynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth, gyda'r economi'n elfen bwysig yn Strategaeth y Cynllun. Mae rôl newydd y Fargen

Ddinesig yn ystyriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau cysondeb parhaus mewn cyd-destun strategol.



Yn y cyswllt hwn, bydd llofnodi'r Fargen Ddinesig ac adnabod yr elfennau rhyng-gysylltiedig uchod, neu ryngrwydi gyda'u canlyniadau a'u prosiectau unigol, yn sail nodedig mewn unrhyw bolisiâu neu gynigion defnydd tir yn y dyfodol. Yn hyn o beth, er bod y Fargen Ddinesig yn cadarnhau llawer o ddulliau gweithredu strategol y CDLIau presennol, bydd angen rhywfaint o gysondeb fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig, i sicrhau bod darpariaethau priodol yn eu lle i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni.

Cyngor Sir Caerfyrddin – Amcanion Llesiant 2017/18

2.77 Mae'r Cyngor, yn unol â'i rwymedigaethau statudol, wedi cyhoeddi ei Amcanion Llesiant ar gyfer 2017/18. Mae'r amcanion hyn, fel y nodir isod, hefyd yn cynnwys yr Amcanion Gwelliant ac maent yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Sir:

Gellir crynhoi Gweledigaeth y Cyngor fel a ganlyn:-

'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'

Dechrau'n Dda	Byw'n Dda	Heneiddio'n Dda	Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus
			
Amcanion Llesiant			
<ol style="list-style-type: none"> 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd. 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw. 3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr. 4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. 	<ol style="list-style-type: none"> 5. Trechu todi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn todi. 6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir. 7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael. 8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra). 9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel. 	<ol style="list-style-type: none"> 10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hyn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio. 11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin. 	<ol style="list-style-type: none"> 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol. 13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth. 14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.
<p>15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau</p>			

2.78 Ar ôl cyhoeddi'r Amcanion hyn, rhaid i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i'w bodloni. Mae Cynllun Gweithredu manwl yn cael ei baratoi i gefnogi pob Amcan Gwelliant/Llesiant a bydd y rhain yn cael eu monitro ac adroddir yn ôl arnynt drwy gyfrwng y Fframwaith Rheoli Perfformiad.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

2.79 Sefydlwyd fel bwrdd statudol o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn gasgliad o gyrrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella llesiant y Sir.

2.80 Rôl y bwrdd yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein hardal drwy weithio i gyflawni'r 7 nod llesiant sydd wedi'u datgan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy wneud hynny, bydd yn ceisio asesu cyflwr y llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a chyhoeddi cynllun llesiant sy'n datgan ei nodau lleol a'r camau angenrheidiol i'w cyrraedd. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn cynnwys pedwar aelod statudol: Cyngor Sir Gâr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid addysg.

Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin

2.81 Mae'r Asesiad Llesiant a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn amlinellu: sut beth yw llesiant yn Sir Gaerfyrddin; a sut mae trigolion a chymunedau Sir Gaerfyrddin eisiau i lesiant fod yn y dyfodol, drwy archwilio materion allweddol sy'n cael effaith gadarnhaol a/neu negyddol ar lesiant.

2.82 Mae ei ganfyddiadau fel y'u cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch yn ffurfio'r sail i'r adroddiad a bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio ei ganlyniadau, ochr yn ochr â gwybodaeth allweddol arall, i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.

2.83 Roedd y blaenoriaethau hyn yn sail i Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r enw 'Y Sir Gâr a Garem 2018-2023' a cyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Bydd y Cynllun hwn yn amlinellu sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus,

gyda'i gilydd, yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i wella llesiant yn Sir Gaerfyrddin a chyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin – Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 - 2023

2.84 Mae Strategaeth Gorfforaethol 2018-2023 yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer yr awdurdod lleol dros y pum mlynedd nesaf, gan ymgorffori ein hamcanion gwelliant a llesiant fel y'u diffinnir gan ddeddfwriaeth.

2.85 Mae hefyd yn cynnwys prosiectau a rhaglenni allweddol y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sef set o bron i 100 o brosiectau a meysydd â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Emlyn Dole, yn ei gynllun 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin'.

2.86 Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol trwy 15 amcan o dan bedair thema allweddol – sef i gynorthwyo preswylwyr i ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd y CDLI yn parhau'n arf allweddol er mwyn cyflawni'r asesiad Llesiant a'r Amcanion uchod. Bydd y symud tuag at y Cynllun Llesiant a'r trosglwyddo diweddar o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei fonitro i sicrhau bod y ddau Gynllun craidd hyn yn parhau i fod yn gyson â'i gilydd.

Mae un ystyriaeth allweddol wrth symud ymlaen yn ymwneud ag integreiddio a chysoni amcanion strategol y CDLI â'r Amcanion Llesiant sydd wedi'u nodi uchod. Credir ei bod yn hanfodol edrych ar y cysoni hwn o gyfnod cynnar, er mwyn sicrhau bod y CDLI mewn lle da i ymateb i'r newidiadau hyn a'r Cynllun Gweithredu o ganlyniad, a fydd o gymorth i'w cyflawni. Mae Atodiad 1 yn cynnal dadansoddiad cymharol o Amcanion Strategol y CDLI yn erbyn yr Amcanion Llesiant cenedlaethol a lleol.

Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – 2015 - 2030

2.87 Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth adfywio Sir Gaerfyrddin, gan adeiladu ar y cyfleoedd twf a buddsoddi sy'n deillio o bolisiau a darpariaethau'r CDLI. Mae hyn yn ei dro yn adlewyrchu Sir Gaerfyrddin fel elfen hyderus, uchelgeisiol a chysylltiol o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe.

Goblygiadau i'r CDLI

Mae'r CDLI yn elfen allweddol o ran cyflawni amcanion adfywio'r Cyngor ac mae manteision clir i'w cael o ran cynnal y synergedd rhwng yr hyn sy'n flaenoriaethau strategol a rennir, o safbwynt effeithlonrwydd, ymgysylltu a chanlyniadau.

Bydd rhaid ystyried y berthynas rhwng y CDLI, y ddogfen Trawsnewidiadau a'r cyfeiriad strategol yn rhanbarthol, a fynegir drwy gyfrwng y Fargen Ddinesig, fel rhan o'r CDLI Diwygiedig i sicrhau bod darpariaethau priodol yn eu lle er mwyn cefnogi cyflawni.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC)

2.88 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Atodlen Brisio Ddrafft Ragarweiniol yr ASC rhwng misoedd Medi a Thachwedd 2016, yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatblygu gwaith ar ei baratoi. Mae rhan o'r broses hon wedi cynnwys casglu tystiolaeth nodedig yn seiliedig ar ddatblygu hyfywedd a seilwaith. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi seilio ei ystyriaeth i ddatblygu'r ASC ar nifer o ddatblygiadau allweddol:

2.89 Adolygiad ASC yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol – Dull Newydd o Weithredu gyda Chyfraniadau Datblygwyr – Ym mis Tachwedd 2015

comisiynodd Llywodraeth San Steffan adolygiad cenedlaethol annibynnol o'r ASC gyda'r nod o:

'Asesu i ba raddau mae'r ASC yn neu'n gallu darparu cyfrwng effeithiol ar gyfer cyllido seilwaith, ac argymhell newidiadau a fyddai'n gwella ei gweithredu wrth gefnogi amcanion tai a thwf ehangach y Llywodraeth.'

2.90 Edrychodd yr adolygiad ar swm y refeniw mae'r ASC yn ei godi; y mathau o ddatblygiadau sy'n talu'r ASC; yr effeithiau ar hyfywedd; a gweithredu cyfran cymdogaethau'r ASC.

2.91 I grynhoi, casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd: nid yw'r ASC fel mae wedi'i llunio ar hyn o bryd yn cyflawni'r bwriad gwreiddiol o ddarparu ffordd gyflymach, decach, symlach, sicrach a mwy tryloyw o sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu rhywbeth tuag at y seilwaith cronol sydd ei angen; mae hefyd wedi cymhlethu a tharfu ar drefniadau Adran 106 sydd, er eu bod wedi'u beirniadu'n helaeth, yn gweithio'n rhesymol dda i lawer o safleoedd.

2.92 Wrth nodi ffordd ymlaen, mae'r adroddiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn ystyried dull dau lwybr adolygedig o weithredu, sy'n galluogi awdurdodau lleol i fanteisio ar yr elfennau gorau yn yr ASC bresennol ac Adran 106. Mae'n argymhell bod y Llywodraeth yn newid yr ASC am ddull hybrid o weithredu gyda Thariff Seilwaith Lleol eang a lefel isel ac Adran 106 ar gyfer datblygiadau mwy.

2.93 **Datganoli Pwerau'r ASC** – Fel yr amlinellwyd uchod, cyhoeddodd Llywodraeth y DU, ar 7^{fed} Mehefin 2016, Fil Cymru gyda'r bwriad o ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol fel Deddf Cymru 2017 ar 31^{ain} Ionawr 2017.

2.94 Fel rhan o Ddeddf Cymru 2017 daeth yr ASC yn fater datganoledig ac mae disgwyl y caiff y pwerau eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018. Yn y cyswllt hwn, mae angen Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau fel bod Gweinidogion Cymru'n gallu addasu'r ddeddfwriaeth eilaidd. Os bydd Gweinidogion Cymru wedyn yn ystyried ei bod yn briodol diwygio Rheoliadau'r ASC, mae'n bosibl y bydd angen deddfwriaeth bellach er mwyn galluogi hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael ei gadarnhau.

2.95 Gan fod yr uchod yn aneglur ar hyn o bryd o ran y dull y mae LIC eisiau ei fabwysiadu gyda'r ASC, ac, yn benodol, a yw'n dymuno parhau â'r dull o weithredu sydd wedi'i nodi yn rheoliadau'r ASC, neu ddatblygu diwygiadau penodol neu ei dileu'n llwyr.

2.96 O ganlyniad, ac o ystyried ei bod yn aneglur pa ffurf fydd i'r ASC neu beth bynnag a ddaw yn ei lle, os o gwbl, mae'r gwaith o baratoi'r ASC ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi cael ei roi i'r naill ochr.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd cynnydd ASC Sir Gaerfyrddin ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI yn cael eu monitro'n barhaus. Fodd bynnag, nodir, pe bai'r ASC yn cael ei datblygu, byddai'n rhaid iddi gyd-fynd yn glir ag elfennau penodol ym mholisi'r CDLI o ran cyflawni'n strategol. O'r herwydd, yng ngoleuni penderfyniad iddi gael ei rhoi i'r naill ochr, byddai'n ddoeth cysylltu'r ystyriaeth iddi yn y dyfodol â'r CDLI Diwygiedig.

Yn y cyswllt hwn, heb unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r CDLI presennol a'r AMB hwn, bydd y cyd-destun cenedlaethol a'r canlyniad a'r trafodaethau ar ei ddyfodol yn cael eu monitro a'u hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Gaerfyrddin - 2016

2.97 Yn deillio o ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014, cynhaliwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Sir Gaerfyrddin er mwyn gweld a oes angen safle Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir. Cafodd yr asesiad ei gynnal yn unol â'r canllawiau statudol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer craffu arno a'i gymeradwyo. Derbyniodd yr Awdurdod Lleol gadarnhad gan Weinidog Cymru bod cynnwys yr asesiad anghenion wedi'i dderbyn ar 28ain Mawrth 2017. Rhoddwyd adroddiad ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Fwrdd Gweithredol y Cyngor ar 26 Mawrth 2018, pryd y penderfynwyd cyhoeddi'r adroddiad a datblygu proses dewis safleoedd i ddiwallu unrhyw angen a nodir. Er ei fod y tu allan i'r cyfnod monitro hwn, mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddangosydd

pwysig o ran anghenion Sipsiwn a Theithwyr, ac felly caiff ei gynnwys yma i roi'r wybodaeth gyflawn.

Goblygiadau i'r CDLI

Bydd y gofynion sy'n deillio o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn elfen annatod a fydd yn llywio'r gwaith o nodi unrhyw Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y gofynion gyda golwg ar lety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Yn y cyswllt hwn, dylid nodi bod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cadarnhau anghenion Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2031. Nid yw hyn yn cyd-fynd â chyfnod y CDLI Diwygiedig, felly bydd Asesiad diwygiedig o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei baratoi i gwmpasu'r cyfnod hyd at 2033.

Canllawiau Cynllunio Atodol

2.98 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul wedi cael eu cyhoeddi er mwyn ymgynghori'n ffurfiol yn eu cylch a chawsant eu mabwysiadu ym mis Mehefin 2019.

Crynodeb

2.99 Fel y nodir uchod, mae deddfwriaethau newydd a newidiadau i gyd-destunau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro presennol, ac mae gan rai oblygiadau o ran gweithredu'r CDLI yn y dyfodol. Bydd AMBau yn y dyfodol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

2.100 Bydd cyd-destun priodol yn ffurfio cydran bwysig wrth baratoi'r CDLI diwygiedig, o safbwynt ei bolisïau a'i gynigion neu ddogfennau ategol neu dystiolaeth.

Cyd-destun Sir Gaerfyrddin

Dylanwadau Gofodol

2.101 Mae Sir Gaerfyrddin yn Sir amrywiol iawn gyda'r economi amaethyddol a thirwedd yr ardaloedd gwledig yn cyferbynnu ag ardal drefol a diwydiannol y de-ddwyrain. Mae tua 65% o'r boblogaeth yn byw ar 35% o'r tir yn ne a dwyrain y Sir. Y prif ganolfannau trefol yw Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin. Mae gan y Sir hefyd nifer o aneddiadau eraill amrywiol eu maint ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n arbennig tuag at anghenion a gofynion eu cymuned a'r ardal gyfagos. Mae yma hefyd nifer mawr o bentrefi ac aneddiadau gwledig sy'n hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau.

2.102 Mae'r CDLI mabwysiedig yn adeiladu ar nodweddion gofodol ac amrywiaeth y Sir a'i chymunedau ac yn ceisio cryfhau'r patrwm gofodol presennol o aneddiadau.

2.103 Mae'r ffurf ofodol gyfredol a dosbarthiad y ddarpariaeth tai a chyflogaeth yn sgil hynny yn canolbwyntio ar ganolfannau trefol sefydledig Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman/Cross Hands. Mae'r ffocws ar yr aneddiadau hyn fel 'Ardaloedd Twf' dyranedig yn adlewyrchu eu statws a'u rhinweddau o ran cynaliadwyedd a hygyrchedd. Mae i'r Ardaloedd Twf hygyrchedd da drwy gysylltiadau â'r rhwydwaith ffyrdd strategol a'r rhwydweithiau trên, yn ogystal â chludiant cyhoeddus.

2.104 Mae'r rhaniad rhwng yr ardaloedd gwledig a'r rhai trefol yn nodweddiadol o'r amrywiaeth o fewn cymunedau ac aneddiadau, a'u rôl hanesyddol ynghyd â'u rôl i'r dyfodol. Mae hyn yn amlwg yn ardaloedd trefol y de ddwyrain yn bennaf gyda'u hanghenion ôl-ddiwydiannol o ran adfywio. Mae'r heriau sy'n wynebu aneddiadau o'r fath yn aml yn wahanol iawn o ran graddfa i'r heriau a wynebir mewn ardaloedd gwledig ar ffurf diboblogi a'r diwydiant amaethyddol. Mae hyn oll yn crisialu'r amrywiaeth yng nghymunedau ac aneddiadau Sir Gaerfyrddin o ran cymeriad, graddfa a rôl, ac yn dangos nad yw maint anheddiad bob amser yn adlewyrchu'i rôl.

Dosbarthiad Twf

2.105 Caiff dosbarthiad twf ei seilio ar leoliad anheddiad yn hierarchaeth y CDLI, nad

oedd modd ei briodoli yn ôl dehongliad rhy syml o ddsbarthiad (er enghraifft, ar draws pob anheddiad haen 3 yn gyfartal). Mae hyn yr un mor wir yn yr Ardaloedd Twf a hefyd ar unrhyw haen arall yn yr hierarchaeth aneddiadau, lle mae i bob un faterion ac ystyriaethau tra gwahanol, ond bod hynny yng nghyd-destun eu pwysigrwydd mewn termau strategol a'r swyddogaeth y maent yn ei chyflawni.

2.106 Ceir nifer o ystyriaethau sy'n dylanwadu ar ryddhau tir i'w ddatblygu ledled y Sir, ac yn nodedig:

- Ystyriaethau amgylcheddol – ar ffurf ystyriaethau perygl llifogydd. Mae llawer o'r aneddiadau mwy wedi'u lleoli'n agos at y môr a/neu afonydd. Mae hefyd yn werth nodi ardaloedd sy'n bwysig o ran cadwraeth natur – yn cynnwys y rheiny yn ardaloedd Llanelli/Porth Tywyn a Cross Hands;
- Ystyriaethau cymdeithasol – yn cynnwys ardaloedd o werth diwylliannol ac ieithyddol o ran y Gymraeg, ynghyd ag ardaloedd difreintiedig.

2.107 Mae cyfoeth amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn ystyriaeth ofodol bwysig wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y Sir, yn arbennig o ran y potensial ar gyfer twf a lleoli datblygiadau. Mae'r Sir yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel ryngwladol i amddiffyn a gwella gwerth cadwraeth natur, ynghyd â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol arbennig. Mae'r 27 o ardaloedd cadwraeth, y 366 o Henebion Rhestredig (sy'n amrywio o nodweddion Cynhanesyddol i rai ôl-Ganoloesol/Modern o ddiddordeb hanesyddol diwylliannol) a'r nifer fawr o adeiladau rhestredig yn tystio i bwysigrwydd treftadaeth adeiledig y Sir. Mae yma hefyd nifer o safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd cadwraeth natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys 8 Ardal Cadwraeth Arbennig, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 safle Ramsar, 90 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 5 Gwarchodfa Natur Leol a 7 tirwedd gofrestrredig.


Dangosyddion Economaidd

Tai


2.108 Mae'r dirywiad economaidd ers 2008 wedi cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth tai ledled y DU, a hynny yn ei dro wedi effeithio ar hyder a gweithredu ar lefel leol. Yn wir, dim ond ym mis Chwefror 2015 y cododd mynegai prisiau tai Cymru a Lloegr yn ôl i'r lefel a welwyd yn 2007 cyn y dirwasgiad, a pharhaodd prisiau i godi hyd at ddiwedd y cyfnod monitro hwn (gweler ffigur 1 isod). 2.109

2.109 Yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, mae'r prisiau tai cyfartalog yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd uchaf o £149,515 (Rhagfyr 2007) a welwyd cyn y dirwasgiad, gyda'r pris cyfartalog ym mis Mawrth 2019 wedi cynyddu i £144,268 (gweler ffigur 2 isod). Mae hyn yn debyg i lawer o awdurdodau lleol ar draws y wlad ac mae ffigur Cymru o £160,054 yn cael ei ystumio i raddau gan ardaloedd penodol lle bu'r adferiad yn gyflymach.

Ffigur 1 Pris cyfartalog: Cymru a Lloegr rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2019




Ffigur 2 Pris cyfartalog: Cymru rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2019



Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir

Ffigur 3 Pris cyfartalog: Sir Gaerfyrddin rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2019



2.110 Mae effaith anochel y dirwasgiad ar adeiladu tai wedi cael ei deimlo ledled Cymru ac wrth barhau i gadarnhau gwelliannau yn y 6,663 o dai sydd wedi'u cwblhau yn ystod 2017-18 mae'n parhau i fod gryn dipyn yn is na'r lefel uchaf cyn y dirwasgiad o 9,334 yn 2006-07. Caiff hyn ei adlewyrchu yn Sir Gaerfyrddin lle cwblhawyd 529 o dai yn ystod 2017-18 o gymharu â 450 (2016-17). Mae hyn fodd bynnag yn dal i fod yn is na'r uchafbwynt o 738 o dai a gwblhawyd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2005-06


2.111 Roedd y ddarpariaeth o dai yn Sir Gaerfyrddin yn ystod cyfnod y Cynllun yn llai na'r lefel flynyddol sy'n angenrheidiol i fodloni gofyniad y Cynllun. Fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o hyn wedi digwydd mewn hinsawdd economaidd heriol a gellid dadlau hefyd bod effaith wirioneddol y CDLI, o ran darparu, eto i'w brofi, gyda'r rhan fwyaf o dai a adeiladwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf heb fod ar safleoedd dyranedig wedi cael caniatâd o dan y cynllun datblygu blaenorol. Serch hynny, ar ôl mabwysiadu'r CDLI, mae'r JHLAS wedi nodi gwelliant o ran cyflenwad o dir, gyda'r argaeledd yn 2016 yn dangos 4.1 o flynyddoedd, gyda'r cwblhau hefyd yn cyrraedd ei lefel uchaf yn 590 ers 2011 (640). Fodd bynnag, mae cyfnod yr AMB hwn wedi gweld gostyngiad yn y ffigurau hynny, gyda'r astudiaeth JHLAS a ddaeth allan yn 2019 yn dangos cyflenwad o dir am 3.5 o flynyddoedd, sef gostyngiad ar gyfnod 2018. Fodd bynnag, mae hyn i gyd yng nghyd-destun diddordeb cryf gan Gymdeithasau Tai, ac adeiladwyr tai cenedlaethol yn cynnal ac, yn achos rhai, yn adnewyddu eu diddordeb yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn ynddo'i hun yn anfon neges

bositif am hyder y farchnad yn y Sir ond yn cuddio'r angen am asesu'r gostyngiad mewn cyflenwad o dir a'r lleihad mewn lefelau cwblhau yn ystod cyfnod yr AMB hwn. Yn y cyswllt hwn, dylid cyfeirio at Adroddiad Adolygu'r CDLI a'r CDLI Diwygiedig ar gyfer 2018 – 2033 sy'n cael ei ddatblygu.

Gwerthiant Tai

2.112 Fel y mae'r graff dilynol yn dangos, bu adferiad graddol o ran gwerthiant eiddo, yn dilyn y cwmp o'r lefel uchaf yn 2007/2008. Mae'r adferiad graddol hwn wedi gweld gwerthiant yn dychwelyd i lefel gyson, er bod gwerthiant eiddo presennol ym mis Chwefror 2019 wedi gostwng i'w lefel isaf ers mis Chwefror 2015.

Ffigur 4 Nifer y Gwerthiannau yn ôl Eiddo: Sir Gaerfyrddin o fis Ebrill 2007 hyd at fis Mawrth 2019




Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir


Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd

2.113 Wrth ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, darparodd dogfennau'r AMB blaenorol y dystiolaeth gefndirol er mwyn deall y rhesymu y tu ôl i'r newidiadau sylweddol rhwng pob amcanestyniad. Mae'r graffiau isod yn dangos graddfa'r gwahaniaethau hyn, gydag amcanestyniadau 2006 a 2008 ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd gryn dipyn yn uwch nag amcanestyniadau 2011 a 2014.

Ffigur 5: Amcanestyniadau Poblogaeth Cymharol Sir Gaerfyrddin



Ffigur 6: Amcanestyniadau Aelwydydd Cymharol Sir Gaerfyrddin



Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol seiliedig ar yr Awdurdod Lleol a CDLI Sir Gaerfyrddin

2.114 Tra bod yr amcanestyniadau uchod yn dynodi lleihad arwyddocaol mewn niferoedd poblogaeth ac aelwydydd o gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn amcanestyniadau 2006 a 2008, dylid ystyried eu defnyddio, o safbwynt cynlluniau datblygu, yng nghyd-destun darpariaethau paragraff 9.2.2 Polisi Cynllunio Cymru.

2.115 Yn hyn o beth, nododd Adroddiad Adolygu'r CDLI y byddai angen i'r CDLI Diwygiedig asesu amrywiol ffactorau'r amcanestyniadau, gydag Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lefel awdurdod lleol, ar gyfer Cymru, yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ynghyd â materion allweddol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, darparu strategaethau corfforaethol ac i ba raddau y gellir cyflawni'r cynllun.

2.116 Yn hyn o beth, ac i ategu'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig, bydd dystiolaeth yn cael ei pharatoi i asesu cywirdeb amcanestyniadau Llywodraeth Cymru. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus a disgwylir i amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi tua diwedd 2019.

Yr Economi

2.117 Mae data gweithgarwch economaidd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, ac ar lefel Cymru gyfan o 2011 hyd at y trydydd cyfnod monitro blynyddol hwn, yn dangos gwelliannau graddol o ran gweithgarwch economaidd, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Penllanw hyn yw ffigurau'r Sir ar gyfer 16/17 ac 17/18, sydd yn y ddau achos yn uwch na ffigur Cymru gyfan o ran gweithgarwch economaidd.

Ffigur 7: Crynodeb o'r Farchnad Lafur Flynyddol (Trigolion 16-64 oed) – Cyfradd Gweithgarwch Economaidd

	Sir Gaerfyrddin		Cymru	
	Cyfradd Gweithgarwch Economaidd	Cyfradd Anweithgarwch Economaidd	Cyfradd Gweithgarwch Economaidd	Cyfradd Anweithgarwch Economaidd
Ebrill 2011- Mawrth 2012	74.2%	25.8%	73%	27%
Ebrill 2012- Mawrth 2013	71.7%	28.3%	73.9%	26.1%

Ebrill 2013- Mawrth 2014	73.5%	26.5%	75.3%	24.7%
Ebrill 2014- Mawrth 2015	74%	26%	74.4%	25.6%
Ebrill 2015- Mawrth 2016	75%	25%	75.3%	24.7%
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	78.6%	21.4%	74.8%	25.2%
Ebrill 2017 – Mawrth 2018	77.1%	22.9%	76.5%	23.5%
Ebrill 2018 – Mawrth 2019	74.6%	25.4%	76.7%	23.3%

Ffynhonnell: StatsCymru

2.118 Nid yw'r cynnydd uchod mewn gweithgarwch economaidd yn codi unrhyw oblygiadau o bwys i'r CDLI. Caiff dangosyddion economaidd o'r fath eu monitro a'u hystyried o hyd mewn unrhyw AMBau dilynol neu fel rhan o adolygiad yn y dyfodol o'r CDLI.

2.119 Cyhoeddir y trydydd argraffiad o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn fuan. Bydd hwn yn adeiladu ar ganlyniadau a chynnwys adolygiad 2016 a 2017 gan ystyried ymhellach berfformiad yr economi yn Sir Gaerfyrddin o ran lefelau defnydd a gweithgarwch y safleoedd cyflogaeth presennol a dyranedig.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

2.120 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014 (Tachwedd 2014 (adolygwyd Awst 2015)) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar draws ardaloedd bach yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd fel ei fod yn canfod yr ardaloedd bach hynny sydd â'r dwyseddau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Ystyr amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas. Gall hyn fod ar ffurf nwyddau materol neu ar ffurf gallu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned. Mae ymgynghoriad MALIC 2019 ynghylch y dangosyddion arfaethedig wedi dod i ben ac mae crynodeb o'r ymatebion ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau allweddol wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru². Disgwylir i'r mynegai nesaf gael ei gyhoeddi

² Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru <https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?skip=1&lang=cy>

yn hydref 2019.

2.121 Cafodd MALIC ei ddatblygu i helpu i dargedu adnoddau a pholisi yn effeithiol yn lleol. Mae'n darparu'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar draws ardaloedd bach yng Nghymru. Mae gan Sir Gaerfyrddin 112 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae canlyniadau MALIC 2014 yn dangos bod gan Sir Gaerfyrddin 25 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd o fewn y 30% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru. Mae mwyafrif yr ardaloedd hyn (60%) wedi'u lleoli yn rhanbarth Llanelli (15 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) gydag 20% yn ardal Aman (5 ardal), 12% yn ardal Gwendraeth (3 ardal) ac 8% wedi'u lleoli yn ardal Caerfyrddin (2 ardal).

Ffigur 8 - Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fesul categori amddifadedd – Mynegai Llawn (2014) (Sir Gaerfyrddin)

% LSOAs yn y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru yn y Mynegai Llawn	5%
% LSOAs yn y 10-20% mwyaf amddifadus yng Nghymru yn y Mynegai Llawn	6%
% LSOAs yn y 20-30% mwyaf amddifadus yng Nghymru yn y Mynegai Llawn	12%
% LSOAs yn y 30-50% mwyaf amddifadus yng Nghymru yn y Mynegai Llawn	30%
% LSOAs yn y 50% lleiaf amddifadus yng Nghymru yn y Mynegai Llawn	47%

2.122 Mae gan Sir Gaerfyrddin y nifer canlynol o'i 112 o LSOAs yn y dosbarthiadau amddifadedd:-

- 5 ardal yn y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru
- 7 ardal yn yr 20% mwyaf amddifadus; ac
- 13 ardal wedi'u hamlygu fel rhai sydd yn y 30% mwyaf amddifadus yng Nghymru

2.123 Yr ardal sydd wedi'i graddio fel yr un fwyaf amddifadus yn Sir Gaerfyrddin yw

Tyisha 2 a'r ardal sydd wedi'i graddio fel yr un lleiaf amddifadus yw Hendy 1.

2.124 O ddadansoddi'r data gwelir, mewn rhai mannau, fod wardiau etholiadol cyfan ymysg y 30% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, sef Rhydaman, Felin-foel, Glanymôr, Glanaman a Thyisha.

2.125 O ran Mynediad at Wasanaethau, Cynwyl Gaeo yn Sir Gaerfyrddin yw'r ardal fwyaf amddifadus yng Nghymru, yn cael ei dilyn yn agos gan Lanegwad 2 a Threlech, sef y 4edd a'r 5ed ardal fwyaf amddifadus yng Nghymru, y naill a'r llall.

2.126 Er nad yw hyn yn destun dangosydd monitro mewn perthynas â'r CDLI, credir ei bod yn ddoeth parhau i fonitro amddifadedd ar draws y Sir. Gall strategaeth y Cynllun a'i bolisiâu a'i ddarpariaethau chwarae rhan bwysig mewn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi.

Pennod 3 Dangosyddion Monitro

Mae'r bennod hon yn asesu a yw polisiau strategol y Cynllun, a'r polisiau ategol cysylltiedig, yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae casgliadau priodol a champau a argymhellir ar gyfer y dyfodol (os oes angen) yn cael eu datgan i roi sylw i unrhyw broblemau gweithredu polisi a ddaw i'r amlwg drwy gyfrwng y broses fonitro.

Strategaeth Ofodol

1. Targed Polisi Monitro: Dylid lleoli 85% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig.

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
% y caniatadau tai cyffredinol sydd ar safleoedd dyranedig.	Dylid lleoli 85% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn ar safleoedd dyranedig.	Cyfran yr anheddau a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn gwyro 20% +/- oddi wrth y targed a nodwyd.	54% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig.	38.3% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig.	87.5% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig.	84.8% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig.

Dadansoddiad:

Mae'r dangosydd monitro hwn yn mesur nifer y ceisiadau a dderbynnir ar safleoedd mawr (h.y. safleoedd o bump neu fwy) yn erbyn a ydynt wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig neu heb eu dyrannu.

- Mae'r asesiad yn datgelu bod 625 uned (84.8%) o'r unedau tai a ganiatawyd ar safleoedd mawr wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig
- O blith y safleoedd dyranedig hyn, dyfarnwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 295 o unedau a dyfarnwyd materion a gedwir yn ôl neu ganiatâd llawn ar gyfer 330 o unedau.

- O gymharu â'r AMB diwethaf, gwelwn nifer tebyg o unedau a ganiatawyd ar safleoedd dyranedig a hap-safleoedd yn ystod y cyfnod monitro.

2015-16	1269
2016-17	334
2017-18	777
2018-19	737

- Caniatawyd ceisiadau ar 22 o safleoedd dyranedig.
- Caniatawyd y nifer mwyaf o unedau ar y safleoedd canlynol: GA1/MU1: Gorllewin Caerfyrddin (caniatawyd 250 uned); SC40/h3: Ffos Las (caniatawyd 139 uned); SC34/h5: Tir i'r dwyrain o Heol y Plas, Llannon (caniatawyd 48 uned); GA3/MU1: Tir yn Cross Hands (caniatawyd 43 uned); T3/1/h2: Tir ger Ysgol Gynradd Talacharn (caniatawyd 42 uned).

Casgliad:

Mae'r targed wedi cael ei gyrraedd eleni.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

2 Targed Polisi Monitro: Y cyfrannau canlynol o anheddau i'w caniatáu ar ddyraniadau tai fel a ganlyn:

- **Ardaloedd Twf 62%**
- **Canolfannau Gwasanaethau 10%**
- **Canolfannau Gwasanaethau Lleol 12%**
- **Cymunedau Cynaliadwy 15%**

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu			Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cyfran y tai a ganiatawyd ar ddyraniadau fesul haen o'r hierarchaeth aneddiadau	Dylai dosbarthiad yr anheddau fod yn unol â'r cyfrannau a nodwyd yn y targed.	Mae dosbarthiad yr anheddau yn yr Ardaloedd Twf, y Canolfannau Gwasanaeth a'r Canolfannau Gwasanaethau Lleol yn gwyro 20% +/- oddi ar y cyfrannau a nodir yn y targed. Mae dosbarthiad yr anheddau mewn Cymunedau Cynaliadwy yn gwyro 10% +/- oddi ar y cyfrannau a nodir yn y targed.	Ardaloedd Twf	Targed 62%	Gwirioneddol 67.3%	Gwirioneddol 43.8%	Gwirioneddol 64.4%	Gwirioneddol 54.9%
			Canolfannau Gwasanaethau	10%	3.6%	9.5%	10.3%	2.6%
			Canolfannau Gwasanaethau Lleol	12%	17.1%	0.7%	15.7%	9.8%
			Cymunedau Cynaliadwy	15%	15.2%	46%	9.6%	32.8%
Dadansoddiad:								

O ran dosbarthiad yr unedau a ganiatawyd ar ddyraniadau yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau, cafwyd gostyngiad yn nifer yr unedau a ganiatawyd yn yr Ardaloedd Twf a chynnydd mewn Cymunedau Cynaliadwy.

Ardaloedd Twf

Caniatawyd 343 uned mewn Ardaloedd Twf ar 8 safle. Caniatawyd 262 uned yn yr ardal GA1: Caerfyrddin, caniatawyd 36 uned yn GA2: Llanelli, a 45 uned yn GA3: Rhydaman/Cross Hands.

Canolfannau Gwasanaeth

O ran Canolfannau Gwasanaeth, dim ond 2 safle a ganiatawyd, gan ddarparu cyfanswm o 16 uned.

Canolfannau Gwasanaethau Lleol

Caniatawyd 61 uned mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol ar 5 safle, a chaniatawyd 42 o'r unedau hynny ar un safle yn Nhalacharn.

Cymunedau Cynaliadwy

Caniatawyd 205 uned mewn Cymunedau Cynaliadwy ar 9 safle, wedi'u gwasgaru dros amrywiol leoliadau yn y Sir.

Fel gwybodaeth gefndirol, bu'r hap-safleoedd yn bennaf ond yn yr ardaloedd Twf (57.1%), ac mewn Canolfannau Gwasanaeth (36.6%).

Casgliad:

Yn gyffredinol, mae 'r targed wedi 'i cyrraedd a chaiff nifer fawr o ddyraniadau eu caniatáu mewn aneddiadau haen 4.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

3 Targed Polisi Monitro: Cyflymu argaeledd safleoedd cyflogaeth strategol

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Caniatadau ar gyfer, neu argaeledd, seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig sy'n hwyluso'r gwaith o gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol (hectarau) fel y rhestrir ym Mholisi SP4.	Erbyn 2018, bernir y bydd yr holl safleoedd cyflogaeth strategol ar gael yn syth neu ar gael yn y tymor byr h.y. bydd y safleoedd naill ai'n cael budd o ganiatâd cynllunio neu argaeledd seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig i hwyluso datblygu.	Erbyn 2018, nid yw'r holl safleoedd cyflogaeth strategol ar gael yn syth neu ar gael yn y tymor byr.				
<p>Dadansoddiad: Mae tri safle cyflogaeth strategol penodol wedi cael eu datgan yn y CDLI (Polisi SP4):</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dafen, Llanelli - Dwyrain Cross Hands - Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands <p>Mae cyfanswm y tir sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y tri safle hyn yn 40.9 o hectarau. Er nad yw pob elfen o bob safle cyflogaeth strategol wedi cael caniatâd cynllunio, gwnaed cynnydd clir tuag at gyflawni'r tri safle hyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Er nad yw targed y polisi wedi'i gyrraedd yn fanwl gywir fel y rhagwelwyd, nid yw'n arwain at bryderon ynglŷn â chyflawni'r elfennau sy'n weddill o'r safleoedd yn y dyfodol. Cyfeirir hefyd at GA2/MU9 – Llynnoedd Delta sy'n rhan o Barth Strategol De Llanelli ac mae wedi'i ddatgan fel elfen allweddol o ddarparu rhan o'r Weledigaeth ar gyfer y Fargen Ddinesig – Rhyngwyd o Wyddorau Bywyd a Llesiant. Bydd y prosiect arloesol a blaenllaw hwn sy'n arwain y sector yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth, adfywio a datblygu ar y safle, gan ysgogi cyflawniad a thwf economaidd yn yr ardal.</p>						

Dafen Llanelli

Mae Caniatâd Cynllunio Llawn wedi'i ddyfarnu ar gyfer cyfleuster Ambiwllans Awyr, gan gynnwys swyddfa, fel rhan o'r safle, yn cymryd 1.87 o hectarau. Mae hyn wedi cael ei gwblhau ac mae'r safle'n gwbl weithredol. Mae'r rhannau heb eu datblygu sy'n weddill o'r safle wedi'u lleoli naill ai rhwng neu gerllaw'r elfennau adeiledig presennol ac felly gallent elwa ar seilwaith cysylltiedig a ffordd mynediad presennol.

Dwyrain Cross Hands

Mae Caniatâd Amlinellol wedi cael ei ddyfarnu ar y safle cyfan (19 o hectarau) ar gyfer datblygiad arfaethedig parc diwydiannol, gan gynnwys datblygu unedau busnes a diwydiannol (dosbarthiadau defnydd B1 a B8), swyddfeydd, unedau deor busnes, gwesty, hwb canolog i fusnesau, canolfan adnoddau, canolfan ynni, gofod gwyrdd canolog, parcdir. Mae caniatâd materion a gedwir yn ôl ar gyfer y caniatâd amlinellol gwreiddiol wedi cael ei ddyfarnu wedyn, gan alluogi datblygu'r ffordd fynediad fewnol, seilwaith a datblygu llwyfandiroedd plot. Mae'r gwaith o gynllunio'r plot a'r ffordd, a seilwaith cysylltiedig Cam 1, wedi'i gyflawni gan ddarparu naw plot datblygu. Derbyniwyd mynegiannau o ddiddordeb i ddatblygu safleoedd trwy Gronfa Datblygu Eiddo y Cyngor ei hun. Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi cynllun hunan adeiladu posibl ar gyfer y prif blot porth, a all wneud defnydd o unrhyw gyfleoedd cyllido a allai ddod ar gael.

Mae'r safle'n cael ei nodi fel safle strategol o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a chafwyd sicrwydd o hyd at £2.4 miliwn i ddatblygu seilwaith Cam 2 fel rhan o raglen Safle Strategol Llywodraeth Cymru. Mae Cam 2 yn cynnwys hyd at bump o blotiau mwy o faint ynghyd â'r ffordd safle a'r seilwaith gwasanaethau sy'n weddill. Mae Cyd-fenter Cross Hands gyda Llywodraeth Cymru wedi cael ei hymestyn i gwmpasu'r Safle Cyflogaeth Strategol.

Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands

Dyfarnwyd caniatâd ar gyfer Gwaith Prosesu Bwyd ar gyfran o'r dyraniad i'r de orllewin o Castell Howell Foods. Mae 'Celtica Foods', rhan o Castell Howell, yn brosiect ehangu gwerth miliynau o bunnoedd a fydd yn rhoi pwyslais ar frand cig Cymreig y cwmni, 'Celtic Pride'. Mae'r safle hwn ar 2.09 o hectarau ac mae'r uned wedi'i chwblhau a'r gweithrediadau wedi dechrau. Mae rhan o'r safle'n ofod gwyrdd a gynorthwyr gyda photensial ar gyfer ehangu'r gweithrediadau yn y dyfodol. Mae'r caniatâd arall ar gyfer rhan gogledd orllewin y dyraniad (ar 2.35 o hectarau) ac mae ar gyfer adeilad diwydiannol graddio bwyd unllawr gyda swyddfa ddeulawr gysylltiedig, iard wasanaethu a maes parcio y tu allan. Mae'r rhain wedi cael eu hadeiladu eisoes hefyd. Mae rhagor o ofod ar gael ar gyfer ehangu ar dir yn y caniatâd cynllunio - mae ffordd gefn stad eisoes yn gwasanaethu pen gogleddol y safle. O ganlyniad, mae cyfanswm elfennau'r dyraniad cyflogaeth hwn sydd wedi cael eu darparu yn 4.44 o hectarau.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe:

Dylid edrych ar ddatblygiad y safleoedd strategol yn y dyfodol, ac yn wir ar ddatblygiad economaidd y Sir yn y dyfodol, yng nghyd-destun yr is-ranbarth ehangach lle mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cael ei llofnodi'n ddiweddar, gan sicrhau £1.3 biliwn i gynghorau Abertawe, Sir Gâr,

Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Mae disgwyl y bydd y Fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol ac yn creu bron i 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf.

Bydd y Fargen yn arwain at dri phrosiect penodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Pentref Iechyd a Gwyddorau Bywyd ar Safle Strategol Llynnoedd Delta (GA2/MU9), Llanelli; prosiect y diwydiannau creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin; a menter sgiliau a thalentau a fydd yn cefnogi datblygu sgiliau. Nod y prosiect gwerth £200 miliwn yn Llynnoedd Delta yw creu mwy na 1800 o swyddi o ansawdd uchel a rhoi hwb o fwy na £400 miliwn i'r economi dros gyfnod o 15 o flynyddoedd. Bydd hwn a'r ddau brosiect arall o fudd i'r Sir yn gyffredinol a dylent helpu gyda denu rhagor o fuddsoddiad yn y dyfodol.

Casgliad:

Mae cynnydd cadarn wedi'i wneud gyda darparu'r 3 safle cyflogaeth strategol.

Mae llofnodi'r Fargen Ddinesig a chynnydd partneriaid wrth ddatblygu cynigion mewn perthynas â'r Pentref Iechyd a Gwyddorau Bywyd yn arwydd cryf o ddarparu safle Llynnoedd Delta a'r hyder ynddo. Yn y cyswllt hwn, mae gan y safle ganiatâd ar gyfer codi lefelau, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd, a chyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ar gyfer y cynllun cyfan yn gynharach eleni (2018) sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Rhoddyd caniatâd cynllunio i brosiect diwydiannau creadigol Yr Egin yng Nghaerfyrddin ym mis Hydref 2016, ac mae wedi'i gwblhau'n rhannol ac mae rhai elfennau ar waith.

Mae'r Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn y broses o gael caniatâd cynllunio amlinellol.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

Cynnal a pharhau ag integreiddiad cryf y CDLI ac amcanion adfywio wrth sbarduno buddsoddiad a chyflawni.

4 Targed Polisi Monitro: Erbyn 2021 caiff 32% o'r datblygiadau ar ddyraniadau tai eu cyflenwi ar safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Caniatâd ar gyfer datblygiadau preswyl ar ddyraniadau tai a ddatblygwyd o'r blaen.	Dylai 29% o'r anheddau a ganiatawyd ar safleoedd dyranedig fod ar ddyraniadau a ddatblygwyd o'r blaen. Cesglir gwybodaeth yn flynyddol. Mae'r ffigur monitro blynyddol uchod yn rhoi ystyriaeth i nifer yr anheddau a gwblhawyd eisoes ar safleoedd dyranedig a ddatblygwyd o'r blaen.	Caniateir llai na 29% (gydag amrywiant ychwanegol o 20% o dan y ffigur targed i ganiatáu am hyblygrwydd) o anheddau trwy ddyraniadau tai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen dros gyfnod o ddwy flynedd.	10% o anheddau ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.	19.7% o anheddau ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.	15.7% o anheddau ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.	31.8% o anheddau ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.
Dadansoddiad: Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer chwe safle (199 uned) ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, a chaniatawyd 18 safle (426 uned) ar safleoedd tir glas.						
Casgliad: Parhau i fonitro.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.						

5 Targed Polisi Monitro: Ni ddylai unrhyw ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed ddigwydd mewn parthau perygl llifogydd C1 ac C2 yn groes i PCC a chanllawiau TAN 15

Dangosydd	Targed Monitro Blynnyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nid yw nifer y datblygiadau sy'n agored iawn i niwed (yn unol â chategori datblygu paragraff 5.1 TAN15) a ganiateir mewn parthau perygl llifogydd C1 ac C2 yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i-v).	Ni chaniateir unrhyw geisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 ac C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.	1 cais wedi'i ganiatáu ar gyfer datblygiad sy'n agored iawn i niwed mewn parth perygl llifogydd C1 neu C2, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Nodyn: Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfeirio'r holl geisiadau mae'n bwriadu eu cymeradwyo ar gyfer datblygu gwasanaethau brys neu ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed, lle bo'r holl dir lle bwriedir lleoli'r datblygiad mewn parth llifogydd C2, i Weinidogion Cymru. Yn achos datblygiad preswyl, y trothwy ar gyfer rhoi gwybod i Weinidogion Cymru yw 10 annedd neu fwy, gan gynnwys fflatiau.	Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.	Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.	Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.	Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.
Dadansoddiad:						
Mae'r cofnodion yn dynodi na chafodd unrhyw geisiadau datblygu agored iawn i niwed eu caniatáu yn ystod cyfnod yr AMB hwn, a oedd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.						
Casgliad:						
Mae'r targed wedi cael ei gyrraedd.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.						


6 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar Systemau Draenio Cynaliadwy

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu CCA ar Systemau Draenio Cynaliadwy.		CCA heb eu cynhyrchu o fewn 5 mis i fabwysiadu'r Cynllun.	CCA wedi'u cynhyrchu.	CCA wedi'u mabwysiadu.	CCA wedi'u mabwysiadu.	CCA wedi'u mabwysiadu
<p>Dadansoddiad: Cafodd y CCA ar Greu a Dylunio Lleoedd ei fabwysiadu ym mis Medi 2016. Mae'r CCA hwn yn trafod dulliau gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy mewn dull seilwaith gwyrdd cyffredinol o weithredu. Gellir gweld y CCA ar wefan y Cyngor:</p> <p>https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213904/adopted-placemaking-design-spg-report.pdf</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei ddiweddarau fel sy'n briodol i ymateb i weithrediad Atodlen 3 – sy'n orfodol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar ddatblygiadau newydd. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad ynghylch fersiwn drafft Polisi Cynllunio Cymru argraffiad 10 hefyd yn cael ei fonitro, ynghyd ag unrhyw ddiweddiariad i Nodyn Cyngor Technegol 15.</p>						

Tai

7 Targed Polisi Monitro: Cynnal cyflenwad o dir tai am o leiaf 5 mlynedd.

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Y cyflenwad o dir tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol (TAN 1).	Cynnal cyflenwad o dir tai am o leiaf 5 mlynedd.	Cyflenwad y tir tai yn disgyn yn is na'r gofyniad 5 mlynedd.	4.1 blynedd	4.2 blynedd	3.8 blynedd	3.5 blynedd
<p>Dadansoddiad: Nid yw'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 wedi'i chwblhau eto. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin Drafft ar gyfer yr Astudiaeth yn cyfrifo bod 3.5 blynedd o dir tai ar gael, ar 1^{af} Ebrill 2019.</p> <p>Astudiaeth 2015 oedd yr astudiaeth gyntaf i ddefnyddio cyfnod y CDLI mabwysiedig fel sail ar gyfer y cyfrifiad preswyl, ac arweiniodd at gyflenwad o 3.7 blynedd. Ers 2015 cafwyd cynnydd yn y cyflenwad i 4.1 blynedd yn 2016 a 4.2 blynedd yn 2017; fodd bynnag, yn 2018 gwelwyd cwmp i 3.8 blynedd, ac eleni eto gwelwyd cwmp pellach i 3.5 blynedd.</p>						



Nid yw'r targed i gynnal cyflenwad 5 mlynedd yn unol â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 yn cael ei gyrraedd ar hyn o bryd ac nid yw'r rhesymau wedi newid ers yr AMB blaenorol:


- Roedd yr amcanestyniadau tai a phoblogaeth a gynhaliwyd fel rhan o'r CDLI yn uchel. Mae TAN 1 (Ionawr 2015) yn datgan bod rhaid defnyddio cyfrifiad y dull gweddilliol yn unig yn awr fel dull o gyfrif cyflenwad o dir. Mae'r dull gweddilliol yn cymharu faint o dir y cytunwyd a fydd ar gael yn ddiwyll gyda'r gofyniad tai sy'n weddill yn y CDLI mabwysiedig. Gan fod yr amcanestyniadau'n uchel, mae'r gofyniad tai sy'n weddill yn uchel hefyd, gan arwain at gyflenwad tir is na'r disgwyl. Yn y gorffennol, mae cymhariaeth wedi'i gwneud â'r dull cyfradd adeiladu yn y gorffennol. Pe bai'r dull hwn yn dal i gael ei ddefnyddio, byddai'r gyfradd yn fwy na 5 mlynedd.

- Mae'r ddarpariaeth dai wedi gostwng yn gyffredinol ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cael effaith yn Sir Gaerfyrddin. Yr hyn sy'n gyfrifol yn rhannol am hyn yw'r dirwasgiad economaidd a marchnad araf. Mae'r cyfraddau adeiladu ar safleoedd mawr wedi gostwng ryw ychydig eleni ond mae'r duedd gyffredinol yn dangos cynnydd cyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid ydynt wedi bod mor uchel â'r lefelau a welwyd yn 2008.
- Mae rhannau o Sir Gaerfyrddin yn wledig iawn ac wedi'u nodweddu â chyfran uwch o adeiladu safleoedd bach gan unigolion ac adeiladwyr lleol. Mae'r gwaith o ddarparu a chyfrannu safleoedd bach at yr astudiaeth ond wedi cael ei fonitro yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Mae'r Cyngor yn parhau i gredu nad yw'r ffigur cyflenwad tir o 3.5 yn adlewyrchiad cywir o angenrheidrwydd o'r tir sydd wir ar gael ar gyfer datblygu. Y realiti yw bod llawer iawn o dir ar gael o bosibl, mwy nag y mae'r ffigurau'n ei gynrychioli, oherwydd y fethodoleg a ddefnyddir wrth amcanu'r ffigurau cyflenwad tir. Gellir ystyried y safleoedd hyn fel rhai sydd ar gael o bosibl am nad oes ganddynt unrhyw gyfyngiadau ffisegol, ond maent y tu allan i'r dosbarthiad pum mlynedd am nad oes gan y safle ganiatâd cynllunio dilys, neu mae ganddo ganiatâd yn amodol ar lofnodi S106 ac felly mae wedi syrthio i Gategori e. Felly gallai'r safleoedd hyn gael eu dwyn ymlaen ar fyr rybudd, fodd bynnag, byddai'n rhaid i amodau amrywiol newid er mwyn i hyn ddigwydd.

Mae'r tablau a'r graffiau canlynol yn dangos nifer y tai a gwblhawyd dros y blynyddoedd diwethaf:

Tai a gwblhawyd ers dyddiad sylfaen y CDLI:

	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Safleoedd Mawr (>5)	647	263	300	563	276	317	379	429	516	426	406	277
Safleoedd Bach (<5)									92	92	105	117



- Mae effaith y gofyniad ar gyfer cyfraniadau S106 ychwanegol ar gyfer datblygiadau tai'n parhau'n anodd ei fesur ar y cam hwn. Mae'r gofyniad, o dan Bolisi GP3 ac wedi'i ddatgan yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, yn berthnasol i bob datblygiad tai, os yw'n hyfyw. Mae angen rhagor o dystiolaeth i fesur ei effaith ar y datblygwyr llai a'r hunan-adeiladwr. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro dros amser.
- Er mwyn annog y gallu i ddarparu safleoedd tai, cysylltwyd â pherchnogion tir ar safleoedd dyranedig er mwyn esbonio bod disgwyl i safleoedd dyranedig gael eu darparu yn ystod cyfnod y cynllun. Hefyd roedd y llythyr yn gofyn am eu bwriadau i ddatblygu'r safle ac unrhyw rwystrau'n atal datblygu maent wedi dod ar eu traws.

- Hefyd, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi datgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1, ac felly nid yw diffyg cyflenwad pum mlynedd yn ystyriaeth berthnasol ar hyn o bryd.

Casgliad:

Nid yw'r targed o gyflenwad tir tai o 5 mlynedd wedi cael ei gyrraedd ond mae sawl rheswm dros hyn, fel y nodir uchod. Dylid cyfeirio hefyd at argymhellion a chasgliadau'r AMB hwn.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

8 Targed Polisi Monitro: Darparu 15,197 o anheddau erbyn 2021

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol Interim /	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer yr anheddau a ganiateir yn flynyddol.	Caniatáu 1,405 o anheddau'n flynyddol.	Caniatáu 20% +/- 2,810 o anheddau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	1,483 o anheddau	584 o anheddau.	1,045 o anheddau	866 o anheddau

Dadansoddiad:

Cyfanswm yr anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yw 866.

Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd mawr (>5 o unedau) yw 737 o unedau. Mae hyn yn cynnwys 312 o unedau a ddyfarnwyd fel rhan o ganiatâd amlinellol, a 425 o unedau fel rhan o faterion a gedwir yn ôl neu ganiatâd cynllunio llawn (gyda 2 yn amlinellol a materion a gedwir yn ôl ar yr un safle).

Mae 129 o unedau wedi'u dyfarnu ar safleoedd bach (<5 o unedau), dyfarnwyd caniatâd amlinellol i 35 o unedau a dyfarnwyd materion a gedwir yn ôl neu ganiatâd cynllunio llawn i 134 o unedau.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dim ond unwaith mae cyfraniad unedau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol a manwl yn ystod cyfnod un AMB yn cael eu cyfrif, i osgoi cyfrif dwbwl.

Casgliad:

Mewn perthynas â'r Sbardun Asesu, a gyrhaeddwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun yn unig, mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn syrthio y tu allan i'r lwfans trothwy o 20%.

Fel anogaeth i ddarparu ar safleoedd dyranedig, mae'r ACLI wedi cysylltu â pherchnogion tir, datblygwyr ac asiantau i gael gwybod am y cynnydd o ran dod â safleoedd dyranedig ymlaen i'w datblygu. Gofynnwyd i berchnogion tir, datblygwyr neu asiantau ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r camau gweithredu a gymerwyd a'r bwriad o ran darparu ar y safle.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd materion perthnasol i ddarparu ar y safle'n cael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad yn y dyfodol yn y CDLI.

Bydd yr ACLI yn cynnal rhagor o ymgysylltu â pherchnogion tir, datblygwyr ac asiantau i fwrw ymlaen â darparu safleoedd sydd wedi'u dyrannu yn y CDLI.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

9 Targed Polisi Monitro: Darparu 2,375 o anheddau ar hap-safleoedd erbyn 2021

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol Interim /	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer yr anheddau a ganiateir ar hap-safleoedd.	Caniatáu 186 o anheddau'n flynyddol ar hap-safleoedd.	Caniatáu 20% +/- 372 o anheddau ar hap-safleoedd yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun	784 o anheddau	407 o anheddau	284 o anheddau	241 o anheddau

Dadansoddiad:

Rhagorwyd ar y targed o ganiatáu 186 o anheddau bob blwyddyn ar hap-safleoedd. Mae cyfanswm o 241 o unedau wedi cael eu dyfarnu ar safleoedd mawr (>5 o unedau) a bach (<5 o unedau) yn ystod y cyfnod monitro.

Hap-safleoedd (Safleoedd Mawr)

Mae 112 o unedau wedi'u dyfarnu ar safleoedd mawr; derbyniodd 17 o unedau ganiatâd amlinellol a derbyniodd 95 o unedau faterion a gedwir yn ôl/caniatâd llawn ar 9 safle.

Hap-safleoedd (Safleoedd Bach)

Mae 129 o unedau wedi cael eu caniatáu ar safleoedd bach ac mae 35 o'r rhain wedi cael caniatâd amlinellol a 94 wedi cael materion a gedwir yn ôl/caniatâd llawn.

Mae'r caniatadau i hap-safleoedd unwaith eto wedi lleihau ers y flwyddyn ddiwethaf. Efallai mai'r rheswm am hyn yw'r gostyngiad yn nifer y safleoedd gwaddol yn y CDU sydd â chaniatâd dilyn wrth ddod ymlaen. Mae'r safleoedd bach sydd wedi cael caniatâd wedi gostwng eleni, gan mai dim ond yn ystod y 4 blynedd diwethaf y maent wedi bod yn cael eu monitro ac nid yw'n glir a yw nifer y caniatadau i safleoedd bach yn normal, neu oherwydd y cyfnod pontio wrth symud o'r CDU i'r CDLI. Mae'r niferoedd yn parhau i fod yn gyson yn y tair blynedd gyntaf: 199 (AMB 1); 199 (AMB 2); 187 (AMB 3) ond maent yn gostwng i 129 yn AMB 4.

Casgliad:

Mae canlyniadau cyfnod yr AMB hwn wedi gweld gostyngiad pellach yn nifer yr hap-safleoedd a ganiateir. Efallai mai'r rheswm am hyn yw'r gostyngiad yn nifer y safleoedd gwaddol yn y CDU sydd â chaniatâd dilys wrth ddod ymlaen. Mae hyn yn gyson â'r casgliadau a gafodd eu datgan yn yr AMB cyntaf.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

10 Targed Polisi Monitro: Darparu safle Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen dynodedig yn ardal Llanelli

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr gofynnol.	Canfod safle Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen dynodedig yn ardal Llanelli erbyn 2016. Darparu safle Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen dynodedig yn ardal Llanelli erbyn 2017.	Methu canfod safle erbyn 2016. Methu darparu safle erbyn 2017.				
Dadansoddiad: Nid oes safle wedi'i nodi rhwng cyfnodau AMB 2017/2018. Rhoddwyd adroddiad ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Fwrdd Gweithredol y Cyngor ar 26 Mawrth 2018, pryd y penderfynwyd cyhoeddi'r adroddiad a datblygu proses dewis safleoedd i ddiwallu unrhyw angen a nodir. Gyda chymorth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae'r Awdurdod Tai Lleol yn cynnal trafodaethau gyda'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â chynnal proses nodi safleoedd yn ardal Llanelli. Maes o law bydd nifer o safleoedd yn destun arfarniad hyfywedd. Bydd canfyddiadau'r asesiadau hyn yn cyfrannu at drafodaethau cynnar CDLI Diwygiedig 2018-2033. Hefyd, cynhaliwyd ymgynghoriad galw am safleoedd a chyflwynwyd naw safle ar gyfer ystyriaeth. Bydd canlyniad y broses hon hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddewis safle o bosibl mewn perthynas â pharatoi'r CDLI Diwygiedig.						
Casgliad: Rhoddir ystyriaeth i'r broses dewis safleoedd wrth ddiwallu'r angen am dai, fel y'i nodir yn yr adroddiad ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):						

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio nodi a darparu safle Sipsiwn a Theithwyr newydd. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r gwaith o nodi a darparu safle wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig.

11 Targed Polisi Monitro: Monitro'r angen am safleoedd tramwy i Sipsiwn a Theithwyr

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer blynyddol y carafanau Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig ac anawdurdodedig yn y sir.	Dim safle Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gofnodi mewn un anheddiad am 3 blynedd yn olynol.	1 safle Sipsiwn a Theithwyr anawdurdodedig wedi'i gofnodi mewn un anheddiad am 3 blynedd yn olynol.				
<p>Dadansoddiad: Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system newydd o fonitro, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, er mwyn olrhain a nodi gwerysilloedd tramwy anghyfreithlon. Yn ystod cyfnod AMB 4, dynodwyd 10 gwerysill gan y system newydd, a dim ond dau o'r rheiny oedd wedi'u hawdurdodi. Dynoda'r system ar-lein nad oedd yr un o'r gwerysilloedd ar gyfer y rheiny sy'n tramwyo.</p> <p>Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r data a fewnbynwyd o'r system ar-lein ar gyfer y 18 mis diwethaf yn dangos patrwm clir o fod yr un safleoedd yn cael eu defnyddio ar gyfer rheiny sy'n tramwyo. Dim ond un safle sy'n ymddangos yn y system ar fwy nag un achlysur rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2019. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion o fewn sylfaen dystiolaeth y CDLI Diwygiedig 2018-2033.</p>						
<p>Casgliad: Argymhellir yn y cam hwn nad oes angen darparu safle tramwy yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chydweithwyr yn yr Adran Tai yn parhau i fonitro nifer y gwerysilloedd anawdurdodedig yn y sir, gan gynnwys eu lleoliad ac a yw grŵp teuluol unigol yn byw'n gyson mewn lleoliad penodol.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus.</p>						

12 Targed Polisi Monitro: Caniatáu 2,121 o anheddau fforddiadwy erbyn 2021

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir.	<p>Caniatáu 226 o anheddau fforddiadwy yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.</p> <p>Caniatáu 452 o anheddau yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.</p>	Peidio â chaniatáu 20% +/- 452 o anheddau fforddiadwy yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	217.3 o unedau	101 o unedau	216.4 o unedau	122 o unedau

Dadansoddiad:

Dyraniadau Tai	
Math o Ganiatâd	Nifer yr Unedau Fforddiadwy
Caniatadau Amlinellol (gyda niferoedd dangosol)	0
Caniatadau Amlinellol (gyda niferoedd wedi'u nodi)	1
Cynllunio Llawn a Materion a Gedwir yn Ôl	98
Cyfanswm	99

Hap-safleoedd (safleoedd mawr)	
Math o Ganiatâd	Nifer yr Unedau Fforddiadwy
Caniatadau Amlinellol (gyda niferoedd dangosol)	1
Caniatadau Amlinellol (gyda niferoedd wedi'u nodi)	0
Cynllunio Llawn a Materion a Gedwir yn Ôl	14
Cyfanswm	15

Hap-safleoedd (safleoedd bach)	
Math o Ganiatâd	Nifer yr Unedau Fforddiadwy
Gweithiwr Allweddol / Anheddau Menter Wledig / Gwaith Byw. Datblygiad Un Blaned.	4
Angen Lleol	3
Annedd Fforddiadwy	1
Cyfanswm	8

Caniatâd Amlinellol neu Fanwl gydag UU ar gyfer tai fforddiadwy (£ ar sail metr sgwâr)	38 uned
Caniatadau Amlinellol gyda Symiau Gohiriedig Wedi'u Cytuno	Dim caniatâd
Caniatâd Cynllunio Llawn neu Faterion a Gedwir yn Ôl gyda chyfraniad swm gohiriedig wedi'i dalu / i'w dalu	£669,141.32 o fewn 55 cais

Mae AMB 4 yn dangos cwmp yn nifer y tai fforddiadwy a ganiatwyd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2018/2019. Ar safleoedd dyranedig, mae'r cwmp yn amlwg o 189.4 o anheddau fforddiadwy yn AMB 3 i 99 o anheddau fforddiadwy yn AMB 4. Ar hap-safleoedd, mae wedi cwmpo o 20 o anheddau fforddiadwy i 15 o anheddau fforddiadwy.

Mae'r gostyngiad yn nifer yr holl anheddau fforddiadwy yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith bod AMB 3 yn dangos y datblygiadau ar raddfa fawr yn ardal Llanelli sydd wedi cael caniatâd cynllunio, a oedd wedi cynyddu'r niferoedd yn sylweddol.

Y cyfanswm ar safleoedd mawr yw 114 o anheddau fforddiadwy, sydd ychydig yn well nag AMB 2, fodd bynnag, mae'r newid rhwng hap-safleoedd a safleoedd dyranedig yn eithaf amlwg, gan fod llai o safleoedd yn cael eu cyflwyno ar safleoedd heb eu dyrannu.

Yn ogystal â'r uchod, rhoddwyd caniatâd i gais amlinellol ar ddarn mawr o dir ar safle Defnydd Cymysg Gorllewin Caerfyrddin. Mae holl safle'r cais yn mesur 10.8 hectar. Nid yw'r niferoedd wedi'u nodi yn y cais, ac felly ni ellir eu cynnwys yn y tabl uchod.

Taliadau Swm Cyfnewid

Mae AMB 4 yn dynodi gostyngiad yn nifer yr achosion lle rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol sydd ag Ymgymeriad Unochrog - 38 uned, i lawr o 54 uned yn AMB 3. Yn ogystal, mae nifer y ceisiadau manwl lle cyfrifwyd y chyfraniad swm cyfnewid wedi cwmpo o £888,628 i £669,141.32.

Casgliad:

Mae nifer yr unedau fforddiadwy sy'n cael eu cymeradwyo wedi gostwng yn ystod cyfnod AMB 4. Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i lwyddiant caniatâd cynllunio yn AMB 3, lle gwelwyd cynnydd enfawr yn nifer y safleoedd a gyflwynwyd – yn enwedig yn ardal Llanelli. Ymhelaethir ar yr achosion hyn o roi caniatâd yn AMB 4 o dan Darged 14 y Polisi.

Er na chaiff hyn ei adlewyrchu yn y niferoedd, byddai safle Gorllewin Caerfyrddin yn cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy yn y sir yn sylweddol. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r niferoedd penodol ar y safle hwn yn y cam materion a gadwyd yn ôl.

Gyda golwg ar safleoedd bach a'r cyfraniadau swm cyfnewid a dderbyniwyd, yn ystod cyfnod yr AMB hwn gwelwyd gostyngiad o £219,487 o safbwynt safleoedd â materion a gadwyd yn ôl neu ganiatâd manwl o AMB 3, fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau lle sicrhawyd Ymgymeriad Unochrog wedi aros yr un peth (55 cais). Gellir defnyddio'r swm hwn i gynorthwyo i ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r gwasanaethau cynllunio yn cynorthwyo cydweithwyr yn yr Awdurdod Tai Lleol i gynyddu'r cyfleoedd i gael tai fforddiadwy drwy'r cyfraniadau ariannol a gesglir.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Mae'r Adain Flaengynllunio yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewnol o'r adran Adfywio a Pholisi a Thai i gynorthwyo gyda marchnata a gwaredu safleoedd o eiddo'r Cyngor, sy'n cynnwys y potensial o ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus a gwneir rhagor o waith ynghylch hyfywedd yn rhan o'r CDLI Diwygiedig.

13 Targed Polisi Monitro: Targedau tai fforddiadwy i adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol Interim /	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Targed canrannol o ran tai fforddiadwy ym Mholisi AH1.	Y targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd.	Os yw prisiau tai cyfartalog yn codi 5% yn uwch na phris sylfaen lefelau 2013 a'u cynnal dros 2 chwarter, gall yr Awdurdod gynnal profion hyfywedd ychwanegol ac addasu'r targedau a bennwyd ym Mholisi AH1.				

Dadansoddiad:

	Seiliedig ar Werthiant Unig yn			
	Cymedr (£)	Chwarter Is (£)	Chwarter Uwch (£)	90 ^{ain} Canradd
Ebrill 2018	152,397	98,333	183,333	251,833
Mai 2018	151,235	97,833	183,333	253,500
Mehfin 2018	151,619	102,166	183,166	252,500
Gorffennaf 2018	154,062	102,963	181,500	256,666
Awst 2018	160,655	102,463	193,165	273,333

Medi 2018	161,617	101,446	195,665	276,666
Hydref 2018	163,207	102,316	203,665	281,666
Tachwedd 2018	162,644	105,983	198,666	276,666
Rhagfyr 2018	161,015	106,000	198,000	272,333
Ionawr 2019	157,674	102,666	190,000	263,983
Chwefror 2019	154,285	100,000	186,650	257,316
Mawrth 2019	154,250	99,000	185,816	254,650

Bydd tystiolaeth gefndirol yn cael ei chasglu i lywio targedau tai fforddiadwy'r dyfodol ar gyfer y CDLI Diwygiedig.

Mae'r gwerth cymedrig ar sail gwerthiannau yn unig ar gyfer y flwyddyn gyfan yn dod i £157,055. Roedd y ffigurau y tynnwyd sylw atynt yn AMB3 ar gyfer y cyfnod 17/18 yn nodi ffigur gwerthiannau cymedrig yn unig o £155,058; cyfnod AMB2 yn 16/17 yn cofnodi ffigur cymedrig o £149,859 tra bod AMB 1 yn nodi ffigur gwerthiannau cymedrig yn unig o £143,003. Fesul blwyddyn, mae'r gwerth cymedrig dros y cyfyngiad o 5% o lefelau 2013. Ar fesul chwarterol, ac nid yw'r data'n dangos unrhyw gydberthyniad sylweddol o ran cynnydd ym mhrisiau'r tai bob chwarter yn seiliedig ar werthoedd y tai a werthwyd yn unig.

Bydd tystiolaeth gefndirol yn cael ei chasglu i lywio targedau tai fforddiadwy'r dyfodol ar gyfer y CDLI Diwygiedig.

Casgliad:

Er bod y lefelau cymedrig o flwyddyn i flwyddyn yn cynyddu, mae'r Cyngor yn cynnal gwaith casglu tystiolaeth bellach i lywio'r CDLI diwygiedig. Mae'r gwaith hwn yn wael i nodi targedau tai fforddiadwy o fewn y sir.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i fonitro amrywiol dystiolaeth ystadegol sy'n gysylltiedig â phrisiau tai bob chwarter er mwyn llywio gofynion y CDLI Diwygiedig,

14 Targed Polisi Monitro: Anheddau fforddiadwy i'w caniatáu ar ddyraniadau tai i bob ardal is-farchnad fel a ganlyn:

- Llanymddyfri, Llandeilo a Gogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin
- Sanclêr a'r Ardaloedd Gwledig o'i Chwmpas
- Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig
- Castell-newydd Emlyn a'r Ardal Wledig Ogleddol
- Cydweli, Porth Tywyn, Pen-bre a Chwm Gwendraeth Isaf
- Llanelli
- Rhydaman / Cross Hands a Dyffryn Aman

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau tai i bob ardal is-farchnad	Dylai cyfran yr anheddau fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau preswyl fod yn unol â Pholisi AH1 fel a ganlyn:	Cyfran yr aneddiadau a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn gwyro 20% +/- oddi wrth y targed a nodwyd.				
	• Llanymddyfri, Llandeilo a Gogledd Ddwyrain Sir Gaerfyrddin – 30%					Dim
	• Sanclêr a'r Ardaloedd Gwledig o'i Chwmpas – 30%					Dim
	• Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig 30%					Dim
	• Gorllewin Caerfyrddin (20%)					GA1/MU1 – Tir i'r gogledd o Hen Heol Sanclêr (B4312), i'r

						de o Heol Pentremeurig ac i'r gorllewin o Gaerfyrddin – 12% yn fforddiadwy.
	• Castell-newydd Emlyn a'r Ardal Wledig Ogleddol – 20%					W/37215 – Tir y tu cefn i Cefn Farm a Dan y Dderwen, Rhydargaeau –2 allan o 7 annedd yn fforddiadwy – 28.5% yn fforddiadwy
	• Cydweli, Porth Tywyn, Pen-bre a Chwm Gwendraeth Isaf – 20%					T3/4/h3 – 20 Bryncaerau, Trimsaran. Un annedd allan o 6 yn fforddiadwy – 16.6%. T2/1/h11 – Tir yn Garreglwyd – 14 annedd fforddiadwy – 100% yn safle fforddiadwy SC40/h3 – Cae Rasio Ffos Las – 10% yn fforddiadwy T2/1/h9 – Yr Hen Goodig Hotel, 21 o dai fforddiadwy allan o 103 o anheddau – 20.4% yn fforddiadwy
	• Llanelli – 20%					GA2/h57 – Tir yn Dylan, 34 o dai fforddiadwy newydd – 100% yn fforddiadwy
	• Rhydaman / Cross Hands a Dyffryn Aman – 10%					T3/7/h5 – Tir ar ochr ddwyreiniol Bronallt, yr Hendy – 1 allan o 8 annedd – 12.5% yn fforddiadwy

						<p>SC34/h5 – Tir i'r dwyrain o Heol y Plas, Llannon, 3 allan o 48 annedd – 6.25%.</p> <p>GA3/MU1 – Tir yn Cross Hands, 5% yn fforddiadwy dros 4 cam – 10 uned.</p>
<p>Dadansoddiad:</p> <p>Mae'r dadansoddiad uchod yn darparu syniad o'r cynnydd yn nifer y dyraniadau tai a gafodd ganiatâd cynllunio yn AMB 4. Mae dau o'r dyraniadau a gafodd ganiatâd cynllunio yn safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor ac mae 100% ohonynt yn dai fforddiadwy.</p> <p>Mae nifer o safleoedd mawr yn yr ardal dwf wedi'u cymeradwyo, sy'n cynnwys elfen o dai fforddiadwy. Rhoddwyd caniatâd i Orllewin Caerfyrddin, Gorllewin Cross Hands a cham nesaf Ffos Las.</p> <p>O ran canran y tai fforddiadwy, mae AMB 4 wedi bod yn eithaf llwyddiannus, gan fod y Goodig Hotel ym Mhorth Tywyn wedi cyrraedd y targed o ran tai fforddiadwy, tra bod safleoedd eraill ychydig islaw'r targed.</p> <p>O ran y safleoedd hynny a gymeradwywyd â llawer llai o dai fforddiadwy yn y cynllun, mae arfarniadau hyfywedd wedi'u cyflwyno i gyfiawnhau eu lleihau.</p> <p>Wrth ystyried y pedwar AMB a gyhoeddwyd, dangoswyd mai ychydig iawn o ganiatâd cynllunio / datblygu a welwyd yn rhai o'r is-farchnadoedd megis y rheiny yn y Gogledd a'r Gogledd-ddwyrain, ac o ganlyniad niferodd bach o dai fforddiadwy sydd yn cael eu caniatáu a'u cyflawni.</p>						
<p>Casgliad:</p>						

Ar gyfer safleoedd sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod AMB 4, mae'r targed ar gyfer y ganran o dai fforddiadwy wedi bod yn eithaf llwyddiannus, gyda tharged y polisi monitro yn cyd-fynd yn agos â'r caniatâd cynllunio a roddir. Gyda safleoedd yn cael eu datblygu hefyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, bydd hyn yn cynyddu nifer yr unedau fforddiadwy a ddatblygir yn y Sir.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Fel rhan o'r CDLI Diwygiedig, gwneir rhagor o waith ynghylch hyfywedd safleoedd a'r gallu i'w cyflawni, a rhoddir ystyriaeth i'r targedau o ran tai fforddiadwy.

Yr Economi a Chyflogaeth

15 Targed Polisi Monitro: 111.13ha o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 yn cael ei ddatblygu dros gyfnod y Cynllun

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
<p>Caniatadau wedi'u rhoi i ddatblygu ar dir cyflogaeth a restrir ym Mholisi SP7.</p> <p>Caniatadau ar gyfer, neu argaeledd, seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig sy'n hwyluso'r gwaith o gyflenwi safleoedd cyflogaeth (ha) fel y rhestrir ym Mholisi SP7.</p>	<p>25% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n cael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu cyn pen y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. At ddibenion monitro tir cyflogaeth, bydd 'ar gael' yn dangos bod y safleoedd naill ai'n cael budd o ganiatâd cynllunio neu argaeledd seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig i hwyluso'r gwaith datblygu.</p>	<p>Llai na 25% o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu gan Bolisi SP7, gydag amrywiant pellach o 20% o dan y ffigur targed i ganiatáu am hyblygrwydd, wedi'i ganiatáu neu ar gael cyn pen 2 flynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at ddarparu.</p>	<p>90% o'r targed monitro blynyddol / interim ar gyfer tir cyflogaeth wedi'i fodloni.</p>	<p>98% o'r targed monitro blynyddol / interim ar gyfer tir cyflogaeth wedi'i fodloni.</p>	<p>Mae'r targed eisoes wedi'i fodloni yn yr ail AMB. Cynnydd pellach yn y trydydd AMB.</p>	<p>Mae'r targed eisoes wedi'i fodloni yn yr ail AMB. Cynnydd pellach yn y pedwerydd AMB.</p>

Dadansoddiad:

Mae targed y polisi monitro'n berthnasol i swm y tir cyflogaeth sydd wedi cael ei ganiatáu neu sydd wedi dod ar gael yn ystod dwy flynedd y mabwysiadu. Adeg cyhoeddi'r AMB cyntaf yn 2016, nid oedd dwy flynedd wedi mynd heibio ers mabwysiadu, felly roedd yn anodd cynnal asesiad manwl gywir o'r targed hwn. Serch hynny, gwelwyd fod bron i 90% o'r targed monitro blynyddol / interim ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf wedi'i gyrraedd eisoes erbyn yr amser hwn.

Yn ystod cyfnod yr AMB hwn, derbyniodd rhagor o dir ar ddyraniadau cyflogaeth ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithgareddau cyflogaeth – sy'n dod i gyfanswm o **0.7 hectar**. O gyfuno hyn â chyfanswm y tir sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu sydd ar gael i'w ddatblygu, mae'r ffigur yn codi o 30.06 hectar yn AMB y llynedd i **30.76 hectar** ar gyfer cyfnod monitro 18/19.

Cafodd y targed monitro a nodwyd yn y CDLI (25% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n cael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu o fewn 2 flynedd gyntaf y Cynllun ar ôl ei fabwysiadu) ei fodloni yn ystod cyfnod AMB 2 yn 2017 (gan roi ystyriaeth i'r amrywiant ychwanegol o 20% o dan y targed i ganiatáu hyblygrwydd). Mae'r rhagor o dir a gymerwyd yn ystod cyfnod y pedwerydd AMB yn tystio i'r ffaith fod y safleoedd a ddyrannwyd at ddefnydd cyflogaeth yn y CDLI yn parhau i gael eu cyflawni.

Casgliad:

Gwnaed cynnydd clir; bydd gwaith monitro ac adrodd pellach yn cael ei wneud yn yr AMBau dilynol ac fel rhan o'r Adolygiad o'r CDLI.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

16 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fentrau Gwledig

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu'r Canllawiau Cynllunio Atodol.		Canllawiau Cynllunio Atodol heb eu cynhyrchu cyn pen 9 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.
<p>Dadansoddiad: Mabwysiadwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol - Datblygiadau Gwledig ym mis Medi 2016.</p> <p>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213903/adopted-rural-development-spg-report.pdf</p>						
<p>Casgliad: Mae'r targed wedi'i gyrraedd.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.</p>						

Adwerthu

17 Targed Polisi Monitro: Sicrhau nad yw cyfraddau'r unedau gwag yn ardaloedd Prif Ffryntiad Adwerthu a Ffryntiad Adwerthu Eilaidd trefi'r Ardaloedd Twf yn tyfu i lefel a fyddai'n cael effaith andwyol ar fywiogrwydd y canolfannau hynny

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cyfraddau unedau gwag blynyddol yr eiddo masnachol yn ardaloedd Prif Ffryntiad Adwerthu a Ffryntiad Adwerthu Eilaidd trefi'r Ardaloedd Twf.	Cyfraddau unedau gwag eiddo masnachol yng nghanol trefi Caerfyrddin, Rhydaman a Llanelli.	Monitro am wybodaeth.				
<p>Dadansoddiad: Mae'r Cyngor, fel rhan o'i weithgarwch monitro adwerthu y tu hwnt i'r AMB hwn, yn cydnabod yr angen am ddeall a chofnodi gweithgareddau adwerthu sy'n newid ar lefel sirol a lefel canolfan leol. O feddwl am hyn, mae'r Cyngor wedi llunio Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin 2015 wedi'i diweddarau, sydd ar gael ar wefan y Cyngor.³ Mae'r diweddariad hwn yn adeiladu ar Astudiaeth flaenorol 2009 ac yn adlewyrchu'r data a'r wybodaeth ddiweddaraf am adwerthu ledled y Sir o ran cyfleustod (adwerthu bwyd) a chymharu (adwerthu heb fod yn fwyd). Mae'r astudiaeth yn diweddarau'r asesiad o'r angen meintiol am ofod llawr adwerthu drwy gydol gweddill cyfnod y CDLI hyd at 2021. Hefyd cynhelir arolygon adwerthu Canol Trefi i weld faint o weithgarwch presennol ac yn newid yn y canol trefi a nodir sy'n cynnwys tracio lefelau'r unedau gwag a chyfran y defnyddiau heb fod yn adwerthu. Nodir cyfraddau'r unedau gwag isod yn ôl anheddiad ac yn ôl y Prif Ffryntiad a Ffryntiad Eilaidd:</p>						

³ <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3686/2015-retail-study-update-carms-retail-study-update-english-new-cover.pdf>

	Prif Ffryntiad		Ffryntiad Adwerthu Eilaidd	
	Cyfanswm yr Unedau	Unedau Gwag (%)	Cyfanswm yr Unedau	Unedau Gwag (%)
Caerfyrddin	164	18 uned (11%)	128	13 uned (10.2%)
Llanelli	85	14 (16.5%)	104	10 uned (9.6%)
Rhydaman	42	2 uned (4.8%)	52	5 uned (9.6%)

Caerfyrddin

Mae'r cyfraddau eiddo gwag yng Nghanol Tref Caerfyrddin wedi cynyddu yn y prif ffryntiadau adwerthu a'r ffryntiadau adwerthu eilaidd. Er nad yw'n ymddangos bod y cynnydd cyfrannol yn nifer yr eiddo gwag ers AMB 3 yn destun pryder o'i ystyried ar wahân, mae tuedd sy'n peri pryder wedi dod i'r amlwg ers AMB 1, sef bod y gyfradd eiddo gwag yn y prif ffryntiadau adwerthu wedi cynyddu'n raddol bob blwyddyn, o gyfradd eiddo gwag o 7% yn 2015/16 i 13% yn 2018/19. Mae'r cyfraddau eiddo gwag yn y ffryntiadau adwerthu eilaidd wedi amrywio dros y 4 blynedd diwethaf, fodd bynnag, ar y cyfan, mae hyn wedi cynyddu hefyd.

Mae grŵp llywio Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin yn bwriadu sefydlu Ardal Gwella Busnes newydd ac, os caiff ei dechrau'n llwyddiannus, disgwylir y bydd y gwaith o gasglu ardoll yr Ardal Gwella Busnes yn dechrau ym mis Ebrill 2020.

Mae cynllun busnes grŵp llywio Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin yn nodi nifer o addewidion gan gynnwys:

- Gwneud busnesau'n fwy proffidiol
- Gwella proffil y dref
- Gwella'r profiad parcio
- Gwella ymddangosiad y dref

Rhydaman

Fel canolfan adwerthu mae Rhydaman dipyn yn llai na chanolfannau adwerthu Caerfyrddin neu Lanelli, ond er hynny mae'n cyflawni swyddogaeth adwerthu bwysig. Mae lefelau'r unedau gwag yn y prif ffryntiadau adwerthu, fel y gwelir uchod, yn isel; fodd bynnag, mae'r profiad dros y blynyddoedd diwethaf yn dynodi canol tref lle mae'r unedau yn dueddol o newid dwylo yn rheolaidd. Mae'r data a amlinellir uchod yn nodi bod lefel yr unedau gwag yn y ffryntiadau eilaidd wedi gwaethygu'n sylweddol ers AMB 3. Mae iechyd canol tref Rhydaman yn fater sy'n haeddu cael ei ystyried o ddifrif a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r rôl y gallai polisi cynllunio ei chwarae o ran hwyluso gwelliannau, yn rhan o'r CDLI Diwygiedig.

Sefydlwyd tasglu ar gyfer canol y dref, gan gynnwys cynrychiolwyr o blith y Cyngor, masnachwyr a busnesau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r materion adfywio a hyfywedd posibl mewn perthynas â'r dref a rhoi ystyriaeth iddynt.

Canol Tref Llanelli

Yng nghyd-destun Llanelli, nodir bod nifer o 'fannau problemus' yn bodoli lle mae unedau gwag wedi bod yn broblem gyson. Fodd bynnag, mae ardaloedd o'r fath yn darged mentrau adfywio parhaus a sbardunir gan y Cyngor. Yn y cyswllt hwn, mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid drwy gyfrwng Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi cyflwyno cronfa adfywio newydd gyda 3 blaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddiadau a dargedir:

- Canol trefi sy'n gwasanaethu trefi'r 21ain ganrif;
- Cymunedau arfordirol; a
- Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

Fel rhan o'r cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sicrhawyd £1 miliwn, a hefyd oddeutu £1.12 miliwn sydd ar gael drwy gais llwyddiannus am gyllid Piblinell a chyfraniadau'r Cyngor. Mae hyn wedi arwain at brynu 7 eiddo gydag 1 wedi'i adnewyddu gyda'i ofod llawr adwerthu yn llawn a 2 lle

mae gwaith wedi dechrau. Mae'r uned adwerthu lawn wedi profi'n llwyddiant wrth gysylltu ag agweddau cyni'r agenda Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, gyda chysylltiadau â Chymunedau yn Gyntaf a'r Prosiectau Camau sy'n cynnig profiad a chyfleoedd yn y gymuned.

Fel ymateb pellach i'r materion sy'n effeithio ar ganol tref Llanelli ac i gydnabod effaith Parc Trostre a Pharc Pemberton, yn y cyswllt hwn tynnodd AMB1 sylw at yr ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i nodi Gorchymyn Datblygu Lleol yng Nghanol Tref Llanelli.

Mae AMB 3 wedi gweld cynnydd sylweddol yn cael ei gyflawni mewn perthynas â chyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli a mabwysiadwyd y CDLI yn ystod cyfnod AMB 4. Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn dyfarnu caniatâd cynllunio amodol ar gyfer defnyddiau penodol o unedau llawr isaf ac uchaf. Mae disgwyl i'r Gorchymyn Datblygu Lleol, wrth ganiatáu amrywiaeth eang o ddefnyddiau sy'n cyd-fynd heb fod angen caniatâd cynllunio, helpu i gynyddu lefelau deiliadaeth a nifer yr ymwelwyr â chanol y dref.

Mae Ardal Gwella Busnes wedi cael ei sefydlu yng nghanol tref Llanelli. Yr enw arni yw Ymlaen Llanelli ac mae'n cael ei harwain gan fusnesau canol y dref gyda'r nod o roi i'r busnesau lais cryfach a mwy cydweithredol a phŵer i arwain newid er lles canol y dref.

Ymhlith ei hamcanion bydd yr Ardal Gwella Busnes yn ceisio gwneud y canlynol:

- Gwella mynediad a pharcio yng nghanol y dref;
- Marchnata asedau nodedig Llanelli a newid safbwyntiau;
- Datblygu diogelwch a glendid; a
- Cynyddu bywiogrwydd adwerthu a chryfhau'r gymuned fusnes.

Hefyd, mae Tasglu yn ei le ar hyn o bryd gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor, masnachwyr, Ymlaen Llanelli, grwpiau cymunedol ac ati i edrych ar y gwelliannau sydd ar droed mewn perthynas â chanol y dref.

Casgliad:

Er bod y sefyllfa adwerthu yn y tair canolfan sydd wedi'u nodi yn dangos bod nifer yr unedau gwag yn y ffyrntiadau adwerthu eilaidd wedi lleihau, mae'r sefyllfa o ran y prif ffyrntiadau yn fwy cyson. Serch hynny, er bod modd nodi'r elfennau hyn sy'n gyffredin, dylid nodi hefyd fod gan y 3 chanol tref rolau gwahanol iawn o ran eu darpariaeth adwerthu. Felly, dylai unrhyw ymyrraeth neu ddiwygiadau o ran polisi cynllunio gydnabod y rolau gwahanol y maent yn eu chwarae a chael eu llywio gan ystyriaeth bellach o'r heriau y mae pob canol tref yn eu hwynebu.

- Yn y cyswllt hwn, mae Tref Caerfyrddin yn ganolfan adwerthu ranbarthol bwysig sy'n cynnig darpariaeth adwerthu eang sy'n amrywio o enwau mawr ar y stryd fawr i ddarpariaeth leol ac mae cyfradd yr unedau gwag yn gymharol isel; fodd bynnag, bydd angen mynd ati'n barhaus i fonitro'r cynnydd diweddar yn lefel yr unedau gwag i benderfynu p'un a fyddai unrhyw ymyriadau gweithredol yn fuddiol.
- Fodd bynnag, mae Llanelli wedi profi newid yn ei darpariaeth yng nghanol y dref, ond wedi denu buddsoddiad adfywio sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae mentrau corfforaethol, gwleidyddol a busnes yn eu lle fel rhan o'r adfywiad hwn. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod angen monitro gofalus ac mae dull ymatebol o weithredu drwy Orchymyn Datblygu Lleol ar waith.
- Roedd cyfradd unedau gwag Rhydaman hefyd yn isel yn y prif ffryntiadau adwerthu, gan gadw nifer o enwau'r stryd fawr gydag amrywiaeth o adwerthwyr lleol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi profi trosiant mewn deiliadaeth a chynnydd sylweddol yng nghyfran yr unedau gwag yn y ffryntiadau adwerthu eilaidd. Bydd angen monitro hyn yn barhaus o ran bywiogrwydd a hyfywedd y dref ac, os bydd cynnydd mor sylweddol yn nifer yr unedau gwag yn yr AMB nesaf, bydd angen rhoi mesurau ar waith i ddiogelu canol y dref rhag dirywio ymhellach.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Monitro effeithiolrwydd Gorchymyn Datblygu Lleol Llanelli yn ystod cyfnod AMB 5.

Monitro lefel yr unedau gwag yn y ffryntiadau adwerthu eilaidd a gwneud rhagor o waith i ystyried y materion sy'n effeithio ar ganol y trefi.

Cymryd rhan mewn fforymau a mentrau a arweinir gan adfywiad sy'n ceisio sicrhau bod bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi'n cael eu gwella.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

18 Targed Polisi Monitro: Cynnal cyfanrwydd y Prif Ffryntiad Adwerthu

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cyfran yr unedau a ddefnyddir at ddibenion adwerthu A1 a leolir yn y Prif Ffryntiad Adwerthu fel y dynodwyd gan Bolisi RT2.	65% neu ragor o'r unedau yn y Prif Ffryntiad Adwerthu'n cael eu defnyddio at ddibenion A1.	Llai na 65% o'r unedau yn y Prif Ffryntiad Adwerthu'n cael eu defnyddio at ddibenion A1 gydag amrywiant ychwanegol o 10% o dan y ffigur targed i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd.				
<p>Dadansoddiad:</p> <p>Mae'r Cyngor, fel rhan o'i drefn i fonitro adwerthu y tu hwnt i'r AMB hwn, yn cydnabod yr angen am ddeall a chofnodi gweithgareddau adwerthu sy'n newid ar lefel sirol a lefel canolfan leol. O feddwl am hyn, mae'r Cyngor wedi llunio Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin 2015 wedi'i diweddarau, sydd ar gael ar wefan y Cyngor⁴. Mae'r diweddariad hwn yn adeiladu ar Astudiaeth flaenorol 2009 ac yn adlewyrchu'r data a'r wybodaeth ddiweddaraf am adwerthu ledled y Sir o ran cyfleustod (adwerthu bwyd) a chymharu (adwerthu heb fod yn fwyd). Mae'r astudiaeth yn diweddarau'r asesiad o'r angen meintiol am ofod llawr adwerthu drwy gydol gweddill cyfnod y CDLI hyd at 2021.</p> <p>Hefyd cynhelir arolygon adwerthu Canol Trefi i weld faint o weithgarwch presennol ac yn newid sydd yn y canol trefi a nodir – ac mae'r elfennau allweddol yn y cyswllt hwn yn cynnwys tracio lefelau unedau gwag a chyfran y defnyddiau heb fod yn adwerthu yn y canolfannau a nodir.</p>						

⁴ <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3686/2015-retail-study-update-carms-retail-study-update-english-new-cover.pdf>

Nodir cyfran yr unedau defnydd adwerthu heb fod yn ddefnydd A1 yn ôl Prif Ffryntiad a Ffryntiad Eilaidd isod. Cynhwysir y manylion perthnasol i Ffryntiad Eilaidd i sicrhau cyflawnder.

	Prif Ffryntiad		Ffryntiad Adwerthu Eilaidd	
	Cyfanswm yr Unedau	Dim A1 (%)	Cyfanswm yr Unedau	Dim A1 (%)
Caerfyrddin	162	26 uned (16%)	127	42 uned (33%)
Llanelli	85	14 uned (16%)	103	38 uned (36.9%)
Rhydaman	42	13 uned (30.9%)	53	17 uned (32%)

Sylwer: Mae'r tabl uchod yn eithrio dosbarthiadau defnydd mewn unedau gwag adeg yr arolwg.

Wrth ystyried yr uchod, mae'n glir bod cyfanrwydd y Prif Ffryntiad Adwerthu'n cael ei gynnal yn y tair canolfan sydd wedi'u dynodi. Yn y cyswllt hwn, nid yw'r pwynt sbardun wedi'i gyrraedd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyflwr ei ganolfannau adwerthu. Cyfeirir at y sylwebaeth a nodir uchod ar gyfer y targed polisi mewn perthynas â lefelau'r unedau gawg yn y Prif Ffryntiad a'r Ffryntiad Eilaidd. Yn y cyswllt hwn, bydd y Cyngor yn ymateb fel sy'n briodol i'r canolfannau hynny ble mae tystiolaeth yn dynodi bod pwysau ar eu bywiogrwydd a'u hyfywedd.

Nodir fod Llanelli wedi profi newid sylweddol o ran adwerthu. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i'r datblygiadau adwerthu y tu allan i'r dref ym Mharc Trostre a Pharc Pemberton. Fodd bynnag, er bod y Prif Ffryntiad a'r Ffryntiad Eilaidd yn perfformio'n gymharol dda o ran cyfrannedd ar gyfer gweithgarwch heb fod yn adwerthu, ceir sawl ardal lle mae adwerthu A1 yn brif weithgarwch. Nodweddir hyn gan Ganolfan Elli lle mae'r defnydd heb fod yn adwerthu'n gyfyngedig. Mae'n glir bod problemau lleol o ran mwy o ddarpariaeth heb fod yn adwerthu wedi ymddangos yn nodedig yn y prif ffryntiad sydd, o'u rhoi ochr yn ochr â lefelau uchel o unedau gwag, yn galw am ystyriaeth barhaus ofalus.

Mae AMB 3 wedi gweld cynnydd sylweddol yn cael ei gyflawni mewn perthynas â chyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli a mabwysiadwyd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn ystod cyfnod AMB 4. Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn dyfarnu caniatâd cynllunio amodol ar gyfer defnyddiau penodol o unedau llawr isaf ac uchaf. Mae disgwyl i'r Gorchymyn Datblygu Lleol, wrth ganiatáu amrywiaeth eang o ddefnyddiau sy'n cyd-

fynd heb fod angen caniatâd cynllunio, helpu i gynyddu lefelau deiliadaeth a nifer yr ymwelwyr â chanol y dref. Bydd hyn yn golygu mai Sir Gaerfyrddin fydd yr ail Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru i gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol.

Hefyd, mae Tasglu yn ei le ar hyn o bryd gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor, masnachwyr, Ymlaen Llanelli, grwpiau cymunedol ac ati i edrych ar y gwelliannau sydd ar droed mewn perthynas â chanol y dref.

Casgliad:

Mae'r sefyllfa adwerthu yn y tair canolfan sydd wedi'u nodi'n parhau'n bositif.

- Mae Tref Caerfyrddin yn ganolfan adwerthu ranbarthol bwysig sy'n cynnig darpariaeth adwerthu eang sy'n amrywio o enwau mawr ar y stryd fawr i ddarpariaeth leol ac mae ganddi ddarpariaeth adwerthu A1 gadarn.
- Fodd bynnag, mae Llanelli wedi profi newid yn ei darpariaeth yng nghanol y dref, ond wedi denu buddsoddiad adfywio sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae mentrau corfforaethol, gwleidyddol a busnes yn eu lle fel rhan o'r adfywiad hwn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen monitro gofalus ac mae dull ymatebol o weithredu drwy Orchymyn Datblygu Lleol ar waith.
- Mae Rhydaman, er ei bod wedi cadw nifer o enwau'r stryd fawr gydag amrywiaeth o adwerthwyr lleol, wedi profi trosiant mewn deiliadaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, er mwyn diogelu ei bywiogrwydd a'i hyfywedd parhaus, bydd monitro'r dref yn fanwl yn angenrheidiol.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Monitro Gorchymyn Datblygu Lleol Llanelli.

Cymryd rhan mewn fforymau a mentrau a arweinir gan adfywiad sy'n ceisio sicrhau bod bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi'n cael eu gwella.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

Trafnidiaeth

19 Targed Polisi Monitro: Gweithredu'r cynlluniau ffyrdd a nodir ym Mholisi SP9

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynnydd tuag at weithredu'r cynlluniau ffyrdd a nodir ym Mholisi SP9 yn unol â'r amserlenni cyflenwi.	Gweithredu yn unol ag amserlenni cyflenwi.	Nid yw'r cynlluniau ffyrdd a nodir ym Mholisi SP9 wedi'u cyflenwi'n unol â'r amserlenni cyflenwi.	Cynnydd wedi'i wneud yn gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9 sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.	Cynnydd wedi'i wneud yn gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9 sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.	Cynnydd wedi'i wneud yn gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9 sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.	Cynnydd wedi'i wneud yn gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9 sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.
<p>Dadansoddiad: Mae cynnydd arwyddocaol yn parhau i gael ei wneud i weithredu'r cynlluniau sydd wedi'u rhestru ym Mholisi SP9. Yn y cyswllt hwn, mae Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands wedi cael ei gweithredu ac wedi agor i draffig, ac mae gwaith wedi dechrau ar ail gam y cynllun hwn. Cafodd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin ei chwblhau a'i hagor i draffig ym mis Mawrth 2019.</p> <p>Nid oes bwriad i fesur y llwyddiant mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn o ran y Gwelliannau sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru, gan eu bod yn faterion y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, bydd y fframwaith yn parhau i fonitro eu cynnydd tuag at weithredu, yn enwedig gan ystyried yr amserlenni a ddynodir.</p>						
<p>Casgliad: Mae cynnydd wedi cael ei wneud gyda gweithredu'r cynlluniau sydd wedi'u rhestru ym Mholisi SP9 ac sydd oddi mewn i reolaeth yr Awdurdod Lleol.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Monitro cynnydd Gwelliannau Llywodraeth Cymru.</p>						

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

20 Targed Polisi Monitro: Gweithredu'r cynlluniau beicio a nodir ym Mholisi TR4

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynnydd tuag at weithredu'r cynlluniau beicio a nodir ym Mholisi TR4.	Gweithredu yn unol â'r amserlenni cyflenwi erbyn 2021.	Heb weithredu'r cynlluniau beicio wedi'i nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol sydd ar y gweill os nad oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn adolygu'r Cynllun am y tro cyntaf.				
<p>Dadansoddiad: Mae'r canlynol yn rhoi diweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â'r 3 chynllun beicio sydd wedi'u nodi ym Mholisi TR4:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyffryn Tywi – Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer adran orllewinol y llwybr beicio o Abergwili i Nantgaredig. Mae'r gwaith wedi dechrau. Mae cais cynllunio ar gyfer yr adran o Nantgaredig i Landeilo yn cael ei gynnig ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno'n fuan. • Llwybr Beicio Dyffryn Aman – Mae'r prif waith seilwaith wedi'i gwblhau gan fwyaf ac eithrio darn bach ym Mrynaman. Bydd yna waith parhaus mewn perthynas ag arwyddion, marchnata a brandio. • Hendy-gwyn ar Daf i Langlydwen – Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion wedi'u rhaglennu i fwrw ymlaen â'r llwybr hwn. 						
<p>Casgliad: Mae cynnydd wedi cael ei wneud gyda gweithredu'r cynlluniau sydd wedi'u rhestru ym Mholisi TR4.</p>						

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Parhau i fonitro'r gweithredu terfynol ar y ddau gynllun sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

Fel rhan o'r CDLI Diwygiedig, rhoddir ystyriaeth bellach i gynnwys a/neu ddarparu'r llwybr o Hendy-gwyn ar Daf i Langlydwen.

Mwynau

21 Targed Polisi Monitro: Cynnal banc tir agregau 10 mlynedd o leiaf ar gyfer creigiau caled

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Banc tir agregau ar gyfer Cyngor Sir Gâr.	Cynnal banc tir 10 mlynedd o leiaf ar gyfer creigiau caled.	Banc tir creigiau caled o lai na 10 mlynedd.	Mae banc tir creigiau caled Sir Gaerfyrddin yn 55 mlynedd ar hyn o bryd.	Mae banc tir creigiau caled Sir Gaerfyrddin yn 68 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd.	Bodlonwyd y targed: Mae banc tir creigiau caled Sir Gaerfyrddin yn 71 blynedd o leiaf ar hyn o bryd.	Bodlonwyd y targed: Mae banc tir creigiau caled Sir Gaerfyrddin yn 92 blynedd o leiaf ar hyn o bryd.

Dadansoddiad:

Mae banc tir yn stoc o ganiatadau cynllunio ar gyfer ennill a gweithio mwynau. Mae'n cynnwys yr holl gronfeydd a ganiateir ar safleoedd gweithredol ac anweithredol ar unrhyw adeg ar gyfer ardal benodol. At ddibenion sefydlogrwydd masnachol, mae'r diwydiant agregau'n gofyn am fanc tir sicr ac ymarferol. Dywed *MTAN 1: Agregau* ei bod yn ofynnol cynnal isafswm o 10 mlynedd o fanc tir o greigiau caled ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn nharged monitro'r CDLI.

Mae'r data gorau a diweddaraf y cytunwyd arnynt gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau a'r Awdurdod Cynllunio Mwynau Lleol yn dynodi mai'r banc tir creigiau mât cyfredol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw 92 o flynyddoedd gan ddefnyddio cyfartaledd data cynhyrchu'r 3 blynedd ddiwethaf a 97 o flynyddoedd gan ddefnyddio cyfartaledd data cynhyrchu'r 10 mlynedd ddiwethaf. Felly mae gan Sir Gaerfyrddin o leiaf 92 o flynyddoedd o gyflenwad o greigiau caled. Mae hyn yn llawer uwch na'r ffigur a ystyrir yn angenrheidiol yn y targed monitro.

Casgliad:

Mae'r data'n dynodi bod Targed y Polisi Monitro'n cael ei gyrraedd ac felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

22 Targed Polisi Monitro: Cynnal banc tir agregau 7 mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Banc tir agregau cyfunol ar gyfer Cyngor Sir Gâr gyda'r awdurdodau cyfagos, sef Cyngor Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion.	Cynnal banc tir 7 mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean.	Banc tir tywod a graean o lai na 7 mlynedd.	Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 18 mlynedd ar hyn o bryd.	Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 17 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd.	Bodlonwyd y targed: Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 14 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd.	Bodlonwyd y targed: Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 12 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd.

Dadansoddiad:

Dywed *MTAN 1: Agregau* ei bod yn ofynnol cynnal isafswm o 7 mlynedd o fanc tir tywod a graean ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn nharged monitro'r CDLI. Mae'r dosraniadau a'r dyraniadau ar gyfer tywod a graean ar y tir yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cyfuno â Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion.

Mae'r data gorau a diweddaraf y cytunwyd arnynt gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau a'r Awdurdod Cynllunio Mwynau Lleol ar gyfer y banc tir Tywod a Graean cyfun ar gyfer 31.12.2016. Mae'r banc tir cyfun yn 15 mlynedd yn seiliedig ar gyfartaledd cynhyrchu o 3 blynedd ac yn 12 mlynedd yn seiliedig ar gyfartaledd cynhyrchu o 10 mlynedd. Mae hyn yn uwch na'r ffigur a ystyrir yn angenrheidiol yn y targed monitro.

Casgliad:

Mae'r data'n dynodi bod Targed y Polisi Monitro'n cael ei gyrraedd ac felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach o ganlyniad i'r AMB hwn.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

23 Targed Polisi Monitro: Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio yn y clustogfeydd mwynau (ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru).

Dangosydd	Targed Monitro Blynnyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau parhaol sy'n sterileiddio a roddir mewn clustogfa fwynau.	Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP2.	5 datblygiad parhaol sy'n sterileiddio wedi'u caniatáu mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP2 dros 3 blynedd yn olynol.	Dim safle'n groes i bolisi MPP2.	Dim safle'n groes i bolisi MPP2.	Bodlonwyd y targed: Dim safle'n groes i bolisi MPP2.	Bodlonwyd y targed: Dim safle'n groes i bolisi MPP2.
Dadansoddiad:						
<p>Yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer AMB 4, rhoddwyd 5 caniatâd cynllunio ar dir a leolir o fewn clustogfeydd mwynau presennol, fel y'u nodir ar Gynlluniau Cynigion y CDLI. O blith y rhain ni farnwyd bod unrhyw ganiatâd a roddwyd yn ddatblygiadau 'parhaol, sy'n sterileiddio'. Roedd y datblygiadau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Estyniad domestig unllawr; • Dymchwel ystafell aml-bwrpas/penty a chwtsh glo presennol a gosod ystafell aml-bwrpas newydd yn eu lle; • Amrywio amodau caniatâd cynllunio sy'n gysylltiedig â chwareli gweithredol presennol; • Caniatâd cynllunio sy'n gysylltiedig â chwareli gweithredol presennol; • Newid ysgubor/adeiladau allanol yn llety gwyliau, gydag eiddo preswyl presennol wedi'u lleoli rhwng y cynnig a'r chwarel; 						
Casgliad:						
Nid oes angen gweithredu mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'r AMB hwn.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):						
Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.						

24 Targed Polisi Monitro: Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio mewn ardal diogelu mwynau (ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym Mholisi MPP3).

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau parhaol sy'n sterileiddio a roddir mewn ardal diogelu mwynau.	Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP3.	5 datblygiad parhaol sy'n sterileiddio wedi'u caniatáu mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP3 dros 3 blynedd yn olynol.	Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3.	Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3.	Bodlonwyd y targed: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3.	Bodlonwyd y targed: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3.

Dadansoddiad:

Er bod nifer o ddatblygiadau wedi cael caniatâd cynllunio mewn ardaloedd diogelu mwynau, ni thybid bod unrhyw rai o'r caniatadau'n ddatblygiadau 'parhaol sy'n sterileiddio' a fyddai'n atal yr adnodd rhag cael ei echdynnu yn y dyfodol (pe bai angen echdynnu'r adnodd a phe bai'n dderbyniol yn amgylcheddol gwneud hynny). Mae'r datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio mewn ardaloedd diogelu mwynau'n perthyn i'r categorïau cyffredinol canlynol:

- Datblygiadau dros dro (e.e. safleoedd carafanau teithiol/'glampio');
- Datblygiadau amaethyddol (e.e. adeiladau amaethyddol modern megis sguboriau dur);
- Datblygiad sy'n gysylltiedig â cheffylau (e.e. maes ymarfer ceffylau/arena);
- Newid defnydd adeiladau amaethyddol ar ffermydd presennol;
- Hysbysiadau blaenorol, lle nad oedd angen caniatâd cynllunio (telathrebu, coedwigaeth, amaethyddiaeth, dymchwel);
- Anheddau unigol o fewn pentrefannau neu glystyrau preswyl bach heb gyfyngiadau datblygu.
- Newidiadau / estyniadau neu newid defnydd i adeiladau presennol;
- Anheddau o fewn terfynau datblygu aneddiadau presennol;
- Datblygiadau ar dir o fewn 200m i ardaloedd preswyl;
- Achosion o ganiatâd sy'n gysylltiedig â safleoedd mwynau presennol.

Casgliad:

Nid oes angen gweithredu mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'r AMB hwn.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

25 Targed Polisi Monitro: Ystyried gorchmynion gwahardd ar safleoedd mwynau segur nad ydynt yn debygol o gael eu gweithio yn y dyfodol

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y gorchmynion gwahardd a gyhoeddir ar safleoedd segur.	Sicrhau y cyhoeddir gorchmynion gwahardd cyn pen 12 mis i'r safleoedd segur y bernir ei bod yn annhebygol y cânt eu gweithio eto yn y dyfodol (fel rhan o'r adolygiadblynyddol).	Yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn methu cyhoeddi gorchmynion gwahardd i safleoedd y bernir ei bod yn annhebygol y cânt eu gweithio eto yn y dyfodol.				
Dadansoddiad: Fel rhan o'r adolygiad blynyddol, mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau'n monitro safleoedd segur ac mae'r rhai a ystyrir fel rhai annhebygol o gael eu hailweithio yn y dyfodol yn cael gorchmynion gwahardd. Mae gan yr Awdurdod awdurdodiad Aelod Bwrdd Gweithredol i gyflwyno 5 Gorchmyn Gwahardd. Bellach, mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau wedi cael y wybodaeth oedd heb ddod i law, a rhagwelir y bydd y 5 Gorchmyn yn cael eu cyhoeddi yn 2019.						
Casgliad: Er nad yw Targed y Polisi Monitro wedi cael ei gyrraedd yn llym, credir fod yr ystyriaeth barhaus i safleoedd segur a'r awdurdodiad a roddwyd gan y Cyngor i gyflwyno Gorchmynion Gwahardd ar 5 safle [a disgwyl eu cyflwyno yn 2018] yn ddigonol. Nid oes angen unrhyw weithredu pellach ar wahân i barhau i fonitro.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i barhau i asesu safleoedd segur fel rhan o'r broses adolygu flynyddol a bwydo'r wybodaeth drwodd fel rhan o fonitro'r CDLI. Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.						

Ynni Adnewyddadwy

26 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu mwy o ynni yn y Sir o ffynonellau adnewyddadwy

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Y capasiti a ganiateir o ran prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy yn y sir (fesul MW).	Cynnydd blynyddol yn y capasiti a ganiateir o ran prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy dros gyfnod y Cynllun.	Monitro at ddibenion gwybodaeth.	Mae 45.79 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro.	Mae 17.306 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro.	Mae 3.55 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro.	Mae 0.69 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro.
<p>Dadansoddiad: (I'w ddiweddar)</p> <p>Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer cynlluniau sydd â photensial i gyfrannu cyfanswm o 0.69 MW o ynni adnewyddadwy yn y Sir. Dyma ostyngiad pellach yn swm yr ynni a ganiateir ers yr AMB diwethaf. Gellir ei rannu fel a ganlyn:</p> <p>Gwynt (1 cynllun): 0.1 MW Haul (2 gynllun): 0.385 MW Biomass (1 cynllun): 0.5 MW</p> <p>Mae nifer yr achosion o dderbyn a chaniatáu ceisiadau am ynni'r gwynt wedi gostwng unwaith eto; nid yw'r rhesymau am hyn yn hysbys ond mae'r gostyngiad yn y tariffau cyflenwi trydan yn debygol o fod yn ffactor bwysig.</p> <p>Mae Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn weithredol bellach ac mae'n cynnwys 28 tyrbîn a phob un yn mesur 145m o uchder gyda capasiti cynhyrchu o 57.4 MW. Cafwyd trafodaethau cynnar gyda datblygwyr ynghylch nifer o brosiectau ynni adnewyddadwy yn y sir ac mae'n bosibl bydd ceisiadau yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â nhw yn ystod blwyddyn nesaf y CDLI neu'r flwyddyn ganlynol.</p>						

Casgliad:

Mae nifer y caniatadau ynni adnewyddadwy, yn enwedig ar gyfer ynni gwynt, wedi gostwng ers yr AMB diwethaf. Nid oes unrhyw bryderon am lefel yr ynni adnewyddadwy a ganiateir.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y capasiti a ganiateir ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy'n cael ei fonitro yn yr AMBau yn y dyfodol. Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

27 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy Cyffredinol

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.		Heb gynhyrchu'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 9 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.				Mabwysiadwyd CCA
<p>Dadansoddiad: Yn dilyn dadansoddiad o'r mathau o geisiadau a dderbyniwyd ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy, credwyd y dylai'r CCA ynghylch Ynni Adnewyddadwy ganolbwyntio'n unig ar ddatblygiadau ynni'r gwynt ac ynni'r haul yn hytrach nag ynni adnewyddadwy cyffredinol.</p> <p>Dylid bod wedi paratoi'r CCA o fewn 9 mis i fabwysiadu'r Cynllun, fodd bynnag, wrth eu paratoi, credid y dylai'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd, a oedd ar fin cael ei chwblhau, fwydo i mewn i'r CCA. Mabwysiadwyd y CCA gan y Cyngor ar 12 Mehefin 2019.</p>						
<p>Casgliad: Mae'r CCA wedi cael ei fabwysiadu.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Nid oes angen camau ar hyn o bryd.</p>						

28 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol Interim /	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.		Heb gynhyrchu'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 5 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.				

Dadansoddiad:

Nid oes angen paratoi CCA perthnasol i Safle Rheoli Gwastraff Nantycaws oherwydd bod manylion mewn perthynas â thirlenwi a thrin gwastraff gweddilliol wedi cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Rheoli Gwastraff (WPMR) ar gyfer Rhanbarth De Orllewin Cymru (cyhoeddwyd WPMR 2016 yn hydref 2016). Roedd yr Adroddiad yn datgan y sefyllfa ranbarthol ynghylch tirlenwi a thrin gwastraff gweddilliol. Mae Nantycaws yn un o bedwar safle tirlenwi gweithredol yn Rhanbarth De Orllewin Cymru. Gyda'i gilydd mae ganddynt gapasiti lle gwag i ddal ati i weithredu ar y lefelau gwaddodi presennol am 15 mlynedd. Mae hyn yn uwch na'r trothwy sydd wedi'i ddatgan yn *TAN 21: Gwastraff*, lle byddai angen ystyried tirlenwi newydd ar gyfer y rhanbarth.

Nid yw'r Adroddiadau WPMR ar gyfer 2017, 2018 na 2019 wedi'u cyhoeddi eto ond mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu gostyngiad yng nghapasiti lle gwag y rhanbarth, er yn hollbwysig nid i lefel lle byddai angen ystyried safle tirlenwi newydd ar gyfer y rhanbarth. Yr hyn sy'n glir yw y bydd safle Nantycaws yn parhau i fod yn bwysig er mwyn rheoli gwastraff gweddilliol y rhanbarth yn y dyfodol. Yn ogystal â bod yn safle tirlenwi, mae gan Nantycaws gyfleuster compostio mewnol sy'n delio â gwastraff gerddi a bwyd gweddilliol a Chyfleuster Ailgylchu Deunyddiau ar gyfer y gwastraff ailgylchadwy a ddaw i'r safle. Yn ogystal, mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer safle treulio anaerobig nad yw eto wedi'i adeiladu (ond bydd ganddo'r potensial o dderbyn gwastraff bwyd gweddilliol).

Bydd dyfodol elfen tirlenwi Nantycaws yn cael ei fonitro yn rhan o'r Adroddiadau WPMR blynyddol a bydd y casgliadau yn cael eu nodi mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

Casgliad:

Bydd y gofynion posibl mewn perthynas â pharatoi CCA ar gyfer Nantycaws yn cael eu monitro a bydd y gwaith o'u cynhyrchu'n cael ei adolygu yn unol â hynny.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Monitro'n unol â hynny, gan roi ystyriaeth i'r wybodaeth a'r canllawiau a nodir yn yr Adroddiad WPMR sydd ar ddod ar gyfer Rhanbarth De-orllewin Cymru. Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Priodweddau Amgylcheddol – Yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol

29 Targed Polisi Monitro: Sicrhau o leiaf 100 o hectarau o gynefin addas i Fritheg y Gors yn ardal prosiect Caeau Mynydd Mawr yn ystod cyfnod y Cynllun

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Hectarau o gynefin addas a reolir.	Cynnydd parhaus o ran darparu cynefin addas a reolir.	Dim cynnydd mewn unrhyw flwyddyn benodol.	4.24 o hectarau ychwanegol o gynefin addas i löyn byw Britheg y Gors yn cael ei reoli o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr (roedd y ffigur hwn yn net o safleoedd dynodedig a reolir gan CNC).	6.56 o hectarau ychwanegol o gynefin addas i löyn byw Britheg y Gors yn cael ei reoli o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr (roedd y ffigur hwn yn net o safleoedd dynodedig a reolir gan CNC). O'u hystyried ochr yn ochr ag AMB 1, cyfanswm y cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 31/3/17 yw 10.8 o hectarau.	1.42 o hectarau ychwanegol o gynefin addas i löyn byw Britheg y Gors yn cael ei reoli o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr (roedd y ffigur hwn yn net o safleoedd dynodedig a reolir gan CNC). O'u hystyried ochr yn ochr ag AMB 1 a 2, cyfanswm y cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 31/3/18 yw 12.22 o hectarau.	0.21 o hectarau ychwanegol o gynefin addas i löyn byw Britheg y Gors yn cael ei reoli o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr (roedd y ffigur hwn yn net o safleoedd dynodedig a reolir gan CNC). O'u hystyried ochr yn ochr ag AMB 1, 2 a 3, cyfanswm y cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 31/3/19 yw 12.43 o hectarau.

Dadansoddiad:

Ar ddiwedd AMB 1, roedd 32.27 hectar o dir mewn cyflwr da ar gyfer Britheg y Gors yn cael ei reoli gan y prosiect ar 14 safle gwahanol. Yn ogystal, ar safleoedd dynodedig (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) roedd yna 42.86 hectar pellach o dir mewn cyflwr da, a oedd yn rhoi cyfanswm gros o 75.13 hectar. Ar ddiwedd cyfnod AMB 2, roedd y prosiect yn rheoli 22 safle a oedd gyda'i gilydd yn darparu 38.83 hectar o gynefin mewn cyflwr da neu addas ar gyfer Britheg y Gors. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli nifer o safleoedd dynodedig a oedd

yn darparu 41.95 hectar ychwanegol o gynefin. Roedd hyn yn rhoi cyfanswm gros o 80.78 hectar ar ddiwedd cyfnod AMB 2. Ar ddiwedd cyfnod AMB 3, roedd y prosiect yn rheoli 24 safle a oedd gyda'i gilydd yn darparu 40.25 hectar o gynefin mewn cyflwr da neu addas ar gyfer Britheg y Gors. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli nifer o safleoedd dynodedig sy'n darparu 37.96 hectar ychwanegol o gynefin. Roedd hyn yn rhoi 78.21 hectar ar ddiwedd AMB 3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli ychydig llai o dir nag yn ystod cyfnod AMB 2, gan fod ardal fach yr oeddent yn ei rheoli wedi gael ei thynnu yn ôl o gytundeb rheoli, ac er fod peth o'r tir hwn bellach yn cael ei reoli gan y prosiect nid yw'r holl dir hwn wedi cael ei drosglwyddo.

Ar ddiwedd cyfnod AMB 4, mae'r prosiect yn rheoli 24 o safleoedd sy'n darparu 40.46 hectar o gynefin sydd mewn cyflwr addas ar gyfer Britheg y Gors. Mae'r prosiect yn parhau i sicrhau pori priodol ar y tir mewn cytundebau rheoli, gan gynorthwyo perchnogion tir yn aml i ddod o hyd i anifeiliaid pori addas. Hefyd, mae wedi bod yn defnyddio cynllun grantiau bach Glastir, pan fo'n bosibl, i reoli perthi. Gwnaed cynnydd sylweddol o ran adolygu'r CCA a'u helfennau tystiolaethol yn ystod cyfnod AMB 4.

Mae'r prosiect hwn yn gynnyrch trefniant partneriaeth a gaiff ei oruchwylio gan Grŵp Llywio. Caiff Swyddog Cadwraeth Prosiect ymrwymedig ei gyflogi i weithredu'r prosiect. Yn ystod y flwyddyn enillodd y prosiect wobwr TIC a chafodd y prosiect Ganmoliaeth Uchel gan RTPI Cymru. Cadarnhawyd yn gynnar yn ystod cyfnod AMB 4 bod y prosiect yn fuddugol yn ei gategori yng ngwobrau RTPI y DU 2018.

Casgliad:

Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr AMB hwn. Cyfeirir at gynnwys y CCA sydd ar gael yn awr drwy gyfrwng y ddolen isod:
http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/residents/planning/policies-development-plans/supplementary-planning-guidance/#.WQG_vcuQyUk

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Parhau i fonitro ac adrodd yn ôl yn AMB y dyfodol. Cwblhau'r adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth wrth symud i AMB 5, gan gynnwys adolygu'r fframwaith cyfiawnhau talu a diffinio Ardal y CCA.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

30 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir sy'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Natura 2000.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC.	1 caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB.
Dadansoddiad:						
Cyfeirir at barhau i ddarparu prosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr sy'n seiliedig ar Bolisi EQ7 y CDLI a'r CCA. Mae hyn wedi caniatáu i'r datblygu barhau gan gadw at ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Cyfeirir at darged 29 uchod.						
Mewn perthynas ag ACA Bae Caerfyrddin/Cilfach Tywyn, cyfeirir at y dull amlasiantaeth parhaus o weithredu (gan gynnwys Dŵr Cymru Welsh Water, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Gâr) sy'n seiliedig ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth. Mae hyn wedi caniatáu i'r datblygu barhau gan gadw at ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Gwnaed cynnydd mewn perthynas ag adolygu'r Memorandwm o Ddealltwriaeth hwn yn ystod cyfnod yr AMB hwn gan edrych ymlaen at y CDLI Diwygiedig.						
Mae'r cofnodion yn dangos na chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i gyngor CNC.						
Casgliad:						
Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):						
Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.						

31 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n effeithio ar gyfanrwydd safle cadwraeth natur dynodedig

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir a allai gael effaith andwyol ar nodweddion safle cadwraeth natur gwarchoddedig.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	1 caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.
<p>Dadansoddiad: Mae'r cofnodion yn dangos na chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i gyngor CNC neu Ecolegydd y Sir.</p> <p>Mae cynllunwyr yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau ecolegydd proffesiynol penodol. Mae hyn yn parhau i brofi'n amhrisiadwy o ran cynorthwyo gyda phenderfynu ar geisiadau cynllunio a ffurfio fframweithiau polisiâu cynllunio.</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Parhau i fonitro ac adrodd yn ôl yn AMBau y dyfodol.</p> <p>Bydd yr Awdurdod yn monitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Hefyd bydd yr Awdurdod yn monitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor. Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.</p>						

32 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n cael effaith andwyol ar statws cadwraethol ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, neu'n achosi niwed sylweddol i rywogaethau a warchodir gan statudau eraill

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir sy'n cael effaith andwyol ar statws cadwraethol ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, neu'n achosi niwed sylweddol i rywogaethau a warchodir gan statudau eraill.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	1 caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd y Cyngor.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd y Cyngor.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd y Cyngor.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd y Cyngor.
<p>Dadansoddiad: Mae'r cofnodion yn dangos na chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i gyngor CNC neu Ecolegydd y Sir.</p> <p>Mae cynllunwyr yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau ecolegydd proffesiynol penodol. Mae hyn yn parhau i brofi'n amhrisiadwy o ran cynorthwyo gyda phenderfynu ar geisiadau cynllunio a ffurfio fframweithiau polisiâu cynllunio.</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd yr Awdurdod yn monitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru).</p>						

Bydd yr Awdurdod hefyd yn monitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

33 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n cael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol Interim /	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir a allai gael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu swyddog tirweddau'r awdurdod.	5 caniatâd cynllunio wedi'u dyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC neu swyddog tirweddau'r awdurdod dros gyfnod o 3 blynedd yn olynol.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor.

Dadansoddiad:

Mae adolygiad lefel uchel cychwynnol o'r ceisiadau cymeradwy a gynhyrchwyd ar 'haen cyfyngiadau' yr Ardal Tirwedd Arbennig yn dangos na chafodd unrhyw geisiadau eu cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor

Mae'r swyddogion yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau Swyddog Tirweddau proffesiynol penodol, sy'n adnodd amhrisiadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a llunio polisiau cynllunio.

Casgliad:

Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd yr Awdurdod yn monitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Hefyd bydd yr Awdurdod yn monitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

34 Targed Polisi Monitro: Nid yw cynigion datblygu'n cael effaith andwyol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol a'u lleoliad

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Achlysuron pan fyddai datblygu a ganiateir yn cael effaith andwyol ar Adeilad Rhestredig; Ardal Gadwraeth; Safle/Ardal o Arwyddocâd Archeolegol; neu Dirwedd, Parc a Gardd Hanesyddol neu eu lleoliad.	Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo lle ceir gwrthwynebiad heb ei ddatrys gan Swyddog Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed.	5 caniatâd cynllunio wedi'u dyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol lle ceir gwrthwynebiad heb ei ddatrys gan Swyddog Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed dros gyfnod o 3 blynedd yn olynol.	Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr AMB cyntaf.	Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB.	Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod y trydydd AMB.	Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod y pedwerydd AMB.

Dadansoddiad:

Dyma'r bedwaredd flwyddyn o fonitro. Dylid nodi nad yw adolygiad o'r ceisiadau cymeradwy a gynhyrchwyd gan ddefnyddio'r 'haenau cyfyngiadau' canlynol yn dynodi unrhyw bryder arwyddocaol mewn perthynas â'r targed hwn:

- Ardaloedd Cadwraeth
- Parciau a Gerddi Hanesyddol
- Adeiladau Rhestredig
- Henebion Rhestredig.

Mae Adain Rheoli Datblygu'r Cyngor yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau Swyddog Cadwraeth Adeiledig proffesiynol. Mae hyn yn parhau i fod yn amhrisiadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a ffurfio polisiau cynllunio.

Casgliad:

Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Hefyd bydd yr Awdurdod yn monitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor.

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus.

35 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dirweddau a Chanllaw Dylunio Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 7 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.

Dadansoddiad:

Cafodd y CCA ar Greu a Dylunio Lleoedd ei fabwysiadu ym mis Medi 2016 ac mae'n ceisio arwain a hybu dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel i sicrhau datblygiadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu cymeriad a gofynion Sir Gaerfyrddin. Dylid nodi bod y CCA hwn yn ymgorffori materion perthnasol i Ddylunio Tirwedd a Thirwedd Arbennig.

Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213904/adopted-placemaking-design-spg-report.pdf>

Casgliad:

Y targed wedi'i gyrraedd.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Amherthnasol.

36 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Archeoleg

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 7 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.
<p>Dadansoddiad: Cafodd y CCA ar Archaeoleg a Datblygiad ei fabwysiadu ym mis Medi 2016. Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3719/archaeology-draft-spg.pdf</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Amherthnasol.</p>						

37 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth (gan gynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur)

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun (i'w fonitro'n rheolaidd wrth aros dynodiadau parhaus).	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.
<p>Dadansoddiad: Cafodd y CCA ei fabwysiadu ym mis Medi 2016 ac mae ar gael i'w weld drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3723/nat-env-and-biodiversity-draft-spg.pdf</p> <p>Cyfeirir at yr hyfforddiant parhaus a ddarperir gan yr Ecolegydd mewnol gyda'r nod o wella dealltwriaeth o gynnwys y CCA yn ymarferol. Roedd hyn hefyd yn cydnabod darpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn galluogi archwilio goblygiadau a chyfleoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Amherthnasol.</p>						

38 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 5 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.
<p>Dadansoddiad: Cafodd y CCA ar Greu a Dylunio Lleoedd ei fabwysiadu ym mis Medi 2016 ac mae'n ceisio arwain a hybu dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel i sicrhau datblygiadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu cymeriad a gofynion Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael i'w weld drwy ddilyn y ddolen isod: https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213904/adopted-placemaking-design-spg-report.pdf</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Amherthnasol.</p>						

39 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 15 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.
<p>Dadansoddiad: Bydd y gofyniad i baratoi a chyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.</p>						
<p>Casgliad: Bydd y posibilrwydd o baratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig yn golygu bod modd rhoi ystyriaeth bellach iddo, yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol ac i sicrhau cysondeb ag unrhyw bolisiau sy'n datblygu mewn perthynas â'r CDLI.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Rhoi ystyriaeth i hyn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.</p>						

40 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Goed, Tirweddu a Datblygu

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Goed, Tirweddu a Datblygu.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 15 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu	Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu
Dadansoddiad: Bydd y gofyniad i baratoi a chyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.						
Casgliad: Bydd y posibilrwydd o baratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig yn golygu bod modd rhoi ystyriaeth bellach iddo, yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol ac i sicrhau cysondeb ag unrhyw bolisiau sy'n datblygu mewn perthynas â'r CDLI.						
Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Rhoi ystyriaeth i hyn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.						

Cyfleusterau Hamdden a Chymunedol

41 Targed Polisi Monitro: Darparu cyfleusterau cymunedol newydd a chadw a gwella'r cyfleusterau cymunedol presennol

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
<p>Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol newydd.</p> <p>Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at gollu cyfleuster cymunedol.</p>	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisiâu SP16 a RT8.	1 cais wedi'i gymeradwyo yn groes i Bolisiâu SP16 a RT8.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisiâu SP16 a RT8.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisiâu SP16 a RT8.	1 cais wedi'i gymeradwyo yn groes i RT8; fodd bynnag, gweler y dadansoddiad isod.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisiâu SP16 a RT8.
<p>Dadansoddiad: Mae adolygiad o'r hysbysiadau penderfyniadau cynllunio (rhesymau dros gymeradwyo) yn dynodi nad oes unrhyw geisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau polisiâu SP16 ac RT8 y CDLI.</p>						
<p>Casgliad: Targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.</p>						

42 Targed Polisi Monitro: Gwrthsefyll colli mannau agored yn unol â darpariaethau Polisi REC1

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Maint y mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau (hectarau).	Ni ddylid colli unrhyw fan agored i ddatblygiad ac eithrio lle bo hynny'n unol â Pholisi REC1.	Collwyd man agored i ddatblygiad yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1 sy'n arwain at golled net yn y mannau agored.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1.	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1.
<p>Dadansoddiad: Mae adolygiad o'r cymeradwyaethau cynllunio yn erbyn yr 'haen cyfyngiadau' bresennol ar gyfer gofod agored yn dynodi nad oes unrhyw geisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau polisi REC 1 y CDLI.</p> <p>Mae'r ceisiadau hynny a gymeradwywyd ar yr haen yn cynnwys darparu cyfleusterau newydd / gwell ledled y Sir.</p> <p>Mewn perthynas â'r sylfaen dystiolaeth, dylid nodi bod Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi dechrau yn ystod cyfnod yr AMB hwn sy'n cynnwys adolygiad o ddarpariaeth bresennol seilwaith gwyrdd mewn aneddiadau mwy yn y Sir. Drwy gydweithio â chydweithwyr mewn adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, bydd rhagor o dystiolaeth, megis adolygiad o fannau agored, yn cael ei chasglu i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio yn ei dro i helpu i asesu ceisiadau cynllunio yn y dyfodol a allai gael effaith ar ddarpariaeth mannau gwyrdd yn Sir Gaerfyrddin.</p>						
<p>Casgliad: Targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Parhau i fonitro ac adrodd yn ôl yn AMB y dyfodol.</p> <p>Cwblhau'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd ac astudiaethau ategol, megis adolygiad o ddarpariaeth mannau agored, er mwyn llywio'r adolygiad o'r CDLI a cheisiadau cynllunio yn y dyfodol.</p>						

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

43 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ofynion Mannau Agored ar gyfer Datblygiadau Newydd

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.		Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 15 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.	Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.
<p>Dadansoddiad: Cafodd y CCA ei fabwysiadu ym mis Medi 2016.</p> <p>Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael i'w weld drwy ddilyn y ddolen isod: https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213721/adopted-leisure-open-space-requirements-for-new-developments-sep-2016.pdf</p>						
<p>Casgliad: Y targed wedi'i gyrraedd.</p>						
<p>Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid): Amherthnasol.</p>						

Yr Iaith Gymraeg

44 Targed Polisi Monitro: Datblygiadau preswyl fesul cam mewn ardaloedd lle mae 60% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg

Dangosydd	Targed Monitro Blynyddol / Interim	Sbardun asesu	Perfformiad 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	Perfformiad 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018	Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019
Caniatadau cynllunio yn cael eu dyfarnu ar gyfer datblygiadau preswyl o bum annedd neu ragor mewn Cymunedau Cynaliadwy a chaniatadau cynllunio yn cael eu dyfarnu ar gyfer datblygiadau preswyl o ddeg annedd neu ragor mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau a Gwasanaethau Lleol.	Yr holl ganiatadau cynllunio a roddir ar gyfer datblygiadau preswyl o bum annedd neu ragor mewn Cymunedau Cynaliadwy a'r caniatadau cynllunio a roddir ar gyfer datblygiadau preswyl o ddeg annedd neu ragor mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol i gynnwys gofyniad i ddatblygu fesul cam, yn unol â'r polisi ar yr iaith Gymraeg a'r canllawiau a geir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg.	Un caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu ar gyfer datblygiad preswyl o bum annedd neu ragor mewn Cymuned Gynaliadwy neu un caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu ar gyfer datblygiad preswyl o ddeg annedd neu ragor mewn Ardal Dwf, Canolfan Gwasanaethau neu Ganolfan Gwasanaethau Lleol heb gynnwys gofyniad i ddatblygu fesul cam, yn unol â pholisi'r CDLI ar yr iaith Gymraeg a'r canllawiau a geir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg.	Dim caniatadau cynllunio yn groes i Bolisi SP18 o'r CDLI.	Dim caniatadau cynllunio yn groes i Bolisi SP18 o'r CDLI.		Dim caniatadau wedi'u dyfarnu'n groes i Bolisi SP18 o'r CDLI.
Dadansoddiad: Daw rhestr o gymunedau lle mae 60% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg allan o ddata Cyfrifiad 2011: Gors-las, Llannon, Pencarreg, Pontyberem a Cwarter Bach. Caiff yr ardaloedd hyn eu dynodi ar y Map Mewnsoed o'r CDLI.						

Mae adolygiad o'r ceisiadau a gymeradwywyd yn y 5 cymuned hyn (ffynhonnell: JHLAS) yn nodi na chafodd unrhyw safleoedd ganiatâd cynllunio amlinellol sy'n berthnasol i'r polisi ac sy'n fwy na'r trothwyau a nodir ym Mholisi SP18 (5 neu fwy mewn Cymunedau Cynaliadwy a 10 neu fwy mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaeth a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol).

Roedd un cais perthnasol a gafodd ganiatâd Materion a Gadwyd yn Ôl, fodd bynnag, byddai camau'r datblygiad yn fater i'w ystyried yng ngham y cais amlinellol; cafodd y caniatâd Amlinellol sy'n ymwneud â'r datblygiad hwn ei roi cyn mabwysiadu'r CDLI.

Casgliad:

Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn groes i Bolisi SP18 y CDLI.

Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes rhaid):

Bydd y dangosydd uchod yn cael ei fonitro'n barhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

Pennod 4

Arfarniad Cynaliadwyedd / Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol

Methodoleg

4.1 Mae monitro amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd-AAS yn gallu bod yn sail i'r gwaith o adolygu perfformiad y CDLI drwyddo draw. Ni chredir y dylai proses fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd-AAS gael ei rhoi ar waith ar wahân yn llwyr i'r monitro ar y Cynllun. Dylai helpu i lunio darlun cyflawn o gyflwr y Sir o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol, gyda sylwebaeth yn y golofn olaf.

4.2 Er nad oes un o'r dangosyddion wedi cael ei ddileu, dylid nodi bod y golofn sylwebaeth yn ei gwneud yn glir lle nad oes gwybodaeth ar gael a/neu fod gwybodaeth berthnasol. Mewn rhai achosion nid oes gwybodaeth ar gael (neu'n berthnasol) mwyach; mewn achosion eraill nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl i alluogi'r monitro i fod yn ddefnyddiol.

4.3 Dylid nodi bod nifer o ddangosyddion Arfarniad Cynaliadwyedd lle na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rheiny sydd wedi'u seilio ar y cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, felly nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen, o safbwynt monitro yn y dyfodol.

4.4 Dylid nodi hefyd y penderfynwyd peidio â defnyddio'r system goleuadau traffig a ddefnyddir gyda Dangosyddion Monitro'r CDLI wrth Fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae hyn yn adlewyrchu mai amcanion i ymgynraedd atynt yw llawer o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd ac, i ryw raddau, gwybodaeth i'w monitro o fewn senario 'byd delfrydol' ydyw. Hefyd, nid y CDLI yw'r unig ffactor y byddai angen ei ystyried er mwyn cyflawni eu hamcanion. Nid yw'r Monitro ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys targedau fel y cyfryw, yn wahanol i'r monitro ar y CDLI, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwebaeth yn sgôr goleuadau traffig.

4.5 Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn fframwaith monitro'r Arfarniad

Cynaliadwyedd yn ymwneud yn bennaf ag amrywiaeth eang o ddata sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol, gan wahanol adrannau o'r Cyngor, ac yn allanol gan sefydliadau eraill. Mae'r golofn data'n dangos o ble y daeth y data ac er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr 'hyperddolenni' yn fyw, ni all y Cyngor fod yn gyfrifol am gynnwys safleoedd allanol.

4.6 Dylid nodi hefyd bod yr Awdurdod (drwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) wedi bod yn casglu gwybodaeth gyda'r bwriad o ddatblygu Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Cyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Mae Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2017 ar gael ar wefan y Cyngor <http://www.ysirgaragarem.cymru/>. Manteisiwyd ar gyfleoedd i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes Polisi Corfforaethol gyda'r bwriad o ddatblygu adolygiad integredig o'r llinell sylfaen gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd uniongyrchol i sicrhau gwybodaeth ddiriaethol ar gyfer monitro Arfarniad Cynaliadwyedd-AAS yn y dyfodol drwy gyfrwng proses yr AMB.

Maes AoG	Amcanion AoG	Dangosyddion Llinell Sylfaen	Dangosyddion Ychwanegol i Fonitro Risgiau a Chyfleoedd Sylweddol	Data	Sylwebaeth ar y Dangosyddion Llinell Sylfaen : AMB 1.
1 – Datblygu Cynaliadwy	<p>1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol</p> <p>1-2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn</p> <p>1-3 Gwireddu economi gynaliadwy</p> <p>1-4 Cael gwared â rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad</p>	<p>(a) Ôl-troed ecolegol Sir Gâr yn ôl unedau arwynebedd y person</p> <p>(b) Gwireddu'r deg prif ymrwymiad a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy LICC a Chymru'n Un</p> <p>(c) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen</p> <p>(d) Y ganran o boblogaeth Sir Gâr mewn cartrefi incwm isel</p>	<p>(Gweler y meysydd eraill)</p>	<p>http://gov.wales/topics/environment/countryside/climatechange/publications/ecological-footprint-of-wales-report/?skip=1&lang=cy</p> <p>Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Sir Gaerfyrddin (Testun wedi'i ddarparu gan yr Is-adran Polisi Corfforaethol)</p> <p>CACI Paycheck 2015 (Darparwyd gwybodaeth gan Is-adran Polisi Corfforaethol Sir Gaerfyrddin)</p>	<p>(a) Amcangyfrif newydd o ôl-troed ecolegol a charbon Cymru ar gyfer 2011, yn adeiladu ar astudiaethau blaenorol. 3.36 yw gha/c Sir Gâr a 3.28 yw cyfartaledd Cymru.</p> <p>(b) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(c) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r mesur safonol o werth ariannol gweithgaredd economaidd i ardaloedd lleol neu ddiwydiannau unigol. Mae'n anodd mesur ar lefel leol: caiff ystadegau swyddogol eu cyhoeddi am Dde-orllewin Cymru (yn cyfuno Sir Benfro gyda Cheredigion a Sir Gaerfyrddin). Cyfrannodd yr ardal hon £6.0bn GYG i'r economi yn 2014, 10% yn fras o gyfanswm Cymru a oedd yn £54.3bn. Roedd y GYG fesul pen o'r boblogaeth yn 2013 yn £15,750; sy'n is nag i Gymru gyfan (£17,573) a'r Deyrnas Unedig (£24,958).</p> <p>(d) Mae 36% o'r cartrefi yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru (incwm 60% islaw Incwm Cartrefi Canolrif Prydain Fawr)</p>
2 - Bioamrywiaeth	<p>2-1 Osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig ac annog eu gwella</p> <p>2-2 Amddiffyn, gwella a chreu cynefinoedd priodol i fywyd</p>	<p>(a) Statws rhywogaeth â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP)</p> <p>(b) Statws cynefinoedd BAP â blaenoriaeth</p> <p>(c) % y cynefinoedd a'r rhywogaethau BAP sy'n sefydlog neu'n cynyddu</p> <p>(d) Llwyddiant yn erbyn targedau BAP cenedlaethol a lleol</p>	<p>Nifer y cynlluniau datblygu sy'n cynnwys ardaloedd bioamrywiaeth trefol</p> <p>Nifer y datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar safleoedd dynodedig</p> <p>Nifer y datblygiadau ar safleoedd dynodedig</p> <p>Y gyfran o gynefinoedd newydd a grëir gan y CDLI</p>		<p>(a,b,c,d) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>Nodir anghenion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar gyrff cyhoeddus ynglŷn â chynnydd Bioamrywiaeth ac ystyrir hyn mhellach o fewn adran gyd-destunol yr AMB yma.</p> <p>(e) Mewn perthynas â pharciau trefol, mae'r CDLI yn nodi dynodiadau hamdden sydd wedi'u cynnig a chyfeirir at y fframwaith Polisi yn y cyswllt hwn. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>

	<p>gwyllt a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig</p>	<p>(e) Arwynebedd o barciau a mannau gwyredd trefol a ddarperir gan y CDLI</p> <p>(f) % y safleoedd ACA, AGA a SoDdGA a'u nodweddion sydd mewn cyflwr ffafrio</p> <p>(g) Statws rhywogaethau a chynefinoedd yn ôl Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 1996</p> <p>(h) Nifer y Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur dynodedig</p> <p>(i) Y ganran o'r tir a reolir fel ardaloedd dal a storio carbon (e.e. rheoli mawndiroedd a choetiroedd)</p>	<p>Cyfran y datblygu ar safleoedd tir glas</p> <p>Cyfran y datblygu ar safleoedd tir llwyd</p> <p>Y gyfran o ddatblygiadau newydd ar goridorau bywyd gwyllt</p>	<p>http://lle.gov.wales/catalogue/item/ProtectedSitesSitesOfSpecialScientificInterest/?lang=cy</p> <p>http://lle.gov.wales/catalogue/item/ProtectedSitesSpecialAreasOfConservation/?lang=cy</p> <p>http://lle.gov.wales/catalogue/item/ProtectedSitesSpecialProtectionAreas/?lang=cy</p>	<p>(f) Mae'r dolenni a ddangosir yn y golofn nesaf yn darparu arfarniad tra chynhwysfawr a chaiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. Bernir bod 29% o'r nodweddion yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Sir Gaerfyrddin mewn cyflwr ffafriol, sydd yn gynydd o'r 18% yn yr asesiad gwaelodlin. Ystyrid bod 86% o'r nodweddion Ardal Gwarchodaeth Arbennig hefyd mewn cyflwr ffafriol.</p> <p>(g) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(h) Nid oes Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur wedi'u dynodi yn ardal y Cynllun ar hyn o bryd. Gwneir darpariaeth ar gyfer dynodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth. Caiff hyn ei fonitro wrth i'r gwaith o weithredu'r Cynllun fynd rhagddo a chaiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun..</p> <p>(i) Nid yw'r wybodaeth ar gael yn flynyddol. Mae'r CDLI yn cydnabod ffocws Polisi Cynllunio Cymru o ran y potensial i annog defnyddiau tir ac arferion rheoli tir sy'n helpu i sicrhau a gwarchod dalfeydd carbon. Cyfeirir at bolisi Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a'r polisiâu perthnasol i amddiffyn yr amgylchedd yn y CDLI mabwysiedig. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">3 – Ansawdd Aer</p>	<p>3-1 Cynnal/gostwng lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU</p> <p>3-2 Gostwng lefelau oson ar lefel y ddaear</p> <p>3-3 Lleihau'r angen i deithio, drwy leoli datblygiadau newydd yn</p>	<p>(a) Nifer a maint yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yn Sir Gaerfyrddin</p> <p>(b) Monitro ansawdd aer yn Llandeilo (monitro AQMA o bosibl yn y dyfodol)</p> <p>(c) Lefelau llygryddion aer allweddol y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (NAEI) (e.e. Bensen, 1,3-Biwtdien, Plwm, NO₂, PM10, SO₂)</p> <p>(d) Ardal o gynefinoedd sensitif uwchlaw'r llwythi critigol o ran asideiddio ac</p>	<p>Nifer y datblygiadau o fewn 1 km i gyffyrdd traffyrdd / cefnfyrd</p> <p>Nifer y datblygiadau wedi'u lleoli fel bod llai o angen teithio (yn agos at wasanaethau a chyfleusterau)</p> <p>Nifer y datblygiadau sydd â llwybrau bws, trên neu gludiant cyhoeddus arall o safon uchel rhwng aneddiadau</p>	<p>Adran Iechyd yr Amgylchedd – Cyngor Sir Gaerfyrddin</p> <p>http://lle.gov.wales/catalogue/item/LandmapVisualSensory/?lang=cy</p>	<p>(a) Erbyn hyn mae tair AQMA ar wahân, sef; Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Caiff y sefyllfa ddiweddaraf hon ei hadlewyrchu yn yr adolygiad o'r Cynllun ac mae cyswllt rheolaidd ag Adran Iechyd yr Amgylchedd yn y cyd-destun hwn.</p> <p>(b) Dros y 12 mis diwethaf cafwyd 4 achos lle'r oedd y lefelau NO₂ yn uwch na'r hyn a bennwyd ar gyfer Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo. Oherwydd y gwyntoedd cryfion roedd y gwasgariad aer yn uchel dros gyfnod y gaef, a heblaw am hynny efallai y byddai yna fwy o achosion o'r fath.</p> <p>(c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(d) Ceir lefel uchel o arfarnu drwy'r dolenni yn y golofn nesaf a bydd unrhyw oblygiadau yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>

	<p>brïodol a darparu seilwaith cludiant cyhoeddus</p>	<p>ewtroffigedd wedi'ui mesur fel (i) asidedd a (ii) nitrogen maethol</p> <p>(e) Lefelau oson ar lefel y ddaear</p>	<p>Nifer y datblygiadau mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael</p> <p>Nifer y datblygiadau sy'n debygol o gyfrannu at lefelau uwch o lygyddion ansawdd aer cenedlaethol y DU (ar wahân i drafndiaeth)</p>	<p>http://lle.gov.wales/catalogue/item/LandmapLandscapeHabitats/?lang=cy</p> <p>- http://www.rotap.ceh.ac.uk/</p>	<p>(e) Ceir lefel uchel o arfarnu drwy'r dolenni yn y golofn nesaf a bydd unrhyw oblygiadau yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>
4 – Ffactorau Hinsoddol	<p>4-1 Lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr</p> <p>4-2 Gwneud Sir Gâr yn gryfach i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy wneud lle i ddŵr, encilio arfordirol a phatrymau dosbarthiad cynefinoedd sy'n newid</p> <p>4-3 Annog pob datblygiad newydd i fod â'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd</p> <p>4-4 Annog cadwraeth ynni a gwell</p>	<p>(a) Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol (yn ôl sector)</p> <p>(b) Defnydd ynni domestig Sir Gâr</p> <p>(c) Y gyfran o gerbydau yn y sir sy'n defnyddio tanwydd amgen</p> <p>(d) Y ganran o gwmnïau sydd â Safon Lefel 5 System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd</p> <p>(e) Y gyfran o'r rhwydwaith trafndiaeth a all ymdopi â'r cynnydd disgwylidig mewn tymheredd yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd</p> <p>(f) Nifer y safleoedd sy'n cael eu defnyddio i helpu i liniaru ac ymaddasu i effaith yr hinsawdd, e.e. amddiffynfeydd meddal rhag llifogydd</p> <p>(g) Nifer y cartrefi sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer microgynhyrchu</p> <p>(h) Cartrefi sy'n sefydlu microgynlluniau adnewyddadwy</p>	<p>Nifer y datblygiadau sy'n parchu cynefinoedd naturiol a choridorau gwyrdd presennol</p> <p>Nifer y ceisiadau cynllunio am ficrogynlluniau adnewyddadwy a'r nifer sy'n cael eu gosod</p> <p>Sgôr SAP cyfartalog tai</p> <p>Nifer y prosiectau lleihau carbon wedi'u seilio mewn trefi/cymunedau</p> <p>Nifer y megawatiau gosodedig o gapasiti ynni adnewyddadwy yn Sir Gâr</p> <p>Nifer y tyrbinau gwynt % y datblygiadau â Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)</p> <p>Canran y stoc dai sy'n cyrraedd safonau CFSH a BREEAM penodol</p> <p>Canran y swyddfeydd, adeiladau adwerthu a</p>	<p>Defnydd nwy a thrydan domestig awdurdodau lleol ar gyfartaledd fesul defnyddiwr -</p> <p>http://gov.wales/docs/statistics/2015/150225-energy-generation-consumption-2013-en.pdf</p> <p>http://gov.wales/topics/environme/ntcountryside/energy/renewable/ow-carbon-baseline-survey/?skip=1&lang=cy</p>	<p>(a) Mae data ar gael hyd at 2016 yn unig. Gwelwyd cwmp o 5.0% mewn allyriadau carbon yn y sector domestig rhwng 2015 a 2016; fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 2.0% ac 1.2% mewn diwydiant a'r sector masnachol a thrafnidiaeth yn y drefn honno. Arweiniodd hyn at gynnydd cyffredinol mewn allyriadau CO2 yn Sir Gaerfyrddin o 1.5% i 1162.3 ktCO2.</p> <p>(b) Mae Defnydd Ynni Domestig Sir Gâr 2013 o ran Nwy yn 13,119 a Thrydan yn 3,815. 13,029 a 3,736 y naill a'r llall yw cyfartaledd Cymru.</p> <p>(c,d,e,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(g) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. (PD yw paneli solar yn y mwyafrif o achosion)</p> <p>(h,i) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(j) Mae'r adroddiad yn dangos ynni carbon isel yng Nghymru fesul awdurdod lleol. Nodir 3,856 o brosiectau yn Sir Gâr o gyfanswm o 51,503 drwy'r wlad. Mae gan Sir Gâr 3,856 o brosiectau cynhyrchu carbon isel sy'n harneisio ynni'r haul, y gwynt a ffynonellau adnewyddadwy eraill i gynhyrchu tua 328GWh o ynni gwyrdd.</p>

	<p>effeithlonrwydd ynni</p> <p>4-5 Defnyddio llai o ynni a hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy</p>	<p>(i) Sgôr ynni cyfartalog tai o dan y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP)</p> <p>(j) Nifer y prosiectau lleihau carbon wedi'u seilio mewn trefi/cymunedau</p>	<p>diwydiannol sy'n cyrraedd safonau BREEAM</p> <p>Nifer y datblygiadau newydd a godir i fod yn niwtral o ran carbon</p>		
5 – Dŵr	<p>5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn gwella a sicrhau y gwneir yn fawr o gyflwr hydromorffolegol dyfroedd</p> <p>5-2 Amddiffyn a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael i'r amgylchedd bob adeg o'r flwyddyn</p> <p>5-3 Lleihau i'r eithaf y llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig</p>	<p>(a) Nifer y digwyddiadau lle mae cartrefi dan ddŵr llif o ffynonellau arfordirol, afonol a draeniau</p> <p>(b) Y ganran o ddarnau o afonydd sydd o ansawdd cemegol neu fiolegol da</p> <p>(c) Y ganran o ddyfroedd sydd wedi'u hadfer i Statws Ecolegol Da</p> <p>(d) Nifer y digwyddiadau llygredd dŵr sydd wedi'u cadarnhau</p> <p>(e) Y ganran o ddatblygiadau yn Sir Gâr sydd â Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)</p> <p>(f) Nifer y tai sydd â mesurydd dŵr</p> <p>(g) Ardal lle tynnir dŵr o ddyfroedd wyneb ar lefel anghynaliadwy</p> <p>(h) Ardal lle tynnir dŵr o ddŵr daear ar lefel anghynaliadwy</p> <p>(i) Y gyfran o'r rhwydwaith trafniadaeth sy'n cael ei hamddiffyn rhag perygl llifogydd yn y dyfodol</p>	<p>Y ganran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar orlfdiroedd</p> <p>Nifer y datblygiadau a godir yn groes i gyngor Asiantaeth yr Amgylchedd</p> <p>Y cartrefi sydd wedi cofrestru i gael rhybuddion llifogydd fel canran o'r holl gartrefi y mae perygl iddynt gael llifogydd</p> <p>Nifer y cynlluniau ailgylchu dŵr llwyd</p>	Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaethau Hamdden	<p>(a,b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(d) O'r set ddata fwyaf diweddar a adroddwyd (Ebrill 2017), cafodd 13 achos o lygredd dŵr a gadarnhawyd eu hadrodd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod cyfnod 2017-18. Mae hyn yn ostyngiad o 17 achos yn 2016.</p> <p>(e) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Dylid cyfeirio at fframwaith monitro'r Cynllun mewn perthynas â draenio cynaliadwy. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(f,g,h,i,j) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(k) Caiff dau safle ymdrochi yn Sir Gaerfyrddin eu monitro'n flynyddol sef Pentywyn a Phen-bre. Yn 2017 dyfarnwyd bod ansawdd dŵr ymdrochi'r ddau draeth yn 'Rhagorol', pan gawsant eu hadolygu yn erbyn safonau'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi.</p> <p>(l) Caiff Cefn Sidan ei brofi ac mae'n bodloni gofynion y Bartneriaeth Môr Glas gan fod ganddo statws baner las. Mae Pentywyn yn bodloni'r gofynion er mwyn ennill y wobwr, sy'n cynnwys asesiadau o'r traeth ac ansawdd y dŵr.</p>

	<p>5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu</p> <p>5-5 Gwneud lle i ddŵr, a lleihau'r perygl llifogydd</p>	<p>(j) Y defnydd y pen o ddŵr</p> <p>(k) Y ganran o ddyfroedd ymdrochi sy'n cyrraedd safonau gorfodol CE</p> <p>(l) Nifer y traethau sy'n cyrraedd gofynion y Bartneriaeth Môr Glas o ran ansawdd traethau a dŵr</p>			
<p>6 – Asedau Materol</p>	<p>6-1 Defnyddio cyn lleied â phosibl o adnoddau y mae pen draw iddynt a hyrwyddo lefel uwch o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnyddio deunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu</p> <p>6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth gwastraff, sef lleihau, aildddefnyddio ac ailgylchu</p>	<p>(a) Yn 2009/10 dylai Sir Gâr gyrraedd o leiaf 40% o ailgylchu/compostio ac isafswm o 15% o gompostio a 15% o ailgylchu</p> <p>(b) Sgil-gynhyrchion gwastraff yn ôl sector</p> <p>(c) Sgil-gynhyrchion gwastraff yn ôl y dull gwaredu</p> <p>(d) Cyfanswm (i) y gwastraff cartref a (ii) y gwastraff cartref sy'n cael ei ailgylchu neu'i gompostio fesul person y flwyddyn (kg)</p> <p>(e) Y ganran o wastraff adeiladu a dymchwel sy'n cael ei aildddefnyddio a'i ailgylchu</p> <p>(f) Y ganran o gartrefi o fewn trothwyon amser 30, 60 a 90 munud o amser teithio i amwynder, yn cynnwys (i) siop gornel a/neu</p>	<p>Nifer yr adeiladau sy'n cyrraedd safonau CfSH a BREEAM penodol</p> <p>Y ganran o dai newydd a godir ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol, y flwyddyn</p> <p>Y ganran o agregau a ddefnyddir o agregau eilaidd neu agregau wedi'u hailgylchu</p> <p>Lleoliad swyddi o ran agosrwydd at drigolion</p> <p>Y gyfran o siwrneiau ar droed neu ar feic</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin – Mwynau a Gwastraff</p>	<p>(a) Yn 2009/10 cyflawnodd Sir Gâr gyfradd ailgylchu a chompostio gyfun o 40.1% o'i gwastraff trefol (14% compostio; 26% ailgylchu)</p> <p>(b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(d) Gwastraff cartref gweddilliol fesul person, 2007/08 i 2014/15 yn Sir Gâr: 370, 290, 246, 224, 189, 159, 151 ac 156. Cyfartaledd De-orllewin Cymru yn 2014/2015 oedd 188.</p> <p>(e) Daw'r diweddaraf o 2012, a dim ond i Ranbarth y De-orllewin – mae'r gyfradd yn 67%.</p>

	<p>6-3 Annog diwallu anghenion yn lleol</p> <p>6-4 Hyrwyddo defnyddio adnoddau mwy cynaliadwy</p> <p>6-5 Gwella'r integreiddio ar wahanol foddau trafndiaeth</p> <p>6-6 Hyrwyddo defnyddio moddau trafndiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded)</p>	<p>uwchfarchnad, (ii) swyddfa bost a (iii) meddyg a/neu ysbyty</p>			<p>(f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>
<p>7 – Pridd</p>	<p>7-1 Osgoi a lleihau'r halogi ar briddoedd a hyrwyddo adfywio tir sydd wedi'i halogi</p> <p>7-2 Osgoi colli priddoedd i arwynebau anhydraidd a lleihau'r erydu ar bridd i'r eithaf</p>	<p>(a) Arwynebedd o dir Dosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 1, 2 a 3 yn Sir Gâr</p> <p>(b) Arwynebedd o dir Dosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 4 a 5 yn Sir Gâr</p> <p>(c) Nifer a maint y safleoedd RIGS yn Sir Gâr</p> <p>(d) Mynd uwchlaw'r llwythi critigol o ran nitrogen ac asid</p>	<p>Arwynebedd o bridd a gollir i arwynebau anhydraidd</p> <p>Arwynebedd o dir halogedig a gaiff ei adfer</p> <p>Arwynebedd o ddatblygu newydd arfaethedig ar safleoedd tir glas</p> <p>Nifer y datblygiadau a gymeradwywyd o fewn safleoedd RIGS neu'n agos atynt</p>		<p>(a,b) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(c) Caiff RIGs eu hystyried o fwn darpariaethau EQ3 yn y CDLI mabwysiedig.</p> <p>(d) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>

	7-3 Lleihau allyriadau SO ₂ ac NO _x a llygredd nitradau o amaethyddiaeth				
8 – Trefnadaeth Ddiwyliannol	<p>8-1 Amddiffyn asedau hanesyddol a diwyliannol a chymeriad lleol arbennig rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a helpu i'w gwella</p> <p>8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol arbennig</p>	<p>(a) Nifer yr henebion/safleoedd archaeolegol y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt</p> <p>(b) Gwelliant/dirwyriad yng nghyflwr henebion ac adeiladau hanesyddol sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>(c) Y ganran o dir sydd wedi'i ddynodi fel tir â gwerth amwynder ar sail y dirwedd neu dirwedd hanesyddol</p>	<p>Nifer y safleoedd dynodedig ar y gofrestr 'adeiladau mewn perygl' y mae perygl i lygredd aer wneud niwed iddynt</p> <p>Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt</p> <p>Nifer yr adeiladau rhestredig y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt</p> <p>Nifer y parciau a'r gerddi hanesyddol y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt</p>		<p>(a,b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Dylid cyfeirio at fframwaith monitro'r Cynllun mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol / y dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>
9 – Tirwedd	<p>9-1 Amddiffyn a gwella'r dirwedd/drefwedd rhag effeithiau negyddol newid yn nefnydd tir</p> <p>9-2 Rhoi sylw i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a</p>	<p>(a) Yr hectarau o dir sy'n cael eu datblygu bob blwyddyn</p> <p>(b) Maint ac ansawdd manau agored cyhoeddus</p> <p>(c) Nifer y cynlluniau rheoli parciau a manau gwyrdd a gynhyrchir</p> <p>(d) Nifer y safleoedd diffaith a gaiff eu hadfywio</p>	<p>Nifer y datblygiadau a gymeradwywyd heb amodau tirwedd/trefwedd</p> <p>Nifer y datblygiadau a godwyd yn croes i gyngor y Cyngor Cefn Gwlad</p> <p>Nifer y cynlluniau datblygu y darperir</p>		<p>(a,c,d,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(b, e) O ran maint ac ansawdd y manau agored, dylid cyfeirio at fframwaith monitro'r CDLI a Safon Sir Gâr sef 2.4ha fesul 1,000 o boblogaeth. Dylid nodi hefyd y bwriad i adolygu asesiad manau gwyrdd yr Awdurdod.</p>

	<p>hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel</p> <p>9-3 Annog defnydd priodol o dir diffaith yn y dyfodol</p>	<p>(e) Faint o arwynebedd yn Sir Gâr a ddynodir yn dir mynediad agored</p> <p>(f) Faint o arwynebedd o dir diffaith sy'n cael ei droi'n fan agored</p>	<p>dyluniau trefwedd manwl i gyd-fynd â nhw</p>		
10 – Y Boblogaeth	<p>10-1 Sicrhau stoc dai addas, fforddiadwy, gyda mynediad at gyfleusterau addysg a chyflogaeth</p> <p>10-2 Hyrwyddo cadw pobl iau</p> <p>10-3 Annog twf yr iaith a'r diwylliant Cymraeg</p> <p>10-4 Hyrwyddo cynnwys grwpiau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol mewn cymdeithas</p>	<p>(a) Canran y bobl ifanc (i) sy'n aros neu (ii) sy'n dychwelyd i Sir Gâr i fyw a gweithio</p> <p>(b) Nifer y cwynion ynglŷn â mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau</p> <p>(c) Nifer y cwynion gan bobl anabl am hygyrchedd ffyrdd (e.e. llwybrau troed) i</p> <p>(d) Canran y bobl yn Sir Gâr sy'n siarad Cymraeg (i) pawb sy'n 3 oed neu'n hŷn, a (ii) plant 3 i 15 oed</p> <p>(e) Y boblogaeth a'r boblogaeth oedran gweithio</p> <p>(f) Proffil oedran y boblogaeth</p> <p>(g) Amrywiaeth ethnig</p>	<p>Nifer y cwynion hygyrchedd yn ymwneud â datblygiadau newydd</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant</p>	<p>(a,b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(d) Mae nifer y Siaradwyr Cymraeg 3 a throsodd yn 43.9%, a nifer y Siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn 15.1%. Mae'r Boblogaeth yn 184,898, a'r boblogaeth oedran gweithio yn 110,739 (16-64 oed) 2014 (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn).</p> <p>(e) Mae 69% o'r bobl o oedran gweithio yn gyflogedig</p> <p>(f) Mae 18% o'r boblogaeth yn 0 i 15 oed, 60% yn 16 i 64 a 22% dros 65.</p> <p>(g) Mae ethnigrwydd 4 % o'r boblogaeth yn perthyn i grŵp ar wahân i 'gwyn'.</p>
11 – Iechyd a Llesiant	<p>11-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau egniol, iach drwy weithgareddau cynllunio</p> <p>11-2 Darparu mynediad at gyfleusterau a</p>	<p>(a) Y gyfran o gartrefi nad ydynt yn byw o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf</p> <p>(b) Y gyfran o gartrefi sydd o fewn y pellter cerdded/beicio y cytunwyd arno i wasanaethau iechyd allweddol</p>	<p>Nifer y teithiau y person yn ôl modd trafndiaeth (i) cerdded a beicio, (ii) cerbydau modur preifat, a (iii) cludiant cyhoeddus a thacsis</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant</p>	<p>(a) Mae 40% o'r boblogaeth yn byw o fewn 400m i fan gwyrdd naturiol neu led naturiol. Cyfeirir at safon hygyrchedd Mannau Gwyrdd Sir Gâr o 2.4ha fesul 1,000 o boblogaeth sy'n sail i'r fframwaith polisi.</p> <p>(b) Mae 15% o'r trigolion yn gweithio o'u cartref. Mae 27% o'r trigolion yn teithio llai na 5km i'r gwaith, 30% yn teithio 10-30km a 4% yn teithio dros 60km. Mae bron i 75% o'r trigolion yn teithio i'r gwaith yn y car a dim ond 8% ar droed, ac 1% ar feic.</p>

	<p>gwasanaethau iechyd a hamdden</p> <p>11-3 Annog cerdded neu feicio fel dull amgen o drafnidiaeth</p> <p>11-4 Hyrwyddo mynediad at dreftadaeth naturiol Cymru</p>	<p>(c) Disgwyliad oes adeg eu geni i (i) dynion a (ii) menywod</p> <p>(d) Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach i (i) dynion a (ii) menywod</p> <p>(e) Y cyfraddau marwolaeth o (a) clefyd cylchredol a (b) canser (i) i bobl o dan 75 oed</p> <p>(f) Pa mor gyffredin yw gordewdra mewn plant 2-10 oed</p> <p>(g) Sut mae plant yn mynd i'r ysgol (i) cerdded a beicio, (ii) cerbydau modur preifat a (iii) cludiant cyhoeddus a thacsis</p>			<p>(c,d,e) Mae'r Disgwyliad Oes yn ffafriol ar 78.5 i ddynion ac 82.6 i fenywod. Mae gan fymryn mwy na chyfartaledd Cymru o oedolion broblemau iechyd meddwl (28% o'i gymharu â 26%) Mae'r boblogaeth yn llai tebygol o smygu na'r cyfartaledd cenedlaethol ond ceir nifer fwy na'r cyfartaledd o glefydau sy'n gysylltiedig â smygu. Mae'r boblogaeth yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew na'r cyfartaledd i Gymry ac maent hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae'r boblogaeth yn llai tebygol o orfyed mewn pyliau na chyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau canser y Sir yn debyg i gyfartaledd Cymru</p> <p>(f) Y Sir yw'r drydedd waethaf yng Nghymru o ran y lefelau gordewdra ymysg plant, ar 30.7%, bron i 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru o 26.2%.</p> <p>(g) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">12 – Addysg a Sgiliau</p>	<p>12-1 Darparu cyfleusterau addysgol a hyfforddi hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal i'r dyfodol</p> <p>12-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (yn y Gymraeg a'r Saesneg) a rhifedd</p> <p>12-3 Hyrwyddo dysgu gydol oes</p>	<p>(a) Y ganran o bobl 19-21 oed sydd ag o leiaf 2 gymhwyster NVQ lefel 2 neu gyfatebol</p> <p>(b) Y ganran o oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg oedolion</p> <p>(c) Lefel llythrennedd yn y boblogaeth oedolion</p> <p>(d) Lefel rhifedd yn y boblogaeth oedolion</p> <p>(e) Nifer yr oedolion sy'n cwblhau cyrsiau mewn canolfannau addysg oedolion yn Sir Gâr</p>	<p>Y ganran o bobl 16-74 o fewn trothwyon amser 30, 60 a 90 munud o amser teithio i gyfleusterau addysg / addysg bellach drwy (i) gludiant cyhoeddus a (ii) y car</p> <p>Y Ganran o ysgolion sy'n fwy na llawn</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant</p>	<p>(a) Mae Cyflawniad Addysgol yn gymharol uchel gyda 61.1% yn ennill 5 TGAU (o'i gymharu â 57.9% yn genedlaethol).</p> <p>(b) Mae cyfran y bobl ifanc 18-24 oed sy'n NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn uwch na chyfartaledd Cymru (12.2% o'i gymharu â 10.7% yn genedlaethol).</p> <p>(c,d,e) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>

13 – Yr Economi	<p>13-1 Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy</p> <p>13-2 Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob carfan yn y boblogaeth</p> <p>13-3 Hyrwyddo busnesau cynaliadwy yng Nghymru</p>	<p>(a) Nifer y cwmnïau yn Sir Gâr sydd â System Reoli Amgylcheddol o dan y Ddraig Werdd</p> <p>(b) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen</p> <p>(c) Y ganran o bobl o oedran gweithio sydd mewn gwaith</p> <p>(d) Y ganran o (i) plant a (ii) yr holl bobl o oedran gweithio sy'n byw mewn cartrefi heb waith</p> <p>(e) Buddsoddi o'i gymharu â chynnyrch domestig gros (i) cyfanswm y buddsoddiad a (ii) buddsoddiad cymdeithasol</p> <p>(f) Yr amrywiaeth o sectorau economaidd sy'n cael eu cynrychioli</p>	<p>Nifer y busnesau gwag yng nghanol trefi ac mewn canolfannau lleol</p> <p>Nifer y datblygiadau adwerthu newydd a'r datblygiadau masnachol eraill sydd wedi'u cymeradwyo</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant</p>	<p>(a) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p> <p>(b) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r mesur safonol o werth ariannol gweithgaredd economaidd i ardaloedd lleol neu ddiwydiannau unigol. Mae'n anodd mesur ar lefel leol: caiff ystadegau swyddogol eu cyhoeddi am Dde-orllewin Cymru (yn cyfuno Sir Benfro gyda Cheredigion a Sir Gaerfyrddin). Cyfrannodd yr ardal hon £6.0bn GYG i'r economi yn 2014, 10% yn fras o gyfanswm Cymru a oedd yn £54.3bn. Roedd y GYG fesul pen o'r boblogaeth yn 2013 yn £15,750; sy'n is nag i Gymru gyfan (£17,573) a'r Deyrnas Unedig (£24,958).</p> <p>(c) Mae gan y Sir lefelau uchel o gyflogaeth; mae 69% o'r bobl o oedran gweithio yn gyflogedig. Cyfran fach iawn o'r trigolion sy'n hawlio budd-dal diweithdra neu'n ystyried eu hunain yn ddi-waith. Mae'r cyflog wythnosol yn £365 ar gyfartaledd o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru o £539. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws y cymunedau. Mae bwlch mewn cyflogaeth i'r rhai sydd â phroblemau iechyd tymor hir ac nid yw'r canlyniadau iddyn nhw cystal â'r cyfartaledd.</p> <p>(d) Mae 36.3% o'r holl gartrefi yn byw mewn tlodi sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 35%. O'r rhain mae 15.7% yn byw mewn tlodi difrifol. Mae 17.9% o blant yn byw mewn tlodi sy'n is na chyfartaledd Cymru (22%), ond mae'r rhai sy'n byw mewn cartrefi heb waith yn unol â chyfartaledd Cymru o 14%.</p> <p>(e,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>
14 – Gwead Cymdeithasol	<p>14-1 Gwella diogelwch i bobl ac eiddo</p> <p>14-2 Hyrwyddo dylunio aneddiadau mewn ffordd sy'n gwella'r gwead</p>	<p>(a) Y gymhareb prisiau tai cyfartalog i enillion cyfartalog</p> <p>(b) Canran y sgôr yn y mynegai amddifadedd lluosog fesul LSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) i'r parthau Mynediad a Chyflogaeth</p>	<p>Y gyfran o dai fforddiadwy fel canran o'r cartrefi newydd a gyflenwyd</p> <p>Mynediad at feddyg teulu neu weithiwr proffesiynol gofal sylfaenol</p> <p>Mynediad i bobl anabl</p>		<p>(a,b,c,d,e,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.</p>

<p>cymdeithasol drwy gael gwared â rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol</p> <p>14-3 Hyrwyddo darparu tai fforddiadwy</p> <p>14-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig i garfanau difreintiedig cymdeithas</p>	<p>(c) Canran yr anheddau heb fod yn ffit</p> <p>(d) Tai islaw'r safon tai gweddus o ran (i) cartrefi yn y sector cymdeithasol a (ii) aelwydydd bregus yn y sector cyhoeddus</p> <p>(e) Nifer y rhai heb le sefydlog i gysgu</p> <p>(f) Troseddau a gofnodwyd o ran (i) dwyn cerbydau neu ddwyn o gerbydau, (ii) bwrgleriaeth o dai a (iii) troseddu treisgar</p> <p>(g) Y mynegai amddifadedd lluosog</p>	<p>Mynediad mewn ardaloedd gwledig</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant</p>	<p>(g) Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos nad yw Sir Gâr at ei gilydd yn ardal o 'amddifadedd' ond ceir rhywfaint o amrywiaeth ar draws y 6 ardal gymuned. Mae rhannau o ardal Llanelli yn ymddangos yn y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru o ran y parthau canlynol : incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Mae 71% o ogledd Sir Gâr (dyffryn Tywi) yn ymddangos yn y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru o ran 'Mynediad Gwael at Wasanaethau'. Mae gan 19% o'r boblogaeth ormod o ddyled; mae hyn yn unol â chyfartaledd Cymru o 19.6%. Mae gan Sir Gâr stoc fawr o dai cymdeithasol ac mae'n cefnogi cynlluniau tai cymdeithasol.</p>
---	--	--	---	--

Atodiad 1 – Dadansoddiad Cysondeb Amcanion/Nodau Llesiant

A1. Trosolwg

A1.1 Mae'r atodiad hwn yn cynnal adolygiad lefel uchel cychwynol o Weledigaeth ac Amcanion Strategol Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (Mabwysiadwyd 2014) yn erbyn y nodau/amcanion Llesiant Cenedlaethol a Lleol sydd wedi deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

A1.2 Dylid nodi mai un elfen bwysig o ddangos bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin yn gadarn yn weithdrefnol oedd ei synergedd â'r dyheadau sydd wedi'u datgan yn Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin, a'r Strategaeth Gymunedol Integredig o ganlyniad.

A1.3 Cafodd Amcanion Strategol y CDLI eu grwpio o dan y 'golofn thematig' briodol yn y Strategaeth Gymunedol. O ganlyniad, credir bod y blociau adeiladu yn eu lle eisoes o ran rôl y CDLI mewn mynegi'n ofodol uchelgais a dyheadau'r Sir. Fodd bynnag, bydd dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'i mynegi ar lefel Sir yn darparu cyfleoedd i fireinio, lle bo angen.

A1.4 Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu'n fwy unedig. Ein helpu "*ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol*".

A1.5 I sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gweithredu saith nod llesiant fel yr amlinellir yn adran 4 yr atodiad hwn.

A2. Gweledigaeth y CDLI

A2.1 Nod Gweledigaeth y CDLI yw mynegi'r math o le y rhagwelir y dylai Sir Gaerfyrddin fod erbyn 2021. Mae'n darparu persbectif gofodol sy'n rhoi pwrpas a chyfeiriad i'r Cynllun mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn gallu cael ei roi ar waith drwy gyfrwng y system cynllunio defnydd tir.

SIR GAERFYRDDIN 2021

Bydd Sir Gaerfyrddin yn sir lewyrchus a chynaliadwy llawn cyferbyniadau. Bydd ganddi gymunedau gwledig, trefol ac arfordirol â nodweddion unigryw a hefyd diwylliant unigryw, amgylchedd o safon dda ac economi bywiog ac amrywiol.

Bydd y Sir yn cynnig ansawdd bywyd da mewn cymunedau diogel, hygyrch a chynhwysol. Bydd pawb yn gallu cael mynediad at gyflogaeth o ansawdd da, cymysgedd addas o dai a chyfleusterau cymunedol a hamdden – i gyd mewn amgylchedd glân a gwyrdd.

MEWN TERMAU GOFODOL NODWEDDIR Y SIR GAN:

- Llanelli yn cyflawni ei photensial fel canolfan gwasanaethau fodern a bywiog gan ddatblygu ar ei lleoliad ar y glannau.
- Caerfyrddin yn parhau i ffynnu fel canolfan gwasanaethau a gweinyddol sy'n llewyrchus ac wedi'i lleoli'n strategol, gan gadw ei chymeriad nodedig fel tref sirol.
- Rhydaman/Cross Hands yn parhau i ddatblygu fel ardal dwf unigryw ac amrywiol yn y Cymoedd Gorllewinol.
- Cymunedau cynaliadwy, cymdeithasol-gynhwysol, ac economïau lleol effeithlon wedi'u canolbwyntio ar drefi marchnad y Sir a'i phentrefi mwy.
- Cymunedau gwledig bywiog fel amgylcheddau byw a gwaith.
- Cefn gwlad sy'n cael ei werthfawrogi a'i fwynhau gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

A3. Amcanion Strategol y CDLI

A3.1 Mae'r 14 Amcan Strategol (AS) yn y CDLI yn ymhelaethu ar Weledigaeth y CDLI ac yn canolbwyntio ar allu i gyflawni. Maent wedi'u grwpio o dan golofnau perthnasol y Strategaeth Gymunedol ac maent fel a ganlyn:

LLE GWELL: Amgylchedd – gwella'r byd o'n cwmpas, heddiw ac ar gyfer yfory.

AS1: Gwarchod a gwella cymeriad amrywiol, arwahanrwydd, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r Sir drwy sicrhau safonau dylunio cydymdeimladol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.

AS2: Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal drwy wneud y canlynol:

(a) galluogi datblygu mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen am deithio a chyfrannu tuag at gymunedau ac economïau cynaliadwy a pharchu cyfyngiadau amgylcheddol, a (b) lle bo hynny'n bosibl, annog datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac sydd wedi cael ei adfer yn addas.

AS3: Gwneud darpariaeth ar gyfer cymysgedd briodol o dai o ansawdd; bydd y mynediad i'r rhain yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal.
AS4: Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael ei ddiogelu a'i wella a bod cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu gwarchod.
AS5: Gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at fynd i'r afael ag achos ac addasu i effaith newid yn yr hinsawdd drwy ddiogelu adnoddau a hybu defnydd effeithlon ohonynt.
AGOR DRYSAU: Dysgu gydol oes – helpu pawb i gyflawni eu potensial, o blentyndod i henoed.
AS6: Cynorthwyo gydag ehangu a hybu cyfleoedd hyfforddiant sgiliau ac addysg i bawb.
AS7: Cynorthwyo gyda gwarchod a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol, asedau a ffabrig cymdeithasol unigryw y Sir.
TEIMLO'N IAWN: Iechyd a lles – mynd i'r afael ag achosion salwch drwy edrych ar fywyd yn ei gyfanrwydd.
AS8: Cynorthwyo gydag ehangu a hybu cyfleoedd i gael defnyddio cyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â chefn gwlad.
AS9: Sicrhau bod egwyddorion cyfleoedd cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hybu mynediad at gymysgedd amrywiol ac o ansawdd uchel o wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith.
BUDDSODDI AC ARLOESI: Adfywio – creu adnoddau, creu cyfleoedd a chynnig cefnogaeth.
AS10: Cyfrannu at greu system drafndiaeth integredig a chynaliadwy sydd ar gael i bawb.
AS11: Annog buddsoddi ac arloesi (gwledig a threfol) drwy wneud y canlynol: (a) sicrhau darpariaeth ddigonol o dir i fodloni'r angen sydd wedi'i nodi; a, (b) sicrhau darpariaeth ar gyfer anghenion datblygu busnes a chyflogaeth y cyflogwyr cynhenid / newydd, yn enwedig o ran gofynion seilwaith caled a meddal (gan gynnwys telegyfathrebu / TGCh); ac, (c) sicrhau darpariaeth ar gyfer y gofynion seilwaith sy'n gysylltiedig â darparu cartrefi newydd, yn enwedig o ran gofynion seilwaith caled a meddal (gan gynnwys dŵr budr ac arwyneb); a, (d) cadw at egwyddorion datblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol o ran lleoliad datblygiadau newydd.
AS12: Hybu a datblygu mentrau cynaliadwy ac o ansawdd uchel <i>drwy gydol y flwyddyn</i> yn gysylltiedig â thwristiaeth.
TEIMLO'N DDIOGEL: Cymunedau diogelach – cynnig sicrwydd, mynd i'r afael â throsteddu ac ofni trosteddau, gan ein helpu i ofalu am ein gilydd.
AS13: Cynorthwyo gyda datblygu a rheoli lleoedd a gofod diogel a bywiog ledled y Sir.


AS14: Cynorthwyo gyda darparu a rheoli cymunedau cymysg a chynaliadwy drwy wneud y canlynol:

(a) hybu lleoedd diogel, bywiog a rhyngweithiol yn gymdeithasol; a, (b) hybu'r defnydd o wasanaethau a chynnyrch lleol pan fo hynny'n bosibl.

A4. Y Nodau Llesiant Cenedlaethol

A4.1 Ceir 7 nod llesiant cenedlaethol (Ffigur 1) sy'n dangos y math o Gymru rydym eisiau ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth a rennir i gyrff cyhoeddus weithio tuag ati. Maent yn gyfres o nodau ac mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau.

Ffigur 1: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Nodau Llesiant



A4.2 Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n datgan sut dylai sefydliadau fynd ati i fodloni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae 5 Ffordd o Weithio (Gweler Ffigur 3) i arwain y gwaith o weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Ffigur 2: Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod rhaid i'r corff ymddwyn mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Ffigur 3: Y 5 Ffordd o Weithio

- 

Hirdymor
Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- 

Atol
Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- 

Integreiddio
Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- 

Cydweithio
Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- 

Cynnwys
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

A4.3 Mae'r saith nod llesiant wedi'u datgan isod, ynghyd â disgrifiad (fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru).

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

A4.4 Mae dadansoddiad o'r Nodau Cenedlaethol (NC) yn erbyn Amcanion Strategol (AS) y CDLI wedi'u nodi isod.


Sylwadau AS yr CDLI yn erbyn y 7 Nod Cenedlaethol (NC)	
SO1	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 5 a'i bwyslais ar gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar sicrhau safonau dylunio sensitif a chynaliadwy o ansawdd uchel, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO2	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 1 a'i bwyslais ar gydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac, felly, defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar gynaliadwyedd gofodol, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO3	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 5 a'i bwyslais ar gymunedau hyfyw. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddarparu cyfuniad priodol o dai o ansawdd da, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.

SO4	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 2 a'i bwyslais ar amgylchedd naturiol bioamrywiol, yn ogystal â Nod Cenedlaethol 6 a'i bwyslais ar ddiwylliant a threftadaeth. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO5	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 7 a'i bwyslais ar ystyried a all penderfyniadau gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang a'r gallu i ymaddasu i newidiadau (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd). Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar fynd i'r afael ag achos newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'w effaith, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO6	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 1 a'i bwyslais ar ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ehangu a hyrwyddo addysg a hyfforddiant sgiliau, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO7	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 6 a'i bwyslais ar gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar y Gymraeg a chyfansoddiad cymdeithasol y Sir, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO8	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 6 a'i bwyslais ar annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Hefyd, mae Nod Cenedlaethol 3 yn rhoi pwyslais ar gymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ehangu a hyrwyddo mynediad i gyfleusterau hamdden a chefn gwlad, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO9	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 4 a'i bwyslais ar gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar gyfle cyfartal, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO10	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 5 a'i bwyslais ar gymunedau sydd â chysylltiadau da. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar system drafnidiaeth hygrych, integredig a chynaliadwy, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.
SO11	Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 1 a'i bwyslais ar gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel ac ar economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i

	<p>bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhrychir drwy gael gafael ar waith addas. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar annog buddsoddi ac arloesi (mewn ardaloedd gwledig a threfol), yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.</p>
SO12	<p>Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 1 a'i bwyslais ar economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar hyrwyddo economi ymwelwyr gynaliadwy o safon uchel, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.</p>
SO13	<p>Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 5 a'i bwyslais ar gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddiogelwch a bywiogrwydd, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.</p>
SO14	<p>Cyfeirir at Nod Cenedlaethol 5 a'i bwyslais ar gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddiogelwch a bywiogrwydd, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol.</p>

5. Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017/2018

	1 Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	
	2 Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	
	3 Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwyr	
	4 Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant	
	5 Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	
	6 Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	
	7 Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gae	
	8 Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	
	9 Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel	
	10 Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	
	11 Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	
	12 Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	
	13 Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth	
	14 Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	
	15 Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	

 = Blaenoriaethau Nod Gwella Allweddol Presennol

DECHRAU'N DDA

BYW'N DDA

HENEIDDIO'N

AMGYLCHEDD IACH A
DIOGEL

A5.1 Gwelir dadansoddiad o'r 14 Nod Lleol (NLI) uchod yn erbyn Amcanion Strategol (AS) y CDLI isod:

AS y CDLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI	NLI
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13
AS1													
AS2													
AS3													
AS4													
AS5													
AS6													
AS7													
AS8													
AS9													
AS10													
AS11													
AS12													
AS13													
AS14													

	Cysondeb cryf rhwng Amcan Strategol y CDLI a'r Nod Lleol
	Cysondeb niwtral rhwng Amcan Strategol y CDLI a'r Nod Lleol

A5.2 Ceir cysondeb cryf rhwng y CDLI a'r nodau hynny sy'n ceisio hybu mynediad i gartrefi a swyddi. Hefyd mae'r CDLI yn adlewyrchu'r nodau hynny sy'n ceisio hybu cymunedau hygrych sydd wedi'u cysylltu'n dda. Nodir bod y CDLI yn ceisio cyfeirio mwyafrif y twf i'r aneddiadau hynny sydd â gwasanaethau allweddol ac sydd wedi'u lleoli ar lwybrau trafndiaeth allweddol.

Ceir cyswllt clir hefyd rhwng nodau amgylcheddol a'r CDLI. Mae hyn yn dangos ymwybyddiaeth y CDLI o bwysigrwydd diogelu asedau allweddol y Sir fel rhan o'i rôl reoleiddio.

A5.3 Wrth nodi bod y CDLI, yn ei hanfod, yn Gynllun defnydd tir, efallai bod lle am fwy o gydnabyddiaeth o'r nodau hynny sy'n deillio o faterion demograffig (e.e. oedrannau cynnar, poblogaeth hŷn a thlodi). Gallai dod i ddeall a yw materion o'r fath yn benodol amlwg yn ofodol sicrhau ymyriadau polisi cynllunio fel a lle mae hynny'n briodol.

A5.4 Mae cydweithredu wedi'i sefydlu rhwng Tîm Polisi Cynllunio'r Cyngor a'r Tîm Cynllunio Cymunedol/Polisi Corfforaethol. Credir y bydd hyn yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cyson ac ystyrion wrth symud ymlaen. Bydd cyfleoedd hefyd i adolygu blaenoriaethau newydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r nodau o ganlyniad, a hefyd nodir y goblygiadau i'r Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol.

A5.5 Bydd y CDLI yn parhau i ddarparu mecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer yr uchelgeisiau corfforaethol a chymunedol sydd wedi'u datgan yn yr 14 nod llesiant. Mae'n darparu offeryn gofodol i greu "*Y Sir Gaerfyrddin a Garem*" drwy ddarparu cyfrwng nodedig yn lleol i ddylanwadu ar y defnydd o dir yn y Sir yn y dyfodol. O'r herwydd, mae'r CDLI yn ystyried nodweddion a rhinweddau unigryw y Sir ac mae'n gosod datblygu cynaliadwy fel egwyddor ganolog.

A5.6 Cyfeirir hefyd at y gofyniad am baratoi Gwerthusiad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol a hefyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, wrth ddatblygu CDLI.